Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif ymchwil gymdeithasol: 14/2026

Dyddiad cyhoeddi: 29/01/2026

# Gwerthusiad o'r canllawiau statudol ar addysg ddewisol yn y cartref

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83715-926-0

# Gwerthusiad o'r canllawiau statudol ar addysg ddewisol yn y cartref

Awduron: Heledd Bebb, Nia Bryer a Tanwen Grover, Ymchwil OB3 a Geoff Andrews, Miller Research

Adroddiad Ymchwil Llawn: [Bebb, H et al. (2025). Gwerthusiad o'r canllawiau statudol ar addysg ddewisol yn y cartref. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth rhif 14/2026.]

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-or-canllawiau-statudol-ar-addysg-ddewisol-yn-y-cartref

Safbwyntiau'r ymchwilydd sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Cangen Ymchwil Ysgolion

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: YmchwilYsgolion@llyw.cymru

## Tabl cynnwys

Rhestr o dablau....3

Rhestr o dermau....4

1. Cyflwyniad a chefndir....7

1.1. Cefndir....7

1.2. Y cyd-destun deddfwriaethol a'r cyd-destun polisi....7

1.3. Addysg ddewisol yn y cartref....8

2. Methodoleg....10

2.1. Dull gweithredu....10

2.2. Ystyriaethau methodolegol....11

3. Canfyddiadau: y sefyllfa bresennol....13

3.1. Y cyd-destun polisi....13

3.1.1. Cyllid blynyddol gan Lywodraeth Cymru i gefnogi darparu gwasanaethau addysg ddewisol yn y cartref....13

3.2. Y sefyllfa bresennol....14

3.3. Rôl a chyfrifoldebau addysg ddewisol yn y cartref....15

3.3.1. Strwythur rheoli ac atebolrwydd addysg ddewisol yn y cartref....16

3.3.2. Gweithio gyda theuluoedd....16

3.3.3. Y defnydd o ddata....18

3.3.4. Y defnydd o'r cyfraniad blynyddol at y rôl addysg ddewisol yn y cartref....20

3.3.5. Newid yn y broses ers cyflwyno'r canllawiau statudol....21

4. Canfyddiadau: pennu addasrwydd yr addysg....22

4.1. Y cyd-destun polisi....22

4.2. Y dull o bennu ar addasrwydd yr addysg....22

4.3. Tystiolaeth i bennu addasrwydd yr addysg....24

4.4. Amlder yr asesiadau....26

4.5. Sut y cytunir ar addasrwydd yr addysg....27

4.6. Defnyddio'r canllawiau statudol wrth asesu addasrwydd yr addysg....28

5. Canfyddiadau: gwneud trefniadau i weld y plentyn....31

5.1. Y cyd-destun polisi....31

5.2. Rhoi trefniadau ar waith i weld y plentyn....31

5.3. Y gwahaniaeth yn y gallu i weld y plentyn ers cyflwyno'r canllawiau statudol....32

5.4. Barn ynghylch a yw'r canllawiau’n mynd yn ddigon pell o ran rhoi’r pwerau i awdurdodau lleol weld y plentyn, a meysydd allweddol eraill ....33
6. Canfyddiadau: gorchmynion mynychu'r ysgol ....35
6.1. Y cyd-destun polisi....35
6.2. Y broses gorchymyn mynychu'r ysgol ....35
6.3. Gorchmynion mynychu'r ysgol a ddyroddwyd....37
6.4. Y defnydd o ddeunyddiau atodol anstatudol....39
7. Canfyddiadau: cymorth i deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref ....40
7.1. Y cyd-destun polisi....40
7.1.1. Cyllid ychwanegol i awdurdodau lleol ....40
7.2. Y graddau y mae'r canllawiau wedi darparu eglurder ....41
7.3. Sut y defnyddiwyd y cyllid ychwanegol ....41
7.4. Gweithgareddau wedi'u trefnu ar gyfer teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref ....42
7.5. Ceisiadau am gymorth ar gyfer ADY ....43
7.6. Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol ....44
7.7. Mynediad at wasanaeth cwnsela ....45
7.8. Mynediad at gymorth ieuenctid ....45
7.9. Cymorth gan wasanaethau gyrfaoedd ....46
7.10. Cymorth gydag arholiadau ....47
7.11. Ymholiadau gan grwpiau addysg yn y cartref ....48
8. Casgliadau ....49
9. Argymhellion ....52
Atodiad A: Canllaw trafod ar gyfer cyfweliadau â swyddogion arweiniol addysg ddewisol yn y cartref awdurdodau lleol ....57

# Rhestr o dablau

Tabl 3.1: Data ar ddysgwyr a addysgir yn y cartref a ddarparwyd gan 21 awdurdod lleol ...14

# Rhestr o dermau

**Addysg Ddewisol yn y Cartref**

Term i ddisgrifio achosion ble mae rhieni neu warcheidwaid wedi penderfynu darparu addysg yn y cartref i'w plentyn/plant yn lle eu hanfon i'r ysgol yn llawn amser.

**Addysg heblaw yn yr ysgol** (AHY)

Addysg a ddarperir mewn amrywiol leoliadau heblaw am amgylcheddau ysgol traddodiadol a ddarperir gan awdurdodau lleol (h.y., mae gan yr awdurdod lleol gyfrifoldeb ariannol drosto). Gall gynnwys mewn ysgolion ysbytai, unedau cyfeirio disgyblion, ysgolion arbennig annibynnol, e-ddysgu a darpariaeth drwy sefydliadau'r trydydd sector.

**Addysg Montessori**

Dull addysg wedi'i arwain gan blant sy'n pwysleisio dysgu hunangyfeiriedig yn hytrach nag addysgu ffurfiol.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol** (ADY)

Mae gan berson anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo anhawster dysgu neu anabledd (p'un a yw'r anhawster dysgu neu'r anabledd yn deillio o gyflwr meddygol neu beidio) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.

**Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd** (ADHD)

Anhwylder niwroddatblygiadol a ddiffinnir gan lefelau o ddiffyg sylw, diffyg trefn, a/neu orfywiogrwydd-byrbwylltra sy'n amharu ar fywyd.

**Anhwylder Sbectrwm Awtistig** (ASD)

Mae nodweddion anhwylder sbectrwm awtistig yn cynnwys

- diffygion parhaus mewn cyfathrebu cymdeithasol cilyddol a rhyngweithio cymdeithasol;
- patrymau ymddygiad, diddordebau neu weithgareddau sy'n ailadroddus a chyfyngedig
- symptomau sy'n achosi amhariad clinigol arwyddocaol mewn meysydd cymdeithasol, galwedigaethol neu feysydd gweithredol pwysig eraill a
- phan nad yw anabledd deallusol nac oedi mewn datblygiad yn egluro'r aflonyddwch hwn.

**Awdurdod lleol** (ALl)

Mae hyn yn cyfeirio at y cyngor perthnasol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau llywodraeth leol o fewn ardal benodol e.e. iechyd, gofal cymdeithasol, addysg.

**Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn** (CCUHP)

Cytuniad rhyngwladol ar hawliau dynol a fabwysiadwyd ym 1989 sy'n amlinellu hawliau sylfaenol pob plentyn.

**Cyd-bwyllgor Addysg Cymru** (CBAC)

Bwrdd arholi sy'n darparu cymwysterau academaidd a galwedigaethol yng Nghymru

**Cyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion** (CYBLD)

Casgliad blynyddol drwy gyfrifiad electronig, a gynhelir fel arfer ym mis Ionawr, o ddata ar ddisgyblion unigol yng Nghymru.

**Cyfwerth ag amser llawn** (FTE)

Uned fesur i ddangos cyfanswm yr oriau y mae gweithiwr yn eu gweithio.

**Cynllun Datblygu Unigol** (CDU)

Mae hwn yn nodi Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) plentyn neu berson ifanc a'r Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY). Mae'n ddogfen gyfreithiol, a rhaid dogfennu'r DDdY yn y CDU. Mae'n hawl gyfreithiol o dan y system ADY newydd yng Nghymru. Mae'n ddogfen sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n cael ei datblygu gyda mewnbwn gan y plentyn a'i rieni/gofalwyr neu weithwyr proffesiynol. Rhaid ei hadolygu yn flynyddol o leiaf.

**Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol** (DDdY)

Cymorth addysgol sy'n ychwanegol at, neu sy'n wahanol i'r hyn sydd ar gael yn gyffredinol i eraill o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd.

**Gorchymyn goruchwylio addysg**

Mae'r gorchymyn hwn yn ei gwneud yn ofynnol i rieni a'u plentyn ddilyn cyfarwyddiadau a wneir yn y gorchymyn i weithio gyda swyddog goruchwylio'r awdurdod lleol i wella presenoldeb eu plentyn yn yr ysgol.

**Gorchymyn mynychu'r ysgol**

Os yw awdurdod lleol yn parhau i fod yn anfodlon bod rhiant wedi dangos tystiolaeth y darperir addysg amser llawn addas i blentyn, disgwylir iddo ysgrifennu at y rhiant a'i hysbysu o'r bwriad i gyflwyno Gorchymyn Mynychu'r Ysgol.

**Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc** (CAMHS)

Un o wasanaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) sy'n helpu plant a phobl ifanc ag anawsterau emosiynol, ymddygiadol ac iechyd meddwl.

**Plant sy'n Colli Addysg**

Plant o oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn ddisgyblion cofrestredig mewn ysgol, nad ydynt yn cael eu haddysgu yn y cartref ac nad ydynt yn derbyn unrhyw ddarpariaeth amgen.

**Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsryweddol, Cwiar a Phobl Sy'n Cwestiynu eu Rhywedd** (LHDTC+)

Acronym a ddefnyddir i ddisgrifio hunaniaeth rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol pobl.

**Pobl Nad Ydynt Mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant** (NEET)

Caiff person ifanc 16-24 oed ei ddiffinio fel person nad yw mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant os nad yw'n cymryd rhan mewn unrhyw fath o addysg, hyfforddiant a gefnogir gan y llywodraeth na chyflogaeth. Mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n ddi-waith ac wrthi'n chwilio am waith, a'r rhai sy'n economaidd anweithgar ac nad ydynt yn chwilio am waith.

**Rhaglen Cymorth Bugeiliol** (RhCB)

Ymyriad yn yr ysgol yw hwn sydd wedi'i gynllunio i helpu myfyrwyr sydd mewn perygl o gael eu gwahardd neu sy'n profi heriau sylweddol yn yr ysgol, boed yn heriau academaidd, ymddygiadol, emosiynol neu gymdeithasol.

**Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd (TGAU)**

Cymhwyster academaidd a astudir gan fyfyrwyr mewn ystod eang o bynciau, fel arfer ar ddiwedd Blwyddyn 11.

**Uned Cyfeirio Disgyblion** (UCD)

Lleoliad addysg amgen wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer myfyrwyr sy'n cael anhawster mewn amgylchedd ysgol traddodiadol.

.

# 1. Cyflwyniad a chefndir

## 1.1. Cefndir

Penodwyd Ymchwil OB3, mewn cydweithrediad â Miller Research, gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2025 i gynnal gwerthusiad o'r Canllawiau statudol ar Addysg Ddewisol yn y Cartref. Nod y gwerthusiad oedd archwilio effeithiolrwydd y canllawiau statudol ar addysg ddewisol yn y cartref, archwilio a oedd awdurdodau lleol yn ystyried bod eu gallu i 'weld' y plentyn a chyfathrebu ag ef wedi cryfhau yn sgil cyhoeddi'r canllawiau a chanfod a oedd angen gwneud unrhyw welliannau i'r canllawiau.

Prif bwrpas y gwerthusiad oedd asesu:

- effeithiolrwydd y canllawiau o ran cefnogi awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas ag addysg ddewisol yn y cartref
- a oedd awdurdodau lleol wedi newid eu prosesau addysg ddewisol yn y cartref mewn ymateb i'r canllawiau
- i ba raddau y mae'r canllawiau statudol yn effeithiol o ran cryfhau sefyllfa awdurdodau lleol i 'weld' y plentyn yn y cartref, er mwyn pennu a yw'n derbyn addysg addas
- p’un a oedd awdurdodau lleol wedi gweld mwy o blant o ganlyniad i'r canllawiau
- p'un a oedd awdurdodau lleol wedi wynebu problemau gyda chymhwyso'r canllawiau
- unrhyw welliannau y gellid eu cynnig i'r canllawiau a allai helpu awdurdodau lleol i fynd i'r afael ag unrhyw faterion cyfredol
- unrhyw enghreifftiau o ymarfer llwyddiannus y gallai awdurdodau lleol eu rhannu ag eraill.

## 1.2. Y cyd-destun deddfwriaethol a'r cyd-destun polisi

Mae addysg yn hawl sylfaenol i bob plentyn ac mae'n hanfodol i ddatblygiad plant, eu lles a'u cyfleoedd yn y dyfodol. Ategir hyn gan egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a fabwysiadwyd gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ym 1989 ac a gadarnhawyd gan y DU ym 1991. Mae Erthygl 28 o CCUHP yn datgan hawl pob plentyn i dderbyn addysg ac mae Erthygl 29 yn datgan y dylai addysg ddatblygu personoliaeth a thalentau pob plentyn i’r eithaf.

Mae gan awdurdodau lleol a rhieni ddyletswydd statudol i sicrhau bod plant yn derbyn addysg. Noda Adran 7 o Ddeddf Addysg 1996 ei bod yn ofynnol yn ôl y gyfraith i rieni sicrhau bod eu plentyn yn derbyn 'addysg amser llawn effeithlon', sy'n addas i 'oedran, gallu a doniau' y plentyn.

Mae Adran 436A o Ddeddf Addysg 1996 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau i adnabod pob plentyn o oedran ysgol statudol sy'n byw yn eu hardaloedd nad

ydynt yn ddysgwyr cofrestredig mewn ysgol ac i weithredu os yw'n ymddangos nad ydynt yn derbyn addysg addas. Ceir disgwyliad yn Neddf Addysg 1996 y bydd awdurdodau lleol yn gwneud popeth sy'n rhesymol, yn ymarferol ac yn briodol i adnabod plant yn eu hardal sydd o oedran ysgol gorfodol ac nad ydynt yn derbyn addysg addas.

Mae Deddf Addysg (Cymru) 2014 yn amlinellu cyfrifoldebau awdurdodau lleol a rhieni o ran addysg plant.

Ers ei sefydlu, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod pob plentyn yn derbyn addysg addas ac atgyfnerthwyd yr ymrwymiad hwn yn Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl (2023). Pwysleisiwyd yr ymrwymiad ymhellach yn Cenhadaeth ein cenedl: safonau a dyheadau uchel i bawb sy'n anelu at gyflawni safonau a dyheadau uchel i bawb 'drwy gefnogi pob dysgwr'. Mae’r egwyddorion a nodir yn Cenhadaeth ein Cenedl yn berthnasol i bob plentyn, gan gynnwys y rhai sy’n cael eu haddysgu yn y cartref.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn hyrwyddo Cymru sy'n fwy cyfartal drwy gefnogi system addysg gynhwysol a chyfartal lle mae pob plentyn yn cael ei gefnogi i oresgyn rhwystrau i ddysgu a chyfranogi.

## 1.3. Addysg ddewisol yn y cartref

Cyhoeddwyd y canllawiau statudol ar gyfer awdurdodau lleol ar addysg ddewisol yn y cartref ym mis Mai 2023 gan ddisodli'r canllawiau anstatudol a oedd ar waith yn flaenorol. Fe'u datblygwyd i gefnogi awdurdodau lleol i arfer eu swyddogaethau i wneud trefniadau i ganfod y plant hynny nad ydynt yn derbyn addysg addas.

Fel y nodwyd yn y canllawiau statudol, mae addysg yn orfodol, ond nid felly mynychu'r ysgol. Mae Addysg Ddewisol yn y Cartref yn cyfeirio at sefyllfaoedd lle mae teuluoedd yn dewis addysgu eu plant yn y cartref yn hytrach na'u hanfon i'r ysgol. Fel yr eglura'r canllawiau, gall teuluoedd wneud y penderfyniad hwn am ystod eang o resymau, ac mae llawer yn teimlo eu bod yn gallu diwallu anghenion addysgol eu plentyn yn well y tu allan i amgylchedd ystafell ddosbarth.

Mae'r canllawiau'n cydnabod, er nad oes diffiniad cyfreithiol o addysg amser llawn, ystyrir yn gyffredinol ei fod yn llenwi cyfran sylweddol o amser y plentyn. Noda ymhellach nad oes gofyn i blant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref ddilyn y Cwricwlwm i Gymru nag ymgymryd ag isafswm o oriau dysgu. Mae'r canllawiau'n cydnabod bod dulliau addysgu yn y cartref yn amrywiol iawn ac wedi'u teilwra i anghenion a diddordebau unigol pob plentyn. Nid oes un ffordd o ddarparu addysg yn y cartref; gall fod yn ffurfiol ac yn strwythuredig gan ddilyn amserlen, neu gall fod yn fwy annibynnol, hyblyg ac wedi'i harwain gan y plentyn.

Nid oes angen cymwysterau ffurfiol ar rieni i addysgu eu plentyn yn y cartref. Gallant ddewis addysgu eu plentyn yn uniongyrchol, cyflogi tiwtor, defnyddio adnoddau dysgu ar-lein, neu drefnu i'w plentyn ddysgu mewn grwpiau ochr yn ochr â phlant eraill a addysgir yn y cartref. Noda'r canllawiau y gallai unrhyw drefniant lle mae pump neu fwy o ddysgwyr (neu un dysgwr o oedran ysgol gorfodol sy'n derbyn gofal, sydd â datganiad ADY, cynllun datblygu unigol (CDU) neu gynllun addysg, iechyd a gofal) yn cael eu haddysgu mewn un lleoliad

heblaw ysgol a gynhelir, fod yn drefniant a fyddai o fewn cwmpas ysgol annibynnol y mae'n rhaid iddi fod wedi'i chofrestru gyda Llywodraeth Cymru.

Noda'r canllawiau y gall awdurdodau lleol asesu addasrwydd yr addysg a ddarperir gan rieni, ac nad yw'n afresymol i awdurdodau lleol holi rhieni am eu dull addysgu a'r addysg a gaiff ei darparu. Nid yw asesu addasrwydd addysg yn ymwneud â mesur cyrhaeddiad plentyn na phrofi ei alluoedd mewn unrhyw ffordd.

Noda'r canllawiau y byddai addysg addas yn cynnwys darpariaeth mewn sgiliau rhifedd, llythrennedd ac iaith sy'n addas i oedran, gallu a doniau'r plentyn a diwallu unrhyw anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a allai fod gan y plentyn.

Nid yw'r canllawiau wedi newid dyletswyddau awdurdodau lleol mewn perthynas ag addysg ddewisol yn y cartref. Fodd bynnag, cryfhawyd sawl agwedd er mwyn egluro'r ddeddfwriaeth, a rôl a chyfrifoldebau awdurdodau lleol a rhieni o dan y fframwaith deddfwriaethol presennol. Roedd yr agweddau hyn fel a ganlyn:

- eglurder o ran rolau a chyfrifoldebau - mae'r canllawiau'n rhoi mwy o fanylion i rieni ynghylch yr hyn a ystyrir yn 'addysg addas' ac yn amlinellu'r mathau o dystiolaeth y gall awdurdodau lleol ofyn amdani i asesu cynnydd addysgol, ac o ran cynnig cymorth i deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref a pharhau i gyfathrebu â nhw

- taro cydbwysedd rhwng annibyniaeth rhieni a goruchwyliaeth awdurdodau lleol - agwedd bwysig ar y canllawiau yw'r cydbwysedd rhwng parchu annibyniaeth rhieni wrth ddewis addysgu yn y cartref a sicrhau bod anghenion addysgol a lles plant yn cael eu diwallu

- diogelu a lles plant - mae'r canllawiau statudol yn pwysleisio bod gan awdurdodau lleol ddyletswydd i ddiogelu plant

- cymorth i addysgwyr yn y cartref - mae'r canllawiau'n pwysleisio y dylai awdurdodau lleol fabwysiadu dull cefnogol, gan gynnig gwybodaeth a chyngor i deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref, yn hytrach na chanolbwyntio'n llwyr ar fonitro a gorfodi. Mae hyn yn unol â ffocws ehangach Llywodraeth Cymru ar gynhwysiant a darparu cymorth wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion lleoliadau addysgol amrywiol.

Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i werthuso effaith y canllawiau ar ôl i awdurdodau lleol gael cyfnod addas o amser i allu eu hymgorffori'n llawn.

Ar ddechrau penodau tri i saith, rydym yn amlinellu'n fanylach yr adrannau perthnasol o'r canllawiau statudol er mwyn rhoi cyd-destun i ganfyddiadau ein gwaith maes gydag awdurdodau lleol.

# 2. Methodoleg

## 2.1. Dull gweithredu

Cynhaliwyd y rhaglen waith ar gyfer y gwerthusiad hwn mewn 4 cam.

Y cam cyntaf oedd cyfarfod cychwynnol gyda'r cleient i gytuno ar y dull gweithredu a'r amserlen ac i gael mynediad at y dogfennau perthnasol.

Yng ngham 2, dadansoddwyd data ac ymchwil presennol. Roedd hyn yn cynnwys ymchwil desg ar ddogfennau polisi a strategaethau presennol [a amlinellir yn adran 1.2] gan gynnwys y canllawiau addysg ddewisol yn y cartref cyhoeddedig a deunyddiau atodol.

Yn ystod y cam hwn, cynhaliwyd cyfweliadau cwmpasu hefyd gyda 2 arweinydd polisi yn Llywodraeth Cymru i feithrin dealltwriaeth gadarn o'r sefyllfa bresennol, i archwilio unrhyw ymchwil neu ddata pellach a allai ddarparu mwy o gyd-destun i'r gwerthusiad ac i gytuno ar y themâu a'r cwestiynau i'w trafod yn ystod y gwaith maes gydag awdurdodau lleol.

Roedd Cam 3 y fethodoleg yn cynnwys datblygu canllaw trafod i'w ddefnyddio yn ystod gwaith ymchwil gwreiddiol gyda phob awdurdod lleol yng Nghymru – i gynnwys swyddogion arweiniol addysg ddewisol yn y cartref a staff perthnasol eraill yr awdurdodau lleol yn ôl yr angen (megis swyddogion lles addysg neu arweinwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)). Paratowyd templed rhannu data hefyd yn gofyn am ddata ar addysg ddewisol yn y cartref fel yr adroddwyd yn y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) ar gyfer Ionawr 2025. Rhannwyd offer ymchwil drafft a hysbysiad preifatrwydd dwyieithog gyda'r cleient iddo wneud sylwadau arnynt a'u cymeradwyo cyn dechrau ar y gwaith maes. Rhoddwyd yr hysbysiadau preifatrwydd ar-lein a rhannwyd hyperddolen gyda'r holl gyfranwyr at y gwaith maes yn y gwahoddiad cychwynnol i gyfweliad.

Anfonwyd gwahoddiadau drwy e-bost at y prif gyswllt addysg ddewisol yn y cartref ym mhob awdurdod lleol, at 2 undeb athrawon perthnasol sy'n cynrychioli penaethiaid ac arweinwyr ysgol, ac at swyddfa Comisiynydd Plant Cymru.

Trefnwyd cyfweliadau lled-strwythuredig gyda chynrychiolwyr o bob un o'r 22 awdurdod lleol ac un undeb athrawon rhwng canol mis Ebrill a chanol mis Gorffennaf.

Anfonwyd gwahoddiad cychwynnol drwy e-bost at bawb a gyfwelwyd yn amlinellu diben yr asesiad a'r gofynion ar gyfer y cyfweliad. Anfonwyd y canllaw trafod a'r ffurflen rhannu data at y cyfranwyr cyn y cyfweliad hefyd. Anfonwyd hyd at 2 e-bost atgoffa dilynol at y cyfranwyr yn ôl yr angen. Cynhaliwyd yr holl gyfweliadau drwy Teams naill ai ar ffurf trafodaethau un-i-un neu drafodaethau mewn grwpiau bach (gweler y copi o'r canllaw trafod yn Atodiad A i'r adroddiad hwn). Mynegodd cyfanswm o 34 o unigolion eu barn yn ystod y cam gwaith maes ansoddol.

Ar ôl cwblhau'r gwaith maes, roedd cam 4 y gwerthusiad yn cynnwys dadansoddiad o'r gwaith maes. Ychwanegwyd yr ymatebion i'r cwestiynau yn y canllaw trafod at fframwaith

dadansoddi Excel. Cafodd pob cwestiwn ei ddadansoddi ac ychwanegwyd gwybodaeth berthnasol o dan y penawdau priodol drwyddo draw. Fe wnaeth y dull codio thematig o fewn fframwaith wedi'i arwain gan gwestiynau alluogi cymhariaeth uniongyrchol o'r atebion i'r cwestiynau ymchwil penodol (e.e. a oedd awdurdodau lleol yn teimlo bod eu gallu i 'weld' plant wedi'i gryfhau) a helpu i amlygu enghreifftiau.

Mae strwythur yr adroddiad yn seiliedig ar yr amcanion a amlinellir yn y fanyleb (gweler y pwyntiau bwled yn adran 1.1). Cafodd yr adroddiad drafft ei adolygu'n fewnol gan gymheiriaid cyn ei gyflwyno i'r cleient, a chafodd ei ailddrafftio ar ôl derbyn sylwadau.

## 2.2. Ystyriaethau methodolegol

Er y defnyddiwyd dulliau cymysg ar gyfer yr ymchwil hwn, gan gyfuno cyfweliadau ansoddol lled-strwythuredig (yn cwmpasu arfer gweithredol, dehongli'r canllawiau, ac enghreifftiau) â chiplun meintiol strwythuredig gan awdurdodau lleol yn seiliedig ar bum cwestiwn, mae'n dibynnu'n bennaf ar ymatebion ansoddol a ddarparwyd yn ystod y cyfweliadau.

Nododd sawl ymarferydd o awdurdodau lleol fod y ffigurau ar gyfer y plant a 'welwyd' yn amrywio dros y flwyddyn academaidd gan fod ymweliadau'n cael eu hamserlennu, felly gall ciplun o fis Ionawr dangynrychioli neu orgynrychioli gweithgaredd yn dibynnu ar yr amserlenni lleol. Dywedodd y rhai a gyfwelwyd fod dehongliadau gwahanol o'r termau sydd yn y canllawiau (er enghraifft, yr hyn sy'n cael ei ystyried yn 'weld' y plentyn neu'n dystiolaeth dderbyniol), a bod hynny'n effeithio ar sut y mae categorïau monitro yn cael eu cymhwyso. Codwyd y materion hyn gan ymatebwyr o'r awdurdodau lleol yn ystod y cyfweliadau ac yn y ffurflenni data eu hunain.

Mae'r gwaith maes ansoddol yn seiliedig ar safbwyntiau eang o ystyried y llwyddwyd i gyfweld â chynrychiolwyr o bob un o'r 22 awdurdod lleol. Mae hyn yn darparu cwmpas cenedlaethol llawn o safbwyntiau ymarferwyr.

Roedd yr ymatebwyr a gymerodd ran yn y gwaith maes yn adlewyrchu amrywiaeth o rolau o fewn timau awdurdodau lleol (swyddogion, cydlynwyr, rheolwyr tîm ac uwch reolwyr addysg ddewisol yn y cartref), ac mewn sawl awdurdod lleol cyfrannodd mwy nag un ymarferydd at y trafodaethau. Roedd yr amrywiaeth o rolau a gynrychiolwyd yn werthfawr: rhoddodd y swyddogion gweithredol fanylion am arferion o ddydd i ddydd a chofnodi data, a rhoddodd rheolwyr ddarlun strategol o benderfyniadau'n ymwneud ag adnoddau a pholisi. Fodd bynnag, o'r herwydd, roedd y safbwynt a gynigiwyd gan unrhyw awdurdod lleol unigol yn dibynnu ar y sawl a gymerodd ran yn y cyfweliad, ac roedd hyn yn dylanwadu ar lefel y manylder a'r wybodaeth hanesyddol a oedd ar gael ym mhob cyfweliad.

Roedd nifer bach o’r rhai a gafodd eu cyfweld yn newydd i’w swyddi yn dilyn gweithredu'r canllawiau statudol ym mis Mai 2023. Yn aml, roedd yr ymatebwyr hynny'n gallu disgrifio prosesau cyfredol ac effaith weithredol newidiadau lleol diweddar ond roeddent yn aml yn ei chael hi'n anodd cymharu'r sefyllfa bresennol â'r cyfnod yn union cyn cyflwyno'r canllawiau (cyn mis Mai 2023).

Roedd y canllaw trafod ar gyfer yr awdurdodau lleol yn cynnwys llawer o gwestiynau manwl ac, mewn sawl achos, roedd cwmpasu'r set lawn o fewn y slot awr safonol ar gyfer

cyfweliad yn heriol. Nodwyd bod hyn yn broblem ac felly anfonwyd y canllaw trafod at y cyfranogwyr ymlaen llaw a rhoddwyd gwybod i'r cysylltiadau yn yr awdurdodau lleol y gallai'r cyfweliadau fynd dros eu hamser - yn enwedig ar gyfer cyfarfodydd mewn grwpiau bach lle yr oedd nifer o gyfranwyr yn dymuno ychwanegu manylion. Er gwaethaf hynny, mewn rhai cyfweliadau daeth yr amser i ben cyn bod modd trafod yr holl gwestiynau'n llawn. Yn yr achosion hynny, trefnodd y tîm ymchwil gyfweliadau dilynol byr neu gwahoddodd ymatebion ysgrifenedig ychwanegol drwy e-bost i sicrhau bod unrhyw bwyntiau nas trafodwyd yn cael eu cofnodi.

Fe wnaeth dosbarthu'r canllaw trafod ymlaen llaw helpu'r cyfranogwyr i baratoi tystiolaeth a dogfennaeth, a oedd yn aml yn gwella ansawdd yr atebion hyd yn oed pan oedd amser yn brin. Lle y cafwyd cysylltiadau dilynol neu ymatebion ysgrifenedig, cawsant eu hintegreiddio i'r dadansoddiad a'u trin yn yr un modd â deunydd y cyfweliadau.

Ffocws yr asesiad hwn oedd cael barn staff awdurdodau lleol. O'r herwydd, dim ond barn ymarferwyr, heriau gweithredol ac enghreifftiau o ymarfer y gall y dadansoddiad eu hadlewyrchu, ac ni ellir triongli barn teuluoedd na dysgwyr. Mae hwn yn gyfyngiad pwysig wrth ddehongli honiadau ynghylch cymhellion teuluoedd neu ba mor dderbyniol yw'r canllawiau i deuluoedd. Dylid nodi bod teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref wedi rhoi eu barn yn yr ymgynghoriad ar y canllawiau statudol a'r llawlyfr i  addysgwyr yn y cartref a gynhaliwyd yn 2019.

Mae'r derminoleg a ddefnyddir yn y canfyddiadau yn golygu'r canlynol:

- ambell (llai na 10%)
- sawl (llai na 20%)
- rhai (mwy nag 20% ond llai na 50%)
- llawer (tua hanner)
- mwyafrif (mwy na 50% ond llai na 75%)
- y rhan fwyaf (mwy na 75%)
- mwyafrif llethol (bron pob ymateb gyda rhai â barn wahanol)
- bron pob un (yr holl ymatebwyr, neu'r mwyafrif helaeth a ymatebodd wedi rhoi atebion tebyg ac ni wnaeth y gweddill sylwadau).

Lle bynnag y bo modd, caiff honiadau eu mesur yn ôl nifer yr awdurdodau a ddarparodd dystiolaeth. Defnyddiwyd y dystiolaeth ansoddol lle bo modd i esbonio patrymau a welwyd yn y ffurflenni data meintiol (e.e. pam y gwelodd rhai awdurdodau lleol fwy o blant).

Cafodd dadansoddiad drafft ei adolygu'n fewnol gan gymheiriaid a'i ailddrafftio i brofi'r dehongliad ac i leihau rhagfarn dadansoddwyr.

# 3. Canfyddiadau: y sefyllfa bresennol

## 3.1. Y cyd-destun polisi

Mae'r canllawiau statudol ar addysg ddewisol yn y cartref yn amlinellu disgwyliadau i awdurdodau lleol gasglu a defnyddio data i lywio'r gwaith o ddatblygu eu polisïau a'u harferion ar addysg yn y cartref, er mwyn deall yn well y rhesymau pam mae rhai teuluoedd yn dewis addysgu eu plant yn y cartref a threfnu cymorth a chyngor priodol.

Mae'r canllawiau hefyd yn nodi bod disgwyl i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth ysgrifenedig glir a chywir am eu polisïau ar eu gwefan, a hynny ar dudalen benodol ar gyfer addysg yn y cartref, gan gynnwys manylion cyswllt ar gyfer sefydliadau cymorth addysg yn y cartref lle bo modd. Dylent hefyd ddarparu enw cyswllt yn yr awdurdod sy'n gyfarwydd â pholisi ac ymarfer addysg yn y cartref i rieni sy'n addysgu eu plant yn y cartref neu sy'n ystyried gwneud hynny.

Noda'r canllawiau fod disgwyl i awdurdodau lleol adrodd i bwyllgorau craffu perthnasol ac aelodau etholedig mewn perthynas â materion yn ymwneud ag addysg yn y cartref, a hynny o leiaf unwaith y flwyddyn. Nodir hefyd yn y canllawiau y dylai pob awdurdod lleol bennu uwch swyddog i fod yn gyfrifol am bolisi a gweithdrefnau'n ymwneud ag addysg yn y cartref. Mae'r canllawiau'n cynghori awdurdodau lleol i adolygu'r gweithdrefnau hyn yn rheolaidd ac yn nodi y dylai sefydliadau addysg yn y cartref, rhieni a phlant fod yn rhan o'r broses adolygu.

### 3.1.1. Cyllid blynyddol gan Lywodraeth Cymru i gefnogi darparu gwasanaethau addysg ddewisol yn y cartref

Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru fod cyllid ychwanegol i gefnogi awdurdodau lleol gyda'u dyletswyddau statudol presennol yn ymwneud ag addysg ddewisol yn y cartref wedi'i gymeradwyo yn 2021. Cytunwyd ar y telerau cyllido ac fe'u dyrannwyd am 3 blwyddyn academaidd: 2021/22, 2023/23 a 2023/24. Cafodd y cyllid ei ymestyn am flwyddyn arall yn 2024/25. Mae'r cyllid yn amodol ar delerau penodol, sy'n cynnwys gofyniad i awdurdodau lleol gyflwyno adroddiad yn flynyddol.

Mae'r cyllid hwn yn cynnwys swm sefydlog blynyddol o £50,000 a dyraniad pro rata ychwanegol yn seiliedig ar nifer y plant y gwyddys eu bod yn cael eu haddysgu yn y cartref ym mhob awdurdod. Mae'r cyllid ar gyfer addysg ddewisol yn y cartref bellach yn rhan o grant Addysg Awdurdodau Lleol.

Disgwylir i awdurdodau lleol ddefnyddio'r cyllid hwn i gadw cofnodion cywir a addysgir yn y cartref, darparu cymorth ac arweiniad i deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref, monitro canlyniadau addysgol, ymgysylltu â theuluoedd sy'n addysgu yn y cartref, a chyflwyno adroddiadau i Lywodraeth Cymru ynghylch sut y mae'r cyllid wedi cael ei ddefnyddio.

Darperir y dyraniad sefydlog o £50,000 i awdurdodau lleol er mwyn gwella eu capasiti staffio presennol ar gyfer addysg ddewisol yn y cartref a'u cefnogi i weithredu'r canllawiau statudol.

## 3.2. Y sefyllfa bresennol

Gofynnwyd i bob awdurdod lleol gwblhau templed casglu data fel rhan o'r astudiaeth hon. Dychwelodd cyfanswm o 21 o blith y 22 awdurdod lleol y ffurflen casglu data a oedd yn darparu gwybodaeth am eu sefyllfa casglu data ym mis Ionawr 2025. Mae'r data hyn i'w gweld yn Nhabl 3.1. Dangosir bod cyfanswm o 7,146 o ddysgwyr sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref wedi'u cofnodi gan 21 awdurdod lleol ym mis Ionawr 2025. O blith y rhain, barnwyd bod 63% yn cael addysg addas ac effeithlon a gwelwyd a siaradwyd â 35%.

Cafodd cyfanswm o 288 o ddysgwyr a addysgir yn y cartref eu categoreiddio fel plant sy'n colli addysg ar draws 18 awdurdod lleol a ddarparodd y data hyn. Roedd hyn yn amrywio o uchafswm o 65 o ddysgwyr a addysgir yn y cartref yn colli addysg mewn un ardal awdurdod lleol i ddim achosion o'r fath mewn ardal awdurdod arall lle yr ystyriwyd bod pob dysgwr a addysgir yn y cartref yn cael addysg addas.

Darparodd cyfanswm o 17 o awdurdodau lleol ddata am gyfradd y dysgwyr a addysgir yn y cartref fesul 1,000 o ddisgyblion ar draws eu hawdurdod lleol. Roedd y cyfraddau hyn yn amrywio o uchafswm o ychydig dros 26.7 fesul 1,000 o ddisgyblion mewn un awdurdod lleol i isafswm o 9.7 fesul 1,000 o ddisgyblion; y cyfartaledd oedd 19.8 o ddisgyblion fesul 1,000 o ddisgyblion ar draws yr 17 ardal a ddarparodd ddata.

**Tabl 3.1: Data ar ddysgwyr a addysgir yn y cartref a ddarparwyd gan 21 awdurdod lleol**

| | Nifer |
|---|---|
| Nifer y dysgwyr a addysgir yn y cartref | 7,146 |
| Cyfradd gyfartalog y dysgwyr a addysgir yn y cartref fesul 1,000 o ddisgyblion [17 awdurdod lleol] | 19.8 |
| Nifer y dysgwyr a addysgir yn y cartref a welwyd ac y siaradwyd â nhw [troednodyn 1] | 2,473 |
| Nifer y garfan addysg ddewisol yn y cartref yr ystyriwyd eu bod yn cael addysg addas ac effeithlon | 4,475 |
| Nifer y garfan addysg ddewisol yn y cartref a gafodd eu categoreiddio fel plant sy'n colli addysg [18 awdurdod lleol] | 288 |

Ffynhonnell: Awdurdodau lleol, fel ym mis Ionawr 2025

[1] Mae'r data hyn yn cynnwys plant a phobl ifanc a welwyd ac y siaradwyd â nhw yn ystod ymweliadau cartref, yn rhithwir drwy sesiynau Teams yn ogystal ag mewn digwyddiadau wyneb yn wyneb fel gweithgareddau a drefnwyd gan yr awdurdod lleol. Nododd un awdurdod lleol ei fod hefyd yn cynnwys plant a phobl ifanc a welwyd ac y siaradwyd â nhw gan swyddogion eraill yr awdurdod lleol, nad ydynt yn swyddogion addysg ddewisol yn y cartref.

## 3.3. Rôl a chyfrifoldebau addysg ddewisol yn y cartref

Roedd y 34 o'r cyfrannwr o awdurdodau lleol a gafodd eu cyfweld ar gyfer y gwerthusiad hwn yn ymgymryd ag un o'r 3 rôl ganlynol:

- Swyddogion addysg ddewisol yn y cartref a oedd hefyd yn dal teitlau swyddi eraill fel Swyddog Addysg a Chymorth Addysg Ddewisol yn y Cartref, Athro Arbenigol Addysg Ddewisol yn y Cartref, Swyddogion Lles Addysg a Swyddogion Cynhwysiant
- Cydlynwyr addysg ddewisol yn y cartref a rheolwyr tîm a oedd fel arfer yn gyfrifol am swyddogion a thimau addysg ddewisol yn y cartref, ond a oedd yn aml hefyd yn ysgwyddo cyfrifoldebau adrannol ehangach eraill yn ymwneud ag ADY neu wasanaethau sipsiwn a theithwyr
- Uwch reolwyr a phenaethiaid gwasanaethau fel y rhai sy'n dal rolau Penaethiaid Gwasanaethau Lles Addysg neu Wasanaethau Cynhwysiant.

Dywedodd swyddogion addysg ddewisol yn y cartref fod eu cyfrifoldebau fel arfer yn cynnwys ymateb i achosion o ddadgofrestru mewn ysgolion, trefnu a chynnal ymweliadau cartref, cyd-drafod â theuluoedd sy'n addysgu yn y cartref, ac ymgymryd â dyletswyddau monitro ac adrodd. Mewn llawer o achosion, maent hefyd yn ymwneud â chynllunio a chydlynu gweithgareddau cyfoethogi addysg ddewisol yn y cartref, yn ogystal â gweinyddu cyllid addysg ddewisol yn y cartref Llywodraeth Cymru i deuluoedd.

Yn aml, mae gan gydlynwyr a rheolwyr tîm addysg ddewisol yn y cartref gyfrifoldeb am ddatblygu polisïau addysg ddewisol yn y cartref ac am reoli swyddogion addysg ddewisol yn y cartref. Mae eu rolau hefyd yn cynnwys mynychu cyfarfodydd Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud ag addysg ddewisol yn y cartref, paratoi ffurflenni mandadol, a chymeradwyo adroddiadau o ymweliadau cartref a gynhaliwyd gan swyddogion. Mewn awdurdodau lleol llai, gall y deiliaid swyddi hyn hefyd fod yn ymwneud yn uniongyrchol â gwaith addysg ddewisol yn y cartref rheng flaen, gan gynnwys cynnal ymweliadau cartref eu hunain.

Dywedodd uwch reolwyr a phenaethiaid gwasanaethau fod ganddynt gyfrifoldeb cyffredinol am addysg ddewisol yn y cartref, ochr yn ochr â meysydd eraill sy'n gysylltiedig ag addysg megis presenoldeb yn yr ysgol, Plant sy'n Colli Addysg, Addysg Heblaw yn yr Ysgol (AHY), diogelu, gwasanaethau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), plant y lluoedd arfog, tiwtora gartref, a swyddogaethau rheoli tîm ehangach. Mewn un achos, nododd uwch gyfrannwr fod ei rôl yn cynnwys cyfrifoldebau cyfreithiol, megis rheoli camau gweithredu ffurfiol a phrosesau cyfreithiol sy'n gysylltiedig ag addysg ddewisol yn y cartref.

Roedd yn gyffredin iawn i swyddogion addysg ddewisol yn y cartref a'u rheolwyr llinell fod yn athrawon cymwysedig, a chanddynt brofiad blaenorol o weithio mewn ysgolion fel athrawon a swyddogion lles. Er enghraifft, mewn un awdurdod â 2 swyddog addysg ddewisol yn y cartref, roedd gan y swyddogion gefndiroedd addysgu yn y meysydd cynradd ac uwchradd. Mewn ardal arall, roedd y swyddog addysg ddewisol yn y cartref wedi gweithio fel Swyddog Lles Addysg mewn ysgol.

Er na chyfrannodd unrhyw staff gweinyddol yn uniongyrchol at yr ymchwil fel rhan o'n gwaith maes, dywedodd llawer o swyddogion a rheolwyr addysg ddewisol yn y cartref eu bod wedi manteisio ar gefnogaeth gan y staff hyn, naill ai fel rhan o'r tîm addysg ddewisol yn y cartref neu drwy'r gwasanaeth addysg ehangach.

### 3.3.1. Strwythur rheoli ac atebolrwydd addysg ddewisol yn y cartref

Yn seiliedig ar ddata a rannwyd yn ystod y gwaith maes, mae cyfanswm o 45.4 o swyddi cyfwerth ag amser llawn (FTE) wedi'u dyrannu i rolau addysg ddewisol yn y cartref pwrpasol ar draws 22 awdurdod lleol, cyfartaledd o ychydig dros 2 rôl FTE fesul ardal awdurdod lleol.[troednodyn 2] Mae capasiti staffio yn amrywio, o isafswm o 1 swyddog (mewn 3 ardal awdurdod lleol) i uchafswm o 3.5 swyddog mewn ardal arall sydd â nifer mawr o blant a addysgir yn y cartref. Mewn rhai awdurdodau, rolau yn ystod y tymor yn unig yw'r rhain, a hynny'n bennaf oherwydd bod awdurdodau lleol wedi penodi athrawon sydd ar gontractau tymor-yn-unig i ymgymryd â nhw. Yn ogystal â hynny, nododd 6 awdurdod lleol eu bod wedi defnyddio cymorth gweinyddol i ategu tîm craidd addysg ddewisol yn y cartref. Mewn un achos, mae awdurdod wedi cyflogi staff asiantaeth i gryfhau capasiti mewnol oherwydd heriau recriwtio. Mewn achos arall, mae swydd ran-amser wedi aros yn wag am y flwyddyn ddiwethaf o ganlyniad i absenoldeb hirdymor oherwydd salwch.

### 3.3.2. Gweithio gyda theuluoedd

Lle mae addysg ddewisol yn y cartref yn cael ei darparu o anghenraid yn hytrach na dewis bwriadol a wneir gan deuluoedd oherwydd ffactorau fel credoau ideolegol neu athronyddol, tynnodd staff awdurdodau lleol sylw at bwysigrwydd:

- ymyrryd yn gynnar cyn gynted ag y maent yn amau bod rhieni'n bwriadu dadgofrestru eu plentyn, er mwyn cadw plant yn yr ysgol os yn bosibl. Mae'r cysylltiadau hyn fel arfer yn digwydd o fewn cyfnod o 10 i 14 diwrnod. Yn yr achosion hyn, mae swyddogion fel Swyddogion Lles Addysg a Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd yn estyn allan yn gyflym at deuluoedd er mwyn nodi'r rhwystrau i fynychu'r ysgol ac i archwilio dewisiadau amgen yn lle addysg ddewisol yn y cartref. Yn aml, mae swyddogion yn canfod bod teuluoedd yn nodi anghenion ADY heb eu diwallu, bwlio neu berthynas wael â'r ysgol fel rheswm dros adael, ac yn teimlo na chafodd y materion hyn eu datrys cyn iddynt ddadgofrestru. Yn yr achosion hyn, bydd swyddogion yn gweithio gyda chydweithwyr fel y tîm ADY a chydweithwyr cynhwysiant i weld pa atebion y gellir eu canfod, ac a yw dychwelyd plant i'r ysgol yn opsiwn y mae'r rhieni'n awyddus i'w ystyried
- meithrin perthnasoedd cadarnhaol â theuluoedd sy'n addysgu yn y cartref, drwy ddatblygu perthnasoedd cyfeillgar a chefnogol. Tynnodd y rhai a gyfwelwyd sylw at bwysigrwydd sicrhau nad yw staff yn ymddangos yn rhy awdurdodol a datblygu perthnasoedd dros y ffôn ac wyneb yn wyneb, yn hytrach na thrwy negeseuon e-bost

[2] Wrth gyfrifo'r ffigur hwn, mae deiliad swydd amser llawn yn ystod y tymor wedi'i gyfrif fel 1 FTE; ac mae unrhyw staff rhan-amser y mae'r oriau y maent yn eu gweithio yr wythnos yn anhysbys neu wedi'u hamcangyfrif wedi'u cyfrif fel 0.5 FTE. Mae'r ffigur yn cynnwys unrhyw swyddi gwag ond nid yw'n cynnwys unrhyw staff asiantaeth.

neu ohebiaeth ysgrifenedig arall mwy ffurfiol. Nododd sawl awdurdod lleol ei fod yn cysylltu dros y ffôn yn y lle cyntaf, gan fod hyn yn ffordd well o'u galluogi i ganfod y rhesymau gwirioneddol dros ddadgofrestru

- treulio amser gyda rhieni i ganiatáu iddynt wneud dewisiadau cwbl wybodus ynghylch a yw addysg ddewisol yn y cartref yn briodol iddynt hwy a'u plentyn. Mae'r rôl hon yn golygu treulio amser yn egluro'r hyn y mae addysg ddewisol yn y cartref yn ei olygu, yn egluro rolau a chyfrifoldebau rhieni, ac yn herio camsyniadau fel y syniad y bydd yr awdurdod lleol yn darparu gwasanaeth tiwtora. Yn ystod y sgyrsiau hyn, bydd staff yn gwirio a oedd dadgofrestru er budd gorau'r plentyn mewn gwirionedd ac yn trafod yr opsiynau i fynd i'r afael â phroblemau yn yr ysgol. Mewn rhai achosion, mae Swyddog Addysg Ddewisol yn y Cartref a Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd yn mynychu trafodaeth gychwynnol ar y cyd

- darparu gwybodaeth ac adnoddau fel y canllawiau addysg ddewisol yn y cartref, yn ogystal ag adnoddau eraill fel Padlet addysg ddewisol yn y cartref, a chyfeirio rhieni at ffynonellau cymorth eraill fel Gyrfa Cymru

- monitro a chael sgyrsiau dilynol. Dywedodd awdurdodau lleol eu bod yn dilyn y gofynion statudol o ran cyswllt blynyddol ond y byddai hyn yn aml yn cael ei ategu gan wiriadau anffurfiol ychwanegol.

Roedd sawl awdurdod lleol wedi wynebu gwrthwynebiad gan rieni i ymgysylltu ac wedi canfod bod hyn weithiau'n cael ei ysgogi gan grwpiau rhieni addysg ddewisol yn y cartref. Dywedwyd bod rhai rhieni'n defnyddio llythyrau dadgofrestru safonol wedi'u lawrlwytho o'r cyfryngau cymdeithasol, sy'n aml yn gam a gynghorir gan grwpiau rhieni addysg ddewisol yn y cartref er mwyn gwrthod cyswllt pellach. Mae'r llythyrau templed hyn yn ei gwneud yn anos i awdurdodau lleol ymgysylltu â theuluoedd, gwirio addasrwydd addysg ddewisol yn y cartref, neu fynd i'r afael â materion fel bwlio neu anghenion nad ydynt yn cael eu diwallu. Roedd un awdurdod lleol o'r farn bod y teuluoedd mwyaf sefydledig sy'n addysgu yn y cartref yn tueddu i fod yn llai awyddus i ymgysylltu â'r awdurdod lleol, tra bod y teuluoedd hynny sy'n newydd i'r maes yn fwy tebygol o ymgysylltu.

Lle nad yw addysg ddewisol yn y cartref yn ddewis bwriadol a wneir gan deuluoedd, dywedodd swyddogion addysg ddewisol yn y cartref fod ymgysylltiad agos ag ystod eang o staff awdurdodau lleol a phartneriaid eraill, a'r rhai a grybwyllwyd amlaf oedd:

- ysgolion. Pan fydd dadgofrestru’n digwydd, mae’r swyddog addysg ddewisol yn y cartref yn cyflwyno ffurflen i’r ysgol i gasglu'r rhesymau dros ddadgofrestru, gan gynnwys unrhyw bryderon a allai fod ganddynt ynghylch diogelwch, presenoldeb neu iechyd y plentyn

- gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaeth lles plant, mewn achosion o ddiffyg ymgysylltu, yn cynnal gwiriadau diogelu

- staff ADY sy'n rhoi mewnbwn i asesu'r angen am gymorth ADY neu i adolygu CDUau. Mewn un awdurdod, dywedwyd bod swyddog ADY pwrpasol yn mynychu cyfarfodydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a CDU

- staff cynhwysiant yr awdurdod lleol, yn enwedig os mai problemau fel bwlio neu'r berthynas â'r ysgol yn chwalu yw'r rheswm dros ddadgofrestru
- gwasanaethau ieuenctid er mwyn cael mynediad at gymorth fel mentora neu glybiau ieuenctid
- Gyrfa Cymru. Yn dibynnu ar oedran, bydd teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref yn cael eu cyfeirio ato yn ôl yr angen
- seicolegwyr iechyd ac addysg yn enwedig lle mae pryder neu ffobia am yr ysgol yn broblem i'r plentyn
- timau derbyniadau i helpu teuluoedd i gael lle mewn ysgol eto os oes angen
- gwasanaethau plant ar gyfer ymweliadau ar y cyd neu mewn achosion lle mae pryderon ynghylch diogelu.

Tynnodd y rhai a gyfwelwyd sylw at bwysigrwydd mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn wrth ddatrys problemau lle nad yw addysg ddewisol yn y cartref yn ddewis bwriadol. Tynnodd y cyfranwyr sylw hefyd at bwysigrwydd mabwysiadu dull amlasiantaeth wrth wneud penderfyniad am addysg ddewisol yn y cartref, gan y gall hyn gefnogi proses reoledig o symud i ysgol arall yn hytrach nag addysg ddewisol yn y cartref.

### 3.3.3. Y defnydd o ddata

Datgelodd y gwaith maes fod data'n cael eu defnyddio'n effeithiol gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol i adnabod tueddiadau a phatrymau mewn addysg ddewisol yn y cartref. Tynnodd sawl awdurdod sylw at y ffaith bod y data yn dangos cynnydd yn nifer y plant a addysgir yn y cartref ar draws eu hardal yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a bod hyn, mewn rhai achosion, wedi helpu i gyflwyno achos o blaid cynyddu adnoddau staffio o fewn y tîm addysg ddewisol yn y cartref.

Caiff data eu defnyddio gan awdurdodau lleol i:

- olrhain pwyntiau mynediad ac ymadael y rhai a addysgir yn y cartref. Dywedodd awdurdodau lleol yn gyson eu bod yn cofnodi'r rhesymau pam bod plant yn gadael ysgolion ac yn cael eu haddysgu yn y cartref fel rhan o'r gwaith olrhain hwn, sy'n helpu i dargedu cymorth yn briodol
- adnabod ysgolion â chyfraddau dadgofrestru uchel. Mae hyn yn helpu i amlygu 'mannau problemus' posibl y gall yr awdurdod fynd i'r afael â nhw wedyn a lle y gellir annog dysgwyr i aros yn yr ysgol
- amlygu patrymau sy'n peri pryder, fel tueddiadau uchel o ran dadgofrestru ym Mlwyddyn 11 neu ysgolion sydd â mwy na 4% i 5% o'u disgyblion yn dadgofrestru
- amlygu patrymau tymhorol, fel cyfraddau dadgofrestru uchel cyn cyfnodau arholiadau
- adnabod unrhyw dueddiadau daearyddol, sy'n helpu i nodi ardaloedd ble mae angen cymorth wedi'i dargedu. Er enghraifft, roedd un awdurdod wedi defnyddio data i

nodi'r angen am glybiau nofio ar gyfer disgyblion a addysgir yn y cartref ar draws y sir tra bod un arall wedi defnyddio data daearyddol fel sail i dargedu gwasanaethau ieuenctid

- nodi newidiadau ym mhroffil dysgwyr a addysgir yn y cartref a'u teuluoedd. Er enghraifft, i nodi a oes cynnydd yn nifer y dysgwyr a addysgir yn y cartref a chanddynt anghenion cymhleth, ADY, neu'r rhai o gefndiroedd demograffig penodol. Dywedodd un awdurdod ei fod wedi defnyddio'r data i olrhain patrymau addysg ddewisol yn y cartref yn ôl ethnigrwydd o'i gymharu â phoblogaeth gyffredinol yr ysgol. Dywedodd awdurdod arall fod y data yn dangos cynnydd mewn dysgwyr ag anghenion hynod gymhleth a addysgir yn y cartref.

Defnyddir data ar addysg ddewisol yn y cartref yn gyffredin gan awdurdodau lleol i gynllunio eu rhaglen waith flynyddol, gan gynnwys didoli eu rhestrau o blant a addysgir yn y cartref yn ôl dyddiad y cyswllt diwethaf er mwyn trefnu ymweliadau cartref ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf ac i flaenoriaethu ymweld â charfannau penodol, fel dysgwyr Blwyddyn 11. Dywedodd un awdurdod lleol ei fod yn defnyddio system raddio coch-melyn-gwyrdd i flaenoriaethu achosion ble mae angen ymyrraeth. Yn yr achos hwn, mae'r awdurdod lleol yn defnyddio codau lliw ar gyfer plant a addysgir yn y cartref ar ei gronfa ddata: er enghraifft, mae cod coch yn tynnu sylw at bryder diogelu ac mae cod glas yn nodi plentyn newydd a addysgir yn y cartref.

Dangosodd yr adborth gan awdurdodau lleol hefyd fod data addysg ddewisol yn y cartref yn cael eu defnyddio'n aml i baratoi adroddiadau ac fel sail i drafodaethau pwyllgorau craffu. Defnyddir data addysg ddewisol yn y cartref hefyd i godi materion ar lefel strategol o fewn yr awdurdod, gan gynnwys gyda chydweithwyr, mewn fforymau penaethiaid a byrddau diogelu.

At hynny, mae sawl awdurdod lleol yn defnyddio data addysg ddewisol yn y cartref fel rhan o'u prosesau gwella ysgolion i uwchgyfeirio pryderon os caiff materion penodol eu nodi. Er enghraifft, mae ysgolion mewn 5 ardal awdurdod lleol yn cael eu herio'n uniongyrchol os yw eu data yn dangos tueddiadau dadgofrestru anghymesur. Mae un o'r awdurdodau lleol hyn hefyd yn mabwysiadu system coch-melyn-gwyrdd i godio ysgolion yn ôl cyfrannau dadgofrestru tra bod awdurdod arall hefyd yn codi'r mater gyda chydweithwyr o'r tîm gwella ysgolion. Disgrifiodd un cyfrannwr o awdurdod lleol y broses a fabwysiadwyd yno:

> “rydym yn casglu data ar ble mae'r plant yn dod oddi ar gofrestr yr ysgol...ac rydym yn ymchwilio i pam mae hynny'n digwydd. Felly lle mae X o blant yn dod oddi ar gofrestr yr ysgol benodol honno, ydyn nhw'n cael eu cynghori gan staff addysgu y gallant addysgu yn y cartref? Ydyn nhw'n cael eu hannog i beidio â gwneud hynny? Felly rydyn ni'n gwneud darn o waith ac yn mynd i'r ysgol er mwyn cael y wybodaeth honno."

O ran defnyddio data i ysgogi newid ym mhroses neu ddulliau awdurdod lleol mewn perthynas ag addysg ddewisol yn y cartref, casglwyd rhai enghreifftiau o arferion da dros gyfnod y gwaith maes:

- roedd un awdurdod wedi defnyddio data addysg ddewisol yn y cartref i edrych ar gyrchfannau carfan Blwyddyn 11 eleni ac wedi gweithio gyda'r coleg lleol i hwyluso'r cyfnod pontio i addysg ôl-16, er mwyn eu galluogi i ddiwallu eu hanghenion
- dywedodd un awdurdod ei fod wedi sefydlu panel newydd ar gyfer addysg ddewisol yn y cartref a oedd wedi ei gynorthwyo i fabwysiadu prosesau mwy cadarn
- roedd un awdurdod lleol wedi gwella ei brosesau casglu data ynghylch dadgofrestru, a oedd wedi arwain at well dealltwriaeth o dueddiadau a phatrymau. Yn yr achos hwn, mae'r awdurdod lleol wedi mabwysiadu Microsoft Forms yn hytrach na dogfennau Word ar gyfer casglu gwybodaeth gan rieni ac ysgolion, a oedd yn gofyn am y rhesymau pam yr oedd plentyn wedi gadael yr ysgol:

  "ar y ffurflen rydym wedi gwneud pob cwestiwn yn orfodol, felly ni allant gyflwyno'r ffurflen heb ateb pob cwestiwn, ond ar y ffurflen flaenorol roeddem yn gofyn yr un cwestiynau fwy neu lai, ond [dim ond] rhai fyddai'n llenwi'r cyfan. Byddai rhai yn llenwi rhan ohoni, felly nid oeddem byth yn cael manylion da. Rhaid ateb pob cwestiwn, neu ni allant ei chyflwyno." O ganlyniad: "gwelsom fod [dadgofrestriadau mewn] rhai ysgolion yn 4% neu 5% o boblogaeth eu hysgol. Ac yna roedd ysgolion eraill â llai nag 1%, ond yr hyn yr oedd yn ei ddangos oedd bod yr ysgol hon yn amlwg yn anogol neu'n gefnogol neu bod problem a ganiataodd i ni wedyn godi'r mater a chloddio'n ddyfnach i'r sgyrsiau hynny."

Roedd dau awdurdod lleol o'r farn y gellid gwneud mwy o ddefnydd o'u data addysg ddewisol yn y cartref: yn un o'r achosion hyn, roedd y cynnydd mewn capasiti staffio diweddar yn golygu bod hyn bellach ar y gweill.

Roedd pedwar awdurdod lleol yn defnyddio eu data addysg ddewisol yn y cartref at ddibenion adrodd yn bennaf yn hytrach nag fel sail i ymarfer ac i newid ymarfer.

### 3.3.4. Y defnydd o'r cyfraniad blynyddol at y rôl addysg ddewisol yn y cartref

Dywedodd awdurdodau lleol yn gyson bod y cyllid blynyddol o £50,000 gan Lywodraeth Cymru i wella capasiti staffio presennol addysg ddewisol yn y cartref yn cael ei ddefnyddio i ariannu rôl benodol swyddog addysg, ddewisol yn y cartref. Mewn sawl un o'r achosion hyn, cydnabuwyd bod y grant yn 'gyfraniad' tuag at y swydd, gan nad oedd yn talu'r costau cyflog llawn. Yn aml, roedd hyn oherwydd bod awdurdodau lleol wedi dewis penodi athrawon a oedd eisoes ar raddfeydd cyflog uwch.

Mewn 9 awdurdod lleol, defnyddiwyd y cyllid i wrthbwyso costau cyflogi tîm o swyddogion, a oedd yn aml yn cynnwys rôl swyddog addysg ddewisol yn y cartref yn ogystal â chymorth gweinyddol. Er enghraifft, mewn 3 achos defnyddiwyd y cyllid i gyfrannu at gyflogau 2 swydd - swyddog addysg ddewisol yn y cartref (neu rôl gyfatebol) a chymorth gweinyddol; mewn achos arall ariannodd 2 swydd addysg ddewisol yn y cartref, 1 swydd amser llawn ac un swydd ran-amser; mewn awdurdod arall ariannodd swydd swyddog addysg ddewisol yn y cartref a swyddog Cyswllt Teulu; ac mewn 2 ardal awdurdod lleol arall cyfrannodd at dîm mwy o rhwng 3 a 4 aelod o staff amser llawn.

Mewn 4 achos, adroddwyd bod cyllid Llywodraeth Cymru wedi helpu'n uniongyrchol i gynyddu capasiti'r awdurdod ac yn yr achosion hyn nodwyd bod y cyllid wedi helpu i greu rôl swyddog addysg ddewisol yn y cartref ychwanegol. Mewn pumed awdurdod, roedd y tîm addysg ddewisol yn y cartref wedi'i ehangu cyn i'r cyllid grant gael ei ddyfarnu. Yn aml, dywedwyd bod y capasiti ychwanegol a roddwyd ar waith ar draws yr ardaloedd hyn wedi helpu i feithrin perthnasoedd â theuluoedd sy'n addysgu yn y cartref dros amser, yn rhannol oherwydd bod gan y swyddogion addysg ddewisol yn y cartref fwy o gapasiti i ymweld â theuluoedd sy'n addysgu yn y cartref a threfnu gweithgareddau ar eu cyfer.

Mewn achosion eraill, nid oedd yr awdurdod lleol wedi gallu ehangu ei gapasiti gan y defnyddiwyd y cyllid i gynnal lefelau staff presennol, er gwaethaf cynnydd diweddar yn nifer y dysgwyr a addysgir yn y cartref.

Fodd bynnag, dywedwyd bod angen gofal gan mai dim ond cyllid am gyfnod o flwyddyn oedd y cyllid a ddyfarnwyd ar gyfer 2024/25, a bod awdurdodau lleol yn ffafrio trefniadau ariannu tymor hwy.

### 3.3.5. Newid yn y broses ers cyflwyno'r canllawiau statudol

Canfu'r ymchwil nad yw'r canllawiau statudol wedi sbarduno newid unffurf ar draws awdurdodau lleol, a hynny'n bennaf oherwydd nad oes modd gorfodi'r canllawiau, oherwydd gwrthwynebiad gan rieni ac oherwydd bod gwahanol awdurdodau lleol yn dehongli'r canllawiau mewn ffyrdd gwahanol. Tynnodd sawl un o'r rhai a gyfwelwyd sylw at y diffyg eglurder o fewn y canllawiau eu hunain fel rhwystr i'w gweithredu (a drafodir yn fanylach yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn).

Yn seiliedig ar adborth gan 22 o awdurdodau lleol, roedd 9 o'r farn eu bod wedi cyflwyno newidiadau i'r broses addysg ddewisol yn y cartref ers i'r canllawiau statudol gael eu cyflwyno, boed yn newidiadau mawr neu'n newidiadau graddol, tra bod 2 arall wedi nodi eu bod eisoes wrthi'n rhoi newidiadau ar waith pan gyhoeddwyd y canllawiau. I'r gwrthwyneb, nododd 10 awdurdod lleol nad oeddent wedi gwneud unrhyw newidiadau neu ddim ond addasiadau bach iawn ers i'r canllawiau gael eu cyhoeddi. Yn y 2 achos sy'n weddill, roedd y rhai a gafodd eu cyfweld yn newydd i'w swyddi ac nid oeddent yn gwybod a oedd unrhyw newidiadau blaenorol wedi'u gwneud.

# 4. Canfyddiadau: pennu addasrwydd yr addysg

## 4.1. Y cyd-destun polisi

Mae'r canllawiau'n cadarnhau nad oes gofyn i blant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref ddilyn y Cwricwlwm i Gymru. Fodd bynnag, mae'n amlinellu y byddai addysg addas yn cynnwys darpariaeth mewn sgiliau rhifedd, llythrennedd ac iaith, ac y byddai'n addas i oedran, gallu a doniau'r plentyn ac yn addas i unrhyw ADY a allai fod gan y plentyn. Dylai addysg addas hefyd gynnwys cymdeithasu a pharatoi'r plentyn ar gyfer bywyd mewn cymdeithas fodern. Mae rhagor o wybodaeth am yr agweddau y dylai awdurdodau lleol eu hystyried wrth bennu addasrwydd yr addysg wedi'i chynnwys yn y canllawiau (adrannau 4.1 – 4.21).

Mae'r canllawiau'n amlinellu y dylai awdurdodau lleol adolygu addasrwydd yr addysg sy'n cael ei darparu o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae hyn yn cyd-fynd â'u dyletswydd statudol i adnabod plant nad ydynt yn derbyn addysg effeithlon sy'n addas i'w hoedran, eu gallu, eu doniau ac unrhyw anghenion dysgu ychwanegol a allai fod ganddynt.

Noda'r canllawiau y dylai amlder cyfarfodydd â theuluoedd sy'n addysgu yn y cartref fod yn gymesur ac yn seiliedig ar amgylchiadau pob plentyn unigol.

Mae'r canllawiau'n nodi'r disgwyliad y dylai awdurdod lleol baratoi adroddiad o fewn 10 diwrnod ar ôl cyfarfod â theulu sy'n addysgu yn y cartref, gan amlinellu a yw'r ddarpariaeth yn addas ai peidio, a darparu rhesymau dros yr asesiad a wnaed. Yn unol â'r canllawiau, mae'n rhaid i awdurdodau lleol ddarparu cyfle i drafod yr adroddiad gyda rhieni fel y gellir cywiro unrhyw wallau ffeithiol yn gyflym.

## 4.2. Y dull o bennu ar addasrwydd yr addysg

Nododd mwyafrif yr awdurdodau lleol eu bod yn well ganddynt gynnal ymweliadau cartref blynyddol i arsylwi'r amgylchedd dysgu, adolygu adnoddau a, lle bo modd, siarad â'r plentyn.

Dywedodd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol eu bod yn cynnal ymweliadau blynyddol i asesu addasrwydd, ac yn trefnu ymweliadau ychwanegol lle ceir pryderon. Mae ymweliadau cartref yn galluogi swyddogion i arsylwi ar yr amgylchedd dysgu, cael sgyrsiau anffurfiol gyda'r rhieni a'r plant, ac adolygu adnoddau fel gwerslyfrau a phlatfformau dysgu ar-lein. Tynnodd rhai awdurdodau lleol sylw at bwysigrwydd bod yn hyblyg, gan gynnwys mabwysiadu ymweliadau rhithwir neu dderbyn tystiolaeth ysgrifenedig yn unig, er bod awdurdodau yn gyffredinol yn ffafrio cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Ar gyfer ymweliadau blynyddol o'r fath, dywedodd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol eu bod yn defnyddio templed adroddiad ar ôl cwblhau ymweliad.

Weithiau cynigir lleoliadau cymunedol niwtral megis llyfrgelloedd, parciau, neu hybiau cymunedol os yw teuluoedd yn amharod i swyddogion ymweld â'u cartref. Dywedodd un awdurdod lleol iddo weld cynnydd yn nifer yr ymweliadau a gynhaliwyd (a phlant a welwyd) pan roddwyd cyfle i rieni ddewis lleoliad – boed hynny yn y cartref, mewn lleoliad

cymunedol, mewn digwyddiad wedi'i drefnu ar gyfer y rhai a addysgir yn y cartref neu mewn swyddfa ddinesig gyfleus.

Cafodd ymweliadau rhithwir eu crybwyll yn llai aml yn ystod yr ymchwil ond mae rhai awdurdodau lleol wedi cynnal ymweliadau rhithwir drwy Teams/Zoom, yn enwedig ers COVID-19, neu mewn achosion ble mae teuluoedd yn gwrthod gadael i swyddogion ymweld â'u cartref. Dywedwyd bob amser mai ymweliadau cartref yw'r opsiwn a ffefrir. Yn gyffredinol, ystyriwyd bod y dull rhithwir yn llai effeithiol ond fe'i defnyddiwyd yn bragmataidd os oedd teuluoedd ond yn cytuno i ymgysylltu yn y modd hwn neu mewn sefyllfaoedd lle yr ystyriwyd bod ymweliad rhithwir yn fwy addas o dan yr amgylchiadau - er enghraifft, lle mae gan blentyn orbryder difrifol neu broblemau iechyd meddwl ynghylch cyfarfod wyneb yn wyneb.

Roedd rhai awdurdodau'n ffafrio'r term 'gweithgareddau' yn hytrach na 'thystiolaeth' er mwyn osgoi gwrthdaro â theuluoedd sy'n casáu cael eu 'profi'. Mae cynnydd dros amser yn faen prawf canolog: disgrifiodd yr awdurdodau sut y maent yn chwilio am welliant mewn llythrennedd, rhifedd, a chymwyseddau craidd eraill, ac yn asesu a yw'r dysgu'n briodol i oedran a/neu allu'r plentyn. Nododd sawl ymatebydd fod defnydd rhieni o ddeallusrwydd artiffisial i gynhyrchu adroddiadau yn ei gwneud yn fwyfwy anodd barnu dilysrwydd y gwaith. Soniodd rhai hefyd eu bod yn teimlo ychydig yn fwy amheus os yw'r holl dystiolaeth yn dystiolaeth ddiweddar iawn, h.y., yn amlwg wedi'i pharatoi yn union cyn ymweliad neu gais am samplau o waith.

Disgrifiodd sawl awdurdod lleol amrywiol dempledi neu ffurflenni a rennir gyda rhieni cyn unrhyw gyfarfod wyneb yn wyneb er mwyn darparu tystiolaeth ond nodwyd nad oedd unrhyw rwymedigaeth ar rieni i ddefnyddio unrhyw dempledi penodol ac yn aml na fyddent yn gwneud hynny. Lle y defnyddiwyd templedi adrodd, roedd hynny'n helpu i sicrhau cysondeb yn fewnol i'r awdurdod lleol.

Thema a gododd droeon oedd y ddibyniaeth ar orfod ymddiried yn adroddiadau rhieni, yn enwedig lle mae teuluoedd yn gwrthod ymweliadau neu ond yn cyfathrebu'n ysgrifenedig. Cydnabu swyddogion o dros hanner yr awdurdodau lleol yr anhawster o wirio a yw adroddiadau rhieni yn adlewyrchu profiad dysgu'r plentyn yn gywir. Roedd rhai awdurdodau’n pwysleisio strategaethau meithrin perthynas, fel galwadau ffôn cychwynnol cyfeillgar yn hytrach na ffurflenni ffurfiol, er mwyn annog cydweithrediad.

Pwysleisiodd llawer o awdurdodau lleol bwysigrwydd siarad â'r plentyn yn uniongyrchol i groeswirio adroddiadau rhieni ac asesu cymhelliant i ddysgu.

Mae trafodaethau gyda phlant yn fodd o wirio adroddiadau rhieni, yn rhoi cipolwg o ddiddordebau'r dysgwr, ac yn caniatáu i swyddogion fesur cymhelliant a dealltwriaeth. Er enghraifft, wrth ymweld â theuluoedd yn eu cartrefi, gall plentyn ddarllen i'r swyddog addysg ddewisol yn y cartref neu gwblhau gwaith mathemateg tra y bydd yno, trafod llyfr y mae'n ei ddarllen, neu egluro thema y mae'n dysgu amdani ar hyn o bryd. Mewn rhai achosion, cynhaliwyd 'ymweliadau carreg drws' hefyd, heb unrhyw ddisgwyliad i gael gwahoddiad i fynd i mewn, ond ystyriwyd eu bod yn gyfle da i siarad â'r plentyn a chanfod a oedd unrhyw faterion diogelu. Fodd bynnag, roedd awdurdodau lleol yn gwbl ymwybodol mai rhywbeth

gwirfoddol yw ymgysylltu, gan nad yw'r gyfraith yn gorfodi plentyn i gyfranogi, a nodwyd bod rhai teuluoedd yn gwrthod gadael i swyddogion weld eu plentyn.

Disgrifiwyd gallu swyddogion i ffurfio barn wybodus am addasrwydd yr addysg fel un sydd â chysylltiad agos â'u harbenigedd proffesiynol. Nododd sawl ymatebydd fod y ffaith ei fod yn athro cymwys yn gwella ansawdd yr asesu, gan ei fod, fel addysgwr hyfforddedig, yn teimlo ei fod yn gallu gwerthuso cynnydd yn well a nodi bylchau. Tynnodd eraill sylw at brinder adnoddau, gyda dim ond un swyddog yn gyfrifol am gannoedd o blant, a oedd yn cyfyngu ar ddyfnder yr asesiadau a gynhaliwyd.

## 4.3. Tystiolaeth i bennu addasrwydd yr addysg

Roedd bron pob ymateb yn dangos bod awdurdodau lleol yn ystyried llythrennedd a rhifedd yn feincnodau hanfodol ar gyfer addasrwydd: “nid yw meini prawf fel sgiliau llythrennedd, rhifedd a sgiliau digidol yn agored i drafodaeth.” Caiff y rhain eu hasesu'n uniongyrchol drwy dystiolaeth o waith neu'n anuniongyrchol drwy drafodaethau gyda rhieni am addysg y plentyn. Ar gyfer dysgwyr hŷn, mae awdurdodau hefyd yn edrych ar gymwysterau, dyheadau ar gyfer y dyfodol, ac a yw'r ddarpariaeth addysgol yn cyd-fynd â llwybrau gyrfa realistig.

Fodd bynnag, amlinellodd rhai ymatebwyr broblem gyda'r canllawiau statudol fel y maent, gan ei bod yn anodd i swyddogion addysg ddewisol yn y cartref asesu a yw'r addysg a ddarperir ar lefel briodol i'r plentyn dan sylw gan eu bod mor bell oddi wrthynt:

> “Mae yna amryfusedd enfawr gan fod y polisi’n sôn am addysg briodol. Nid yw'n sôn am addysgu a dysgu. Felly gallwch gael y ddarpariaeth addysg orau, gall fod o'r safon uchaf, ond os na chaiff ei chyflwyno mewn ffordd y gall y plentyn hwnnw ddysgu mae'n bwynt dadleuol. Ond yn ei hanfod yr hyn y gofynnir i ni ei wneud yw edrych ar y cwricwlwm, nid ar y dysgu… Ni fyddai'r hyn a allai fod yn briodol i un dysgwr yn briodol i ddysgwr arall. Felly, rwy'n credu bod gorddibyniaeth ar y ffaith bod yn rhaid i awdurdodau lleol wirio bod yr addysg yn briodol heb ystyried y dysgwr ar unrhyw adeg yn y canllawiau addysg ddewisol yn y cartref."

Roedd llawer o'r ymatebion gan awdurdodau lleol yn cydnabod y gall addysg yn y cartref gael ei darparu mewn amrywiol ffyrdd, o gwricwla strwythuredig i ddulliau sy'n cael eu harwain gan blant fel Montessori. Felly, asesir addasrwydd yn erbyn anghenion, galluoedd a dyheadau'r plentyn, yn hytrach na chydymffurfiaeth â'r Cwricwlwm i Gymru. Yn aml, gofynnir i rieni fynegi eu hathroniaeth a'u hamcanion addysgol, a ddefnyddir wedyn fel pwyntiau cyfeirio ar gyfer asesiadau dilynol.

Roedd llawer o awdurdodau lleol yn ystyried yn benodol gyfleoedd ar gyfer cymdeithasu, gweithgarwch corfforol, a phrofiadau bywyd ehangach hefyd fel rhan o'u hasesiad o addasrwydd. Er bod llai o bwyslais cyson ar hyn nag ar lythrennedd a rhifedd, ystyriwyd bod ymgysylltiad cymdeithasol yn cyfrannu at addysg gytbwys ac “eang”.

Disgrifiodd awdurdodau lleol sut y maent yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth i asesu addasrwydd addysg yn y cartref. Er bod y pwyslais yn aml ar samplau o waith y plentyn, mae amrywiadau o ran pa mor ffurfiol neu strwythuredig y disgwylir i'r dystiolaeth hon fod.

Mae rhai awdurdodau lleol yn gofyn yn rheolaidd am weld enghreifftiau o waith ysgrifenedig, prosiectau creadigol, neu ymarferion sy'n seiliedig ar bynciau. Dywedodd yr awdurdodau lleol hyn eu bod yn gofyn am gael adolygu llyfrau gwaith, traethodau, gwaith celf, neu ymarferion mathemateg. Er enghraifft, mewn un awdurdod lleol, bydd swyddogion weithiau'n gofyn i blant "ddarllen iddyn nhw, cwblhau gwaith mathemateg tra byddan nhw yno, trafod llyfrau maen nhw'n eu darllen neu egluro thema y maen nhw'n dysgu amdani."

Cyfeiriodd awdurdodau lleol eraill at ffurfiau ehangach o dystiolaeth sy'n cael eu derbyn gan gynnwys ffotograffau, fideos, dyddiaduron, neu dystysgrifau gan ysgolion ar-lein. Pwysleisiodd un awdurdod lleol fod teuluoedd yn cael eu hannog i "arwain y broses o gyflwyno'r dystiolaeth er mwyn osgoi gwrthdaro a'u hannog i fod yn agored."

Roedd bron pob awdurdod lleol yn derbyn adroddiadau ysgrifenedig, samplau o waith, ffotograffau, fideos, neu gofnodion cynnydd fel rhan o'u hasesiad o addasrwydd yr addysg. Mewn ambell awdurdod lleol, dim ond os gwrthodwyd ymweliad y byddai adroddiadau ysgrifenedig yn cael eu derbyn.

Dywedodd sawl awdurdod bod yn rhaid iddynt yn aml dderbyn, neu ddibynnu ar, adroddiadau ysgrifenedig gan rieni. Er enghraifft, dywedodd un awdurdod lleol y byddai'n "derbyn adroddiadau ysgrifenedig, er nad ydym yn teimlo bod hynny ynddo'i hun yn ddigonol gan na allwn briodoli popeth yn uniongyrchol i'r plentyn."

Er enghraifft, tynnodd un awdurdod lleol sylw at bwysigrwydd ystyried "a yw'n bodloni dyheadau'r plentyn" ac a oes gan deuluoedd "ddigon o adnoddau h.y. gwerslyfrau" ac amgylchedd dysgu addas.

Mae'r graddau y gellir priodoli tystiolaeth yn uniongyrchol i'r plentyn yn bryder cyson. Mae'r gallu i briodoli gwaith yn uniongyrchol i'r plentyn ar ei gryfaf lle mae ymweliadau ac arsylwadau'n digwydd. Lle mae tystiolaeth yn dibynnu ar adroddiadau rhieni yn unig, mae llai o hyder o ran priodoli'r gwaith i'r plentyn. Nododd nifer o awdurdodau lleol fod hyn yn her.

Disgrifiodd sawl awdurdod lleol sut y mae priodoli gwaith yn cael ei gefnogi drwy ryngweithio wyneb yn wyneb fel gofyn i blant ddarllen yn uchel neu gwblhau ymarferion byr yn ystod ymweliadau. Dywedodd swyddogion mewn un awdurdod lleol eu bod fel arfer yn gallu "barnu a yw'r plentyn wedi cwblhau'r gwaith ei hun yn seiliedig ar lawysgrifen".

Cododd ambell awdurdod lleol bryderon penodol yn ymwneud â'r ffaith pan mai dim ond lluniau neu adroddiadau gan rieni a ddarperir, "nid yw'n glir ai gwaith gwirioneddol y dysgwr sy'n cael ei ddangos". Nododd awdurdod lleol arall hefyd fod priodoli gwaith yn parhau i fod yn ansicr heb gyswllt uniongyrchol â'r plentyn. Yn yr un modd, mae'n anodd priodoli rhywbeth yn uniongyrchol i blentyn, neu fesur cynnydd, oni bai bod y plentyn wedi cael ei weld ychydig flynyddoedd ynghynt hefyd.

Dywedodd ambell awdurdod lleol, er y gallent ofyn am samplau o waith y plant, nad ydynt yn teimlo bod y canllawiau, o ran y ffordd y maent wedi'u hysgrifennu ar hyn o bryd, yn caniatáu iddynt fynnu hynny. Yn ymarferol, mae llawer o deuluoedd yn fodlon darparu samplau'n wirfoddol.

## 4.4. Amlder yr asesiadau

Adolygiadau blynyddol yw'r disgwyliad safonol ar draws y rhan fwyaf o awdurdodau yn eu hymdrechion i bennu addasrwydd addysg plant a addysgir yn y cartref. Fodd bynnag, yn sgil y cynnydd yn niferoedd y plant a addysgir yn y cartref ledled Cymru, disgrifiodd llawer o awdurdodau lleol sut yr oedd hyn yn dod yn fwyfwy anodd ei gyflawni - yn enwedig o ran ceisio trefnu ymweliadau wyneb yn wyneb:

> “Mae gennym 400 o blant i’w hasesu ac un aelod o staff felly yn sicr mae problemau'n ymwneud ag adnoddau yma fel ym mhob awdurdod lleol”

Gellid cynnal ymweliadau ychwanegol neu wneud ceisiadau ychwanegol am dystiolaeth os oes pryderon ynghylch addasrwydd, diogelu, neu bresenoldeb plentyn ag ADY. Mewn rhai awdurdodau lleol, mae amlder yr asesiadau'n cynyddu mewn blynyddoedd arholiadau hollbwysig (Blynyddoedd 10–11) neu os na ddarperir fawr ddim tystiolaeth/dim tystiolaeth o gwbl yn ystod y cyswllt cyntaf. Dywedodd llawer o awdurdodau lleol fod ganddynt ryw fath o system flaenoriaethu ar gyfer trefnu ymweliadau a gofyn am dystiolaeth. Y prif seiliau yw:

- pryderon diogelu - caiff plant sy'n hysbys i'r gwasanaethau cymdeithasol neu sydd ar gofrestrau amddiffyn plant eu hadolygu'n amlach ac yn fwy trylwyr
- ffactorau risg addysgol - rhoddir blaenoriaeth i blant lle nad oes unrhyw dystiolaeth o ddysgu, lle nad oes fawr ddim ymgysylltiad gan rieni, neu lle ceir adroddiadau sy'n codi amheuon ynghylch llythrennedd/rhifedd
- blynyddoedd ysgol hollbwysig - mae dysgwyr ym Mlynyddoedd 10–11 (blynyddoedd arholiadau) yn aml yn cael blaenoriaeth er mwyn sicrhau eu bod ar y trywydd iawn gyda chymwysterau
- systemau blaenoriaethu strwythuredig - mae sawl awdurdod lleol yn defnyddio systemau graddio Coch-Melyn-Gwyrdd i gategoreiddio teuluoedd yn ôl lefel y pryder, gan fonitro'r achosion coch yn fwy manwl.

Cymysg yw lefel yr ymgysylltu ag ymweliadau ledled Cymru, a cheir enghreifftiau clir o gydweithrediad cryf a chyfyngedig fel ei gilydd. Dywedodd sawl awdurdod fod llawer o deuluoedd yn fodlon rhannu tystiolaeth a chwrdd â swyddogion. Er enghraifft, disgrifiodd un awdurdod lleol fod 'rhai teuluoedd yn wych ac yn dangos yr hyn y mae eu plant yn gweithio arno,' a nododd un arall fod rhieni'n aml yn darparu samplau helaeth, gan gynnwys tystysgrifau ysgol ar-lein. Mewn enghraifft arall, pwysleisiwyd bod dull wedi'i arwain gan y teulu o gyflwyno tystiolaeth yn helpu i gynnal yr ymgysylltiad. Dywedwyd bod rhai rhieni’n ddiolchgar bod swyddogion addysg ddewisol yn y cartref yn athrawon cymwysedig a allai gynnig arweiniad manwl – ac roeddent yn fwy parod i ymddiried mewn swyddogion oherwydd hynny.

Nododd un awdurdod lleol, er bod cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn effeithiol, “nid yw rhai teuluoedd yn cyfarfod â’r swyddog addysg ddewisol yn y cartref” a nododd fod rhai teuluoedd yn cael eu 'rhybuddio' gan grwpiau addysg ddewisol yn y cartref i beidio ag ymgysylltu â’r awdurdod lleol nac unrhyw fath o awdurdod. Mewn achosion o'r fath, dim ond

drwy alwadau ffôn y bydd rhai teuluoedd yn ymgysylltu i ddechrau, ond dros amser, gallant ddechrau ymddiried yn y swyddogion addysg ddewisol yn y cartef a chytuno i gyfarfod yn ddiweddarach yn y broses. Ni fydd teuluoedd eraill yn ymgysylltu o gwbl ac yn aml bydd ganddynt hanes o beidio â mynychu'r ysgol ac erlyniadau yn yr ysgol cyn dewis addysgu yn y cartref.

Synnwyd un awdurdod lleol gan ba mor nerfus oedd y rhan fwyaf o deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref, pan oedd ymweliadau'n cael eu trefnu:

> "Yr hyn a'm trawodd yw eu bod yn hynod o bryderus pan fyddwch yn galw – a phan fyddwch chi ond yn ymweld unwaith y flwyddyn, mae'n debyg bod hynny ond i'w ddisgwyl. Ond maen nhw'n hynod o bryderus. Rwy'n hyderus ein bod ni'n tawelu eu meddyliau a'u bod nhw'n teimlo'n llawer mwy cyfforddus pan fyddwn ni'n gadael. Rydym bob amser yn cael ein gwahodd yn ôl. Gallwn weld y byddan nhw'n ymgysylltu â ni unwaith y byddwn ni wedi cael ein troed yn y drws."

Ychwanegodd un arall, lle mae tystiolaeth yn wan, fod swyddogion yn cefnogi teuluoedd i wella yn hytrach nag uwchgyfeirio'r mater ar unwaith.

Dynodwyd bod lleiafrif o rieni yn amharod i gytuno i ymweliadau neu'n eu gwrthod. Dywedodd un awdurdod lleol "nad yw rhai rhieni eisiau ymgysylltu," a nododd un arall fod adroddiadau ysgrifenedig yn cael eu derbyn fel dewis amgen yn yr achosion hyn. Cododd un arall bryderon na ellir sicrhau dilysrwydd tystiolaeth ysgrifenedig heb weld pob plentyn yn uniongyrchol.

## 4.5. Sut y cytunir ar addasrwydd yr addysg

Ar draws awdurdodau lleol Cymru, roedd amrywiad sylweddol yn y ffordd y caiff addasrwydd addysg plant a addysgir yn y cartref ei asesu a'i gytuno. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd, swyddogion neu gydlynwyr addysg ddewisol yn y cartref unigol sy'n gwneud y penderfyniadau'n bennaf, ond dywedodd rhai awdurdodau eu bod yn mabwysiadu, yn symud tuag at neu'n ystyried dulliau'n seiliedig ar baneli ar gyfer achosion mwy cymhleth.

Yn y mwyafrif o awdurdodau lleol, mae penderfyniadau ynghylch addasrwydd yr addysg yn cael eu gwneud gan swyddogion neu gydlynwyr addysg ddewisol yn y cartref. Yn aml, mae'r swyddogion hyn yn athrawon cymwysedig neu'n staff lles addysg, ac maent fel arfer yn seilio eu barn ar dystiolaeth a ddarperir gan deuluoedd, arsylwadau o ymweliadau, a sgyrsiau gyda phlant a rhieni.

Er enghraifft, mewn un enghraifft, mae addasrwydd yn cael ei bennu gan "swyddogion addysg ddewisol yn y cartref, sydd hefyd yn gyn-athrawon profiadol" gyda'r opsiwn o ymgynghori â chydweithwyr arbenigol (e.e. gwasanaethau ADY neu anabledd) os oes angen. Yn yr un modd, dywedodd awdurdod lleol arall fod y cydlynydd addysg ddewisol yn y cartef yn gwneud y penderfyniad ar ei ben ei hun, ac mewn un arall, "mae'r swyddog addysg ddewisol yn y cartref yn gwneud y penderfyniad ar ei ben ei hun ac yn ei seilio ar unrhyw dystiolaeth a roddir a datblygiad y plentyn yn erbyn y disgwyliadau."

Mewn rhai achosion, cynhelir trafodaethau rheolaidd gyda rheolwyr neu gydweithwyr er mwyn darparu goruchwyliaeth ychwanegol, hyd yn oed os yw'r penderfyniad terfynol yn nwylo'r swyddog addysg ddewisol yn y cartref. Er enghraifft, nododd un awdurdod lleol fod ei arweinydd addysg ddewisol yn y cartref “yn cael cyfarfodydd misol gyda’i reolwr i drafod yr hyn y mae'n hapus ag ef a’r hyn nad yw’n hapus ag ef” a phwysleisiodd awdurdod lleol arall fod penderfyniadau weithiau’n cael eu gwneud ar y cyd: “fel mae'n digwydd, cefais gyfarfod heddiw gyda chydweithiwr a gwneud penderfyniad yn seiliedig ar farn ar y cyd.”

Dim ond rhai awdurdodau lleol sy'n defnyddio, neu'n bwriadu defnyddio, panel ffurfiol i adolygu addasrwydd yr addysg ar hyn o bryd. Dywedodd un awdurdod lleol, er bod penderfyniadau’n cael eu gwneud gan y swyddog yn unig ar hyn o bryd, “o fis Medi ymlaen, lle mae amheuon ynghylch addasrwydd yr addysg, bydd teuluoedd yn cael eu hasesu gan banel newydd addysg ddewisol yn y cartref.” Yn yr un modd, eglurodd awdurdod lleol arall, er bod penderfyniadau ynghylch addasrwydd fel arfer yn cael eu gwneud gan swyddogion, “os ydym yn credu bod angen i ni ddechrau proses gorchymyn mynychu'r ysgol byddwn yn cyflwyno hyn gerbron panel amladrannol i’w drafod.” Adroddodd awdurdod lleol arall hefyd ei fod wedi uwchgyfeirio “achosion anodd” i banel, a dywedodd 2 awdurdod lleol arall eu bod yn ystyried cyflwyno trefniadau panel yn benodol ar gyfer achosion gorchymyn mynychu'r ysgol. Mae hyn yn awgrymu, er nad yw goruchwyliaeth sy'n seiliedig ar banel yn arfer cyffredin eto, fod cydnabyddiaeth gynyddol o'i werth o ran sicrhau cysondeb a chadernid, yn enwedig ar gyfer achosion mwy cymhleth neu achosion dadleuol.

Mewn ychydig yn llai na thraean o'r awdurdodau lleol, mae penderfyniadau'n destun cymeradwyaeth ffurfiol gan reolwr neu arweinydd tîm. Roedd awdurdodau lleol a oedd â phrosesau o'r fath ar waith yn teimlo ei fod yn darparu ail haen o farn broffesiynol ac yn helpu i leihau'r risg o anghysondeb neu anghydfod. Er enghraifft:

- mewn un awdurdod lleol, mae penderfyniadau ynghylch addasrwydd yr addysg yn cael eu "cymeradwyo gan y Rheolwr Tîm" ar ôl adolygu adroddiadau'r swyddogion
- mae awdurdod lleol arall yn ei gwneud yn ofynnol i argymhelliad y swyddog addysg ddewisol yn y cartref gael ei adolygu a'i lofnodi gan arweinydd y gwasanaeth lles addysg
- nododd un awdurdod lleol, os yw swyddogion addysg ddewisol yn y cartref yn “ansicr, byddant yn dod ataf am sgwrs a goruchwyliaeth” cyn cymryd camau pellach.
- mewn enghraifft arall, esboniwyd bod penderfyniadau'n cael eu cymeradwyo gan yr arweinydd addysg ddewisol yn y cartref a, lle ceir ansicrwydd, gan y rheolwr ymyriadau
- pwysleisiodd dau awdurdod lleol bwysigrwydd goruchwyliaeth gan reolwyr drwy drafodaethau ac adolygiadau achosion.

## 4.6. Defnyddio'r canllawiau statudol wrth asesu addasrwydd yr addysg

Dywedodd saith awdurdod lleol fod y canllawiau statudol wedi darparu mwy o eglurder a chysondeb wrth asesu addasrwydd addysg. Dywedodd un awdurdod lleol fod y canllawiau’n gliriach na’r fersiwn flaenorol, yn enwedig o ran nodi disgwyliadau ynghylch cynnydd a

darparu fframwaith wedi'i safoni ledled Cymru. Disgrifiodd ALI arall y canllawiau fel rhai “defnyddiol iawn” o ran egluro'r prosesau pan fydd plentyn yn dod oddi ar gofrestr yr ysgol, a dywedodd un arall ei fod wedi llunio fframwaith asesu strwythuredig. Nododd un ALI fod yr hyblygrwydd yr oedd yn ei ganiatáu wrth dderbyn allbynnau creadigol (megis lluniau neu bosteri) ochr yn ochr â gwaith mwy ffurfiol yn werthfawr.

Soniodd ambell un o'r awdurdodau lleol hyn am newidiadau mwy sylweddol i brosesau y gellir eu priodoli i'r canllawiau, ond mewn 2 achos disgrifiwyd y rhain fel safoni ymarfer a oedd eisoes ar waith yn lleol i raddau helaeth.

Dywedodd 8 awdurdod lleol arall nad oedd y canllawiau wedi gwneud fawr ddim gwahaniaeth i ymarfer, os o gwbl. Mewn rhai achosion roedd hyn oherwydd bod prosesau tebyg eisoes ar waith, tra bod eraill wedi dweud eu bod yn parhau i ddibynnu ar farn broffesiynol leol yn hytrach na newid ymarfer.

Tynnodd deg awdurdod lleol sylw at gyfyngiadau, gan ddisgrifio'r canllawiau fel rhai amwys neu rai sy'n gwrth-ddweud ei gilydd. Dywedodd un awdurdod lleol nad oeddent wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol oherwydd bod gan yr awdurdod brosesau tebyg ar waith eisoes ac o ganlyniad roedd wedi drafftio ei ganllaw mewnol ei hun ar addysg ddewisol yn y cartref. Teimlai un arall fod y canllawiau'n gweithredu'n bennaf fel awgrymiadau yn hytrach nag fel offeryn a oedd wedi ysgogi newid sylweddol. Dywedodd awdurdodau lleol eraill iddynt gael effaith gyfyngedig yn unig, gan nodi, er bod y canllawiau wedi ffurfioli'r disgwyliadau, nad oeddent wedi newid ymarfer. Pwysleisiodd dau awdurdod lleol fod amwysedd y canllawiau weithiau'n galluogi rhieni i wrthod ymgysylltu neu i ddarparu tystiolaeth wan. Nododd un awdurdod lleol fod rhai awdurdodaethau eraill yn cynnal asesiadau blynyddol, gan gynnwys profion sylfaenol y disgwylir i blant a addysgir yn y cartref eu cwblhau ond nad oedd yn ymddangos bod awydd am hyn yng Nghymru, sydd, ym marn yr awdurdod hwn, yn cyfyngu ar y gallu i ddangos cynnydd.

Roedd saith awdurdod lleol yn feirniadol o dôn a geiriad cyffredinol y canllawiau, gan ddadlau bod y defnydd o 'dylai' yn hytrach na 'rhaid' wedi arwain at ormod o amwysedd sy'n gwanhau trefniadau gorfodi a diogelu. Tynnodd un awdurdod lleol sylw at y ffaith bod achosion o wrth-ddweud yn adrannau 4.11 i 4.13 a 4.16 i 4.17 a oedd yn ei gwneud yn anodd cael diffiniad pendant o addysg 'dda', a galwodd am eiriad cryfach a chliriach. Er enghraifft, mae adran 4.13 yn nodi'r hyn na ddylai awdurdodau lleol ei fynnu o ran addysg yn y gartref ac ystyriwyd bod adrannau 4.16 a 4.17 yn rhy amwys o ran nodi'r hyn yr oeddent yn ei fynnu. Nododd hefyd fod y canllawiau'n ei gwneud yn glir yn 4.34 y gall awdurdodau lleol wneud ymholiadau anffurfiol i rieni ynghylch manylion y ddarpariaeth addysgol ar gyfer eu plentyn, ond bod diffyg eglurder ynghylch dyfnder y cwestiynau a'r dadansoddiad sy'n gyfystyr ag ymholiad 'anffurfiol'.

Nododd eraill fod hyblygrwydd o ran dehongli wedi creu amrywiad eang mewn ymarfer rhwng awdurdodau lleol ac efallai nad yw'n adlewyrchu proffil newidiol y garfan addysg ddewisol yn y cartref, y mae llawer ohonynt wedi gadael yr ysgol am resymau negyddol ac y mae eu rhieni'n teimlo nad ydynt yn cael eu cefnogi neu heb eu paratoi. Mewn achosion o’r fath, disgrifiwyd rhieni fel rhai a oedd yn aml yn “hynod o bryderus” ac yn ei chael hi’n anodd gwybod beth i’w wneud o ran darparu addysg addas i’w plentyn. Tynnodd yr awdurdodau lleol hyn sylw at bwysigrwydd gwneud i'r rhieni hyn deimlo'n gyfforddus o'r cychwyn cyntaf.

Ystyriwyd bod cyswllt cychwynnol a chynnar dros y ffôn (o fewn 10 diwrnod i ddadgofrestru) yn ddull mwy “cyfeillgar” o feithrin perthynas gadarnhaol o’r cychwyn cyntaf, o'i gymharu ag anfon ffurflen. Os oedd teuluoedd yn parhau i gael trafferth, dywedodd un awdurdod lleol ei fod yn cynnig cyfarfodydd chwarterol i gefnogi gwelliant.

Disgrifiodd pedwar awdurdod lleol anawsterau ymarferol wrth farnu cynnydd a phriodoli tystiolaeth i'r plentyn heb fframwaith asesu statudol. Disgrifiwyd y broses barhaus o gasglu tystiolaeth gan un swyddog fel un “anodd sy'n gofyn am lawer o adnoddau” oherwydd ei bod yn dibynnu ar gydweithrediad rhieni.

Roedd yr ymatebion i nodweddion addysg addas a awgrymwyd yn Atodiad A yn gymysg. Dywedodd un awdurdod lleol fod ffurflenni cynnydd yn seiliedig ar y nodweddion hyn yn ddefnyddiol i deuluoedd, ac roedd un arall yn ystyried dangosyddion llythrennedd a rhifedd yn bwyntiau cyswllt defnyddiol. Dadleuodd eraill nad oedd y dangosyddion hyn yn ddigon cryf i ddiffinio addasrwydd yn ymarferol, ac roedd eraill yn teimlo bod yr Atodiad i raddau helaeth yn atgyfnerthu prosesau a oedd eisoes ar waith ganddynt.

Dywedodd ambell awdurdod lleol, er bod y canllawiau’n ddefnyddiol, nad oeddent ganddynt ddigon o “arfau” i orfodi newid pan oedd yr addysg yn anaddas a bod angen eu haddasu i gyd-fynd ag ymarfer lleol er mwyn iddynt fod yn ymarferol.

Awgrymodd awdurdodau lleol welliannau gan gynnwys diffiniadau a safonau cliriach gydag enghreifftiau ymarferol, mwy o ddeunyddiau a thempledi i rieni, canllawiau cryfach ar briodoli tystiolaeth (er enghraifft sut i ddangos bod gwaith wedi'i gynhyrchu gan blant), mwy o ganllawiau i deuluoedd plant ag ADY a threfniadau cyfeirio cliriach rhwng monitro addysgol a diogelu.

At ei gilydd, er bod y canllawiau wedi darparu awgrymiadau a strwythur defnyddiol i rai awdurdodau lleol, i eraill mae eu hamwysedd a'r gallu cyfyngedig i'w gorfodi wedi cyfyngu ar eu heffaith weithredol, ac roedd y canlyniadau'n dibynnu'n fawr ar gapasiti lleol, gweithdrefnau presennol a'r graddau y mae pob awdurdod wedi trosi'r canllawiau yn offer a phrosesau lleol.

# 5. Canfyddiadau: gwneud trefniadau i weld y plentyn

## 5.1. Y cyd-destun polisi

Mae'r canllawiau statudol ar addysg ddewisol yn y cartef yn pwysleisio pwysigrwydd gweld y plentyn sy'n cael ei addysgu yn y cartref a siarad ag ef i bennu pa mor addas yw'r addysg. Roedd hwn yn ychwanegiad newydd at y canllawiau diwygiedig, mewn ymateb i Adolygiad y Comisiynydd Plant (2021) o sut y mae Llywodraeth Cymru yn arfer ei swyddogaethau mewn perthynas ag addysg ddewisol yn y cartref ac ysgolion annibynnol, a'i fwriad oedd cefnogi awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau statudol presennol.

Yn adrannau 4.21 i 4.26 o'r canllawiau nodir, er mwyn pennu addasrwydd yr addysg, y dylai'r awdurdod lleol 'weld y plentyn a chyfathrebu ag ef', ond nid yw hyn yn orfodol. Fodd bynnag, er nad oes rhaid i rieni gytuno i gael cyfarfod, noda'r canllawiau y bydd yn anodd i'r awdurdod lleol bennu addasrwydd yr addysg heb weld y plentyn a siarad ag ef. Nid oes rhaid i gyfarfodydd o'r fath gael eu cynnal yn y cartref a gellir eu cynnal mewn lleoliad y cytunir arno gan y ddwy ochr.

Os na chynhelir cyfarfod, noda'r canllawiau ei bod yn rhaid i awdurdod lleol benderfynu a yw'n fodlon bod y plentyn yn derbyn addysg addas yn seiliedig ar y dystiolaeth berthnasol a ddarparwyd gan y rhiant. Noda'r canllawiau, mewn rhai amgylchiadau, efallai na fydd er budd gorau'r plentyn i'r awdurdod lleol gyfarfod ag ef, ac mewn amgylchiadau o'r fath, gall yr awdurdod lleol ddod i'r casgliad bod y plentyn yn derbyn addysg addas, heb ei weld na chyfathrebu ag ef.

## 5.2. Rhoi trefniadau ar waith i weld y plentyn

Disgrifiodd yr awdurdodau lleol ystod o drefniadau i'w galluogi i weld plant a addysgir yn y cartref, ac roedd y rhan fwyaf yn cydnabod bod ymgysylltu'n dibynnu'n fawr ar feithrin ymddiriedaeth gyda theuluoedd. Er bod pwerau statudol yn parhau i fod yn gyfyngedig, pwysleisiodd staff fod dulliau “meddal”, opsiynau cyfarfod hyblyg, a dyfalbarhad yn hanfodol er mwyn creu cyfleoedd i weld plant.

Dywedodd y rhan fwyaf o awdurdodau mai eu disgwyliad arferol yw gweld y plentyn fel rhan o adolygiad blynyddol, yn ddelfrydol yn amgylchedd y cartref. Fodd bynnag, gan gydnabod bod rhai teuluoedd yn amharod i ganiatáu ymweliadau cartref, cynigir dewisiadau amgen fel mater o drefn. Dywedwyd bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal mewn swyddfeydd cyngor, caffis, llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol, neu hyd yn oed mewn mannau awyr agored fel parciau lleol. Fel yr eglurodd un swyddog: “Os nad yw’r teulu eisiau i ni ddod i'r cartref, mae hynny’n iawn – byddwn ni’n cwrdd ym mhle bynnag maen nhw’n gyfforddus. Y peth pwysig yw ein bod ni’n gweld y plentyn ac yn cael syniad o’i gynnydd.”

Mae sawl awdurdod hefyd yn defnyddio gweithgareddau cyfoethogi neu weithgareddau cymunedol i gynyddu cyfleoedd i weld plant mewn lleoliadau cymdeithasol llai ffurfiol. Roedd yr enghreifftiau'n cynnwys sesiynau dysgu mewn grŵp mewn mannau lleol,

digwyddiadau dosbarthu adnoddau, boreau coffi, a gweithdai galw heibio. Yn ôl un swyddog: “Weithiau bydd rhieni sy’n betrus ynglŷn ag ymweliadau cartref yn hapus i ddod â’u plentyn i sesiwn wyddoniaeth neu weithdy crefftau. Mae hynny'n ein galluogi i ryngweithio â nhw mewn ffordd naturiol.”

Soniwyd hefyd am ddulliau mwy uniongyrchol. Crybwyllwyd ymweliadau carreg drws fel strategaeth bragmatig mewn achosion lle nad oedd teuluoedd yn caniatáu i swyddogion fynd i'w cartref. Esboniodd un awdurdod lleol nad oedd hyn yn ddelfrydol ond ei fod o leiaf yn darparu “ffordd o gael rhywfaint o gyswllt - gallwn weld y plentyn, hyd yn oed os yw hynny ond am gyfnod byr, a gwirio ei fod yn iawn.” Disgrifiodd un arall sut y caniatawyd i rieni gadw plant yn y cefndir yn ystod cyfarfodydd, hyd yn oed os nad oeddent am iddynt ymgysylltu’n uniongyrchol: “Os gallwn ni o leiaf weld y plentyn yn yr ystafell neu yn yr ardd, mae’n ein sicrhau ni ei fod yno ac yn aml dyna’r cam cyntaf tuag at feithrin ymddiriedaeth.”

Amlygodd yr awdurdodau lleol hefyd ddulliau cam wrth gam o ymdrin â gohebiaeth a chysylltiadau dilynol. Dywedwyd bod llythyrau, galwadau ffôn, a negeseuon testun yn ddulliau a ddefnyddiwyd yn gyson, a oedd yn aml yn cael eu dilyn gan ymweliadau ar y cyd â gweithwyr proffesiynol eraill sydd eisoes yn gweithio gyda'r teulu. Nodwyd bod cydlynwyr addysg teithwyr, gweithwyr cymdeithasol, neu ymwelwyr iechyd yn bartneriaid pwysig o ran cyrraedd teuluoedd y gall fod yn anoddach ymgysylltu â nhw. Fel yr eglurodd un swyddog: “Dydyn ni ddim yn rhoi’r ffidl yn y to ar ôl un llythyr. Rydyn ni’n dal ati, ac weithiau gall gweithiwr proffesiynol arall sy’n adnabod y teulu agor y drws i ni.”

Yn olaf, pwysleisiodd llawer o awdurdodau lleol mai diogelu yw cefndir y trefniadau hyn. Mae staff yn cael hyfforddiant, yn mynychu fforymau amlasiantaeth, ac wedi cytuno ar lwybrau uwchgyfeirio i'r gwasanaethau cymdeithasol lle nad oes parodrwydd i ymgysylltu. Crynhodd un swyddog y sefyllfa gan ddweud: “Dydyn ni ddim yno i blismona addysg yn y cartref, ond mae gennym ddyletswydd i wirio bod y plant yn ddiogel. Os na allwn eu gweld o gwbl, dyna pryd mae'n dod yn bryder diogelu.”

## 5.3. Y gwahaniaeth yn y gallu i weld y plentyn ers cyflwyno'r canllawiau statudol

Rhoddodd awdurdodau lleol ddarlun cymysg o ran a oedd y canllawiau statudol wedi gwella eu gallu i weld plant a addysgir yn y cartref. At ei gilydd, er bod nifer bach o awdurdodau wedi nodi y bu cynnydd graddol yn nifer y plant a welwyd, dywedodd y mwyafrif nad y canllawiau statudol eu hunain oedd y prif reswm dros hynny ac nad oedd wedi arwain at newid sylweddol.

Dywedodd rhai awdurdodau iddynt weld cynnydd bach yn nifer y plant y maent yn gallu eu gweld erbyn hyn. Disgrifiwyd hyn fel enillion “bach” yn hytrach na thrawsnewidiad, gyda chynnydd o “lond llaw” o ddysgwyr yn hytrach na chynnydd mawr. Amcangyfrifodd un awdurdod lleol ei fod bellach yn gallu gweld “tua 10% yn fwy o’n carfan” o’i gymharu â chyn cyflwyno'r canllawiau, ond pwysleisiwyd bod hyn yn bennaf oherwydd newidiadau mewn staffio ac ymarfer. Awgrymodd un arall ei fod wedi llwyddo i weld “ychydig o deuluoedd ychwanegol bob blwyddyn” ond ychwanegodd: “Nid yw’n gynnydd mawr - nid yw’r canllawiau ynddynt eu hunain wedi newid y sefyllfa.”

Lle y gwelwyd gwelliannau, nid y canllawiau eu hunain oedd y prif ffactorau a nodwyd ond yn hytrach ffactorau ar lefel leol. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- mwy o gapasiti o ran staff (e.e. cyflogi swyddogion addysg ddewisol yn y cartref neu staff gweinyddol pwrpasol i gadw cofrestrau a chysylltu'n brydlon â theuluoedd)
- prosesau newydd, fel trefnu ymweliadau yn gynharach ar ôl dadgofrestru, neu wneud ymdrechion parhaus i gysylltu â theuluoedd drwy sianeli lluosog (llythyrau, galwadau, negeseuon testun)
- dulliau meithrin perthnasoedd, gan gynnwys digwyddiadau galw heibio, sesiynau gweithgaredd, a gweithdai grŵp a oedd yn creu cyfleoedd mwy anffurfiol i gwrdd â phlant
- hyblygrwydd ar ôl y pandemig, gyda rhai teuluoedd bellach yn fwy parod i gymryd rhan mewn galwadau fideo neu drefniadau cyfarfod amgen.

Fel y disgrifiodd un awdurdod lleol: “Mae’r cynnydd rydyn ni wedi’i weld i'w briodoli i'r ffaith ein bod ni'n gweithio’n wahanol - yn fwy rhagweithiol, yn fwy creadigol. Nid y canllawiau roddodd yr offer i ni; roedd yn rhaid i ni eu creu ein hunain.”

Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, dywedodd rhai awdurdodau eraill fod nifer y plant y maent yn gallu eu gweld wedi aros yr un fath neu, mewn rhai achosion, wedi gostwng. Tynnodd staff sylw at heriau parhaus gan gynnwys:

- gwrthwynebiad gan rieni, gyda theuluoedd yn dod yn fwy hyderus i wrthod cyswllt, gan ddyfynnu'r canllawiau eu hunain weithiau: “Bydd rhieni’n dweud, ‘Dangoswch i ni ble mae’n dweud bod yn rhaid i ni eich gadael chi i mewn.’ Ac wrth gwrs, allwn ni ddim - felly rydyn ni'n wynebu maen tramgwydd.”
- diffyg pwerau cyfreithiol, gyda swyddogion yn pwysleisio, er gwaethaf y canllawiau, na allant orfodi rhieni i adael iddyn nhw weld y plentyn, sy'n golygu eu bod yn ddibynnol ar gydweithrediad gwirfoddol
- y twf yn y nifer sy'n dewis addysgu yn y cartref a'r niferoedd cynyddol o blant a addysgir yn y cartref yn ei gwneud hi'n anoddach cynnal ymweliadau un-i-un gyda nifer cyfyngedig o staff: “Hyd yn oed os ydyn ni’n gweld yr un gyfran, mae’r niferoedd nad ydyn ni'n eu gweld yn uwch oherwydd bod y garfan wedi tyfu cymaint.”
- dylanwad grwpiau eirioli - gyda rhai awdurdodau lleol yn benodol yn disgrifio achosion lle mae ychydig o rieni yn dyfynnu cyngor a gawsant gan sefydliadau ymgyrchu er mwyn gwrthod ymweliadau.

## 5.4. Barn ynghylch a yw'r canllawiau’n mynd yn ddigon pell o ran rhoi’r pwerau i awdurdodau lleol weld y plentyn, a meysydd allweddol eraill

Roedd cytundeb unfrydol bron nad yw'r canllawiau statudol yn mynd yn ddigon pell o ran rhoi'r pwerau sydd eu hangen arnynt i awdurdodau lleol. Pwysleisiodd awdurdodau lleol yn gyson, er bod y canllawiau’n eu hannog i weld plant, nad ydynt yn creu gofyniad statudol i deuluoedd gydymffurfio.

Y prif fwlch a nodwyd oedd absenoldeb gorfodaeth gyfreithiol. Teimlai un awdurdod lleol fod hyn yn tanseilio ei awdurdod i wneud hynny: “Gallwn ofyn, ond os yw’r teulu’n dweud na, dyna ddiwedd y sgwrs. Does dim grym cyfreithiol y gallwn ni ei ddefnyddio.” Pwysleisiodd sawl awdurdod lleol mai'r unig ffordd ystyrlon ymlaen fyddai newid deddfwriaethol er mwyn ei gwneud yn ofynnol i blant gael eu gweld o leiaf bob blwyddyn.

Y tu hwnt i hynny, tynnodd awdurdodau lleol sylw at fylchau penodol a meysydd lle y gellid cryfhau neu egluro'r canllawiau. Teimlai sawl awdurdod lleol fod angen disgwyliadau cliriach ynghylch rhwymedigaethau rhieni, gan ddisgrifio'r canllawiau ar hyn o bryd fel "rhy aneglur" o ran yr hyn y mae'n rhaid i deuluoedd ei wneud. Esboniodd un: “Mae angen iddynt egluro’n glir yr hyn sy’n ddisgwyliedig gan rieni, fel arall maen nhw’n ei ddehongli sut bynnag maen nhw dymuno.” Awgrymodd ambell un y dylai fod yn ofynnol i rieni ddarparu tystiolaeth o gynlluniau addysgol neu samplau o waith pan fyddant yn dadgofrestru eu plentyn. Galwodd awdurdodau lleol eraill am derfynau amser cliriach ar gyfer gweld plant ar ôl iddynt gael eu dadgofrestru, yn hytrach na bod hyn yn aneglur.

Dywedodd nifer o awdurdodau lleol y dylai'r canllawiau gael eu hategu gan ofyniad cyfreithiol am gofrestr addysg ddewisol yn y cartref, gan sicrhau bod pob plentyn yn cael ei gynnwys. Roedd rhai eisiau i'r canllawiau wahaniaethu'n gliriach rhwng monitro addysg a dyletswyddau diogelu, er mwyn osgoi drysu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol fel ei gilydd. Fe wnaethant hefyd godi problemau'n ymwneud â'r diffiniad o 'weld y plentyn' gan nodi nad yw'r canllawiau'n manylu ar yr hyn sy'n cyfrif fel gweld plentyn - e.e. a yw galwadau fideo, digwyddiadau grŵp, neu gyfarfyddiadau byr yn dderbyniol. Roeddent yn dadlau bod hyn yn creu anghysondeb ar draws y dulliau a ddefnyddiwyd gan awdurdodau lleol.

Tynnodd awdurdodau lleol sylw hefyd at iaith amwys y canllawiau, a oedd, yn eu barn nhw, wedi creu bylchau yn y rheolau. Ystyriwyd bod termau fel 'dylai' yn hytrach na 'rhaid' yn gwanhau eu grym. Fel y dywedodd un: “Mae rhieni’n sylwi ar y gair ‘dylai’ ar unwaith - mae hynny’n dweud wrthyn nhw ei fod yn ddewisol.”

At ei gilydd, er bod rhai yn gwerthfawrogi'r canllawiau fel datganiad o fwriad, y farn unfrydol oedd nad ydynt yn ddigonol i warantu mynediad at blant. Roedd awdurdodau lleol eisiau geiriad cliriach a chadarnach, cyfrifoldebau penodol i rieni, ac yn ddelfrydol sylfaen statudol a fyddai'n dileu amwysedd. Crynhodd un awdurdod lleol y safbwynt mwyaf cyffredin: “Nes iddo ddod yn gyfraith, byddwn ni wastad yn gofyn, yn hytrach na mynnu. Dyna'r bwlch."

# 6. Canfyddiadau: gorchmynion mynychu'r ysgol

## 6.1. Y cyd-destun polisi

Amlinellir y broses gorchymyn mynychu'r ysgol yn adran 5 o'r canllawiau. Mae'r adran yn cynnwys trosolwg o'r ddeddfwriaeth, a phryd y dylai awdurdodau lleol droi at y broses gorchymyn mynychu'r ysgol. Ceir rhagor o fanylion am y weithdrefn gorchymyn mynychu'r ysgol ei hun yn y Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan.

Mae'r canllawiau'n nodi'r disgwyliadau canlynol ar awdurdodau lleol, lle mae'n ymddangos nad yw plentyn o oedran ysgol gorfodol yn cael addysg addas: rhaid i'r awdurdod lleol gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r rhiant i'w fodloni o fewn cyfnod penodedig bod y plentyn yn cael addysg o'r fath. Os na fydd y rhiant yn gwneud hyn, a bod yr awdurdod lleol yn ystyried ei bod yn hwylus i'r plentyn fynychu'r ysgol, rhaid i'r awdurdod ddyroddi gorchymyn mynychu'r ysgol i'r rhiant sy'n manylu ar yr ysgol y dylai'r plentyn ei mynychu.

At hynny, noda'r canllawiau, os bydd rhiant yn methu â chydymffurfio â gorchymyn mynychu'r ysgol, bod yn rhaid i'r awdurdod lleol ystyried a yw'n briodol gwneud cais am orchymyn goruchwylio addysg mewn perthynas â'r plentyn. Lle mae'n ymddangos bod diffyg addysg addas yn debygol o amharu ar ddatblygiad plentyn, yna, yn unol â'r canllawiau, disgwylir i'r awdurdod lleol arfer ei bwerau a'i ddyletswyddau diogelu yn llawn i ddiogelu lles y plentyn a sicrhau ei fod yn cael ei amddiffyn rhag niwed sylweddol.

## 6.2. Y broses gorchymyn mynychu'r ysgol

Cyn dechrau proses gorchymyn mynychu'r ysgol ffurfiol, dywedodd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol eu bod fel arfer yn ceisio gweithio'n agos gyda theuluoedd sy'n addysgu yn y cartref i wella addasrwydd yr addysg a/neu'r dystiolaeth o addasrwydd a ddarperir. Mae'r enghreifftiau a ddarparwyd gan yr ymatebwyr o'r math o gymorth a gynigir ar yr adeg hon yn cynnwys cynnal cyfarfodydd chwarterol gyda'r teulu i gefnogi gwelliant; rhannu technegau ac adnoddau; rhoi cyngor ar sut i ddangos tystiolaeth o addasrwydd; atgyfeirio'r teuluoedd at rwydweithiau cymorth ehangach; darparu cymorth penodol ar lythrennedd a rhifedd; a datblygu cynllun gweithredu ar gyfer gwella addasrwydd yr addysg. Esboniodd yr awdurdodau lleol y gallai'r cymorth a ddarperir fod yn gydweithredol ac yn amlddisgyblaethol hefyd pan fydd y teulu'n cael cymorth gan adrannau ac asiantaethau ehangach (megis gofal cymdeithasol neu dimau troseddau ieuenctid). Roedd yn well gan awdurdodau lleol ymgysylltu'n rhagweithiol â theuluoedd yn y modd hwn fel cam cyntaf, a defnyddio'r broses gorchymyn mynychu'r ysgol ffurfiol fel y dewis olaf. Fodd bynnag, nododd yr ymatebwyr mai dim ond pan fydd teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref yn fodlon ymgysylltu â swyddogion addysg ddewisol yn y cartref awdurdodau lleol i ryw raddau y mae'r dull hwn yn berthnasol, ac nid pan fydd teuluoedd yn gwrthod ymgysylltu'n gyfan gwbl.

Ar ôl darparu'r cymorth hwn, os nad yw'r awdurdod lleol yn ystyried bod yr addysg yn addas, dywedodd y rhan fwyaf o swyddogion addysg ddewisol yn y cartref awdurdodau lleol eu bod fel arfer yn hysbysu rhieni mewn modd anffurfiol a chyfeillgar, fel wyneb yn wyneb

neu dros y ffôn. Yn ystod y cyfweliadau, eglurwyd mai'r bwriad yw rhoi cyfle olaf i deuluoedd wella addasrwydd yr addysg a/neu'r dystiolaeth a ddarperir a thrafod yr opsiwn i'r plentyn ddychwelyd i'r ysgol. Unwaith eto, dim ond os yw teuluoedd wedi ymgysylltu â'r awdurdod lleol i ryw raddau y mae hyn yn bosibl. Er enghraifft, nododd un awdurdod lleol, mewn tua 9 achos o bob 10, y bydd y teulu'n cytuno y gall y plentyn ddychwelyd i'r ysgol ar yr adeg hon.

Yn gyffredinol, cafwyd disgrifiad cyson o'r broses ar gyfer camau gweithredu ffurfiol, lle bo angen, ar draws yr holl awdurdodau lleol a gyfwelwyd: mae'n cynnwys proses uwchgyfeirio cam wrth gam (weithiau wedi'i hategu gan siart llif), gan roi cyfleoedd i deuluoedd ymateb. Ar y pwynt hwn, mae timau cyfreithiol awdurdodau lleol yn dod yn rhan o'r broses ac, mewn rhai achosion, mae'r cyfrifoldeb cyffredinol yn trosglwyddo i'r Gwasanaeth Lles Addysg ehangach neu banel amlddisgyblaethol addysg ddewisol yn y cartref.

Esboniodd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol fod y broses fel arfer yn cynnwys anfon 3 llythyr at deuluoedd yn unol â'r canllawiau. Mae'r llythyr cyntaf yn amlinellu pryderon yr awdurdod lleol ac yn gofyn am welliannau o fewn amserlen benodol (er enghraifft, o fewn 15 diwrnod). Mae'r ail lythyr yn rhoi rhybudd pellach y gellid cychwyn proses gorchymyn mynychu'r ysgol ac yn enwi ysgol y gallai'r plentyn ei mynychu. Mae'r trydydd llythyr yn rhoi hysbysiad ffurfiol bod gorchymyn mynychu'r ysgol yn cael ei gychwyn.

> "Ar hyn o bryd, os ydym yn teimlo nad yw'r addysg yn addas, byddwn yn cael sgwrs gyda rhiant. Ac os yw'r rhieni'n ymgysylltu, fel arfer byddant yn casglu mwy o dystiolaeth neu enghreifftiau o ddysgu neu byddant yn darparu adroddiad ychwanegol ac yna caiff hynny ei ailasesu. Yn y rhan fwyaf o achosion, dyna sy'n digwydd, ac yna ystyrir bod yr addysg yn addas. [Ond] os yw'r rhiant yn ymddieithrio neu'n gwrthod ateb ein galwadau ffôn neu gydnabod ein llythyrau am ymweliad cartref neu alwadau i'r cartref, dyna'r adeg y byddem yn anfon ein llythyr cyntaf, sef Adran 437 gyda bwriad [i ddyroddi gorchymyn mynychu'r ysgol]. Ac yna os nad ydyn nhw'n ymateb i hynny, maen nhw'n cael 15 diwrnod i ymateb. Os na fyddwn yn cael ymateb o fewn 15 diwrnod, byddwn yn anfon ail lythyr. Os na chawn ymateb ar ôl hynny, bydd trydydd llythyr yn cael ei anfon a bydd y rhiant yn cael ei alw i'r llys."

Mewn llawer o achosion, mae awdurdodau lleol yn canfod bod camau cychwynnol y broses ffurfiol yn ddigonol i annog rhieni i wella addasrwydd yr addysg. Gall hyn gynnwys gwelliant yn addasrwydd yr addysg a ddarperir, gwelliant yn ansawdd y dystiolaeth a ddarperir neu ddychwelyd i'r ysgol. Fel arall, efallai na fydd teuluoedd yn ymateb tan yn ddiweddarach yn y broses (er enghraifft, ar ôl i drydydd llythyr gael ei anfon) ond efallai y bydd eu hymateb yn ddigonol i atal y broses gorchymyn mynychu'r ysgol.

> "Weithiau, bydd y teuluoedd eu hunain yn cyfaddef "rydyn ni wedi gwneud y penderfyniad anghywir. Dyw e ddim yn gweithio i ni. Mae'n llawer mwy o gyfrifoldeb nag yr oeddem yn ei ddisgwyl." Felly weithiau maen nhw'n gwbl gefnogol. Ar adegau eraill, os yw'n gwbl amlwg bod yr addysg a ddarperir yn y cartref yn annigonol, byddaf yn mabwysiadu agwedd gadarn iawn, ond teg."

Esboniodd lleiafrif bach o awdurdodau lleol hefyd y gellir defnyddio prosesau amgen yn lle gorchymyn mynychu'r ysgol, neu'n ogystal â hynny. Er enghraifft, gellir rhoi plentyn mewn

gofal maeth a/neu ei symud i fyw gydag aelod arall o'r teulu sy'n gallu darparu addysg addas. Nododd un awdurdod lleol, oherwydd yr amser y gall ei gymryd i orchymyn mynychu'r ysgol gyrraedd y llys, eu bod yn cyfeirio teuluoedd at y tîm gofal cymdeithasol ochr yn ochr â chychwyn y gorchymyn fel y gall aelodau'r tîm ymchwilio i unrhyw bryderon yn ymwneud â lles sy'n gysylltiedig â diffyg addysg addas yn y cyfamser. Nododd awdurdod lleol arall hefyd, mewn rhai achosion, ei fod wedi gallu datrys materion drwy achosion amddiffyn plant agored yn hytrach na phrosesau gorchymyn mynychu'r ysgol ffurfiol.

## 6.3. Gorchmynion mynychu'r ysgol a ddyroddwyd

Dywedodd tua dwy ran o dair o awdurdodau lleol eu bod wedi dyroddi hysbysiadau gorchymyn mynychu'r ysgol yn ystod y 3 blynedd diwethaf, ond dim ond nifer bach iawn yr oedd y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol hyn wedi'u dyroddi (ac weithiau dim ond un). Nid oes tuedd ddaearyddol glir ymhlith awdurdodau lleol sydd wedi dyroddi o leiaf un hysbysiad gorchymyn mynychu'r ysgol o'i gymharu â'r rhai nad ydynt wedi gwneud hynny.

Ymhlith awdurdodau lleol a oedd wedi dyroddi o leiaf un gorchymyn mynychu'r ysgol, y rheswm mwyaf cyffredin o bell ffordd oedd diffyg ymgysylltiad llwyr bron gan deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref. Mewn achosion o'r fath, nid oedd yr awdurdod lleol wedi derbyn unrhyw dystiolaeth gan deuluoedd, nid oedd wedi derbyn unrhyw ymateb i'w ymdrechion i estyn allan a/neu roedd y teuluoedd wedi gwrthod cyfarfod â chynrychiolwyr yr awdurdod lleol.

> “Nid yw’r rhan fwyaf o [orchmynion mynychu'r ysgol] yn deillio o ddiffyg addysg addas ac effeithlon. Mae'n ymwneud yn fwy â'r ffaith ein bod wedi methu â chysylltu â nhw, felly rydym yn eu hatgyfeirio ar y pwynt hwnnw.”

Roedd lleiafrif bach o awdurdodau lleol wedi dyroddi gorchmynion mynychu'r ysgol oherwydd nad oedd yr addysg wedi'i hystyried yn addas, yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddarparwyd gan rieni, ac nid oedd yn dangos unrhyw arwydd o welliant er iddynt gael cymorth gan yr awdurdodau lleol.

Ymhlith y rhai nad oeddent wedi dyroddi unrhyw orchymyn mynychu'r ysgol, y rheswm a nodwyd amlaf oedd effeithiolrwydd yr ymgysylltiad adeiladol cychwynnol a'r gefnogaeth a ddarparwyd i deuluoedd. Fel arfer, roedd teuluoedd nad oeddent wedi ymgysylltu â'r awdurdod lleol o gwbl yn ymateb i lythyrau rhybuddio cyn bod angen dyroddi'r gorchymyn mynychu'r ysgol. O'r herwydd, dywedodd yr awdurdodau lleol nad dyroddi gorchymyn mynychu'r ysgol oedd y cam gweithredu cyntaf na'r un mwyaf addas mewn llawer o achosion.

> “Rwy’n credu bod nifer yr achosion [yn ein hawdurdod lleol ni] ble y gallai gorchymyn mynychu'r ysgol fod yn briodol yn fach iawn, iawn, iawn.”

Ar y cyfan, roedd gan awdurdodau lleol farn gymysg ynghylch effeithiolrwydd a gwerth gorchmynion mynychu'r ysgol. Canfu un awdurdod lleol fod dyroddi gorchmynion mynychu'r ysgol yn gwella ymgysylltiad teuluoedd sy'n darparu addysg ddewisol yn y cartref ac yn eu hannog i rannu’r wybodaeth ofynnol. Roedd un arall yn awyddus i weld y system yn cael ei chryfhau er mwyn caniatáu i awdurdodau ymyrryd yn fwy effeithiol lle mae pryderon diogelu

ychwanegol ac i wiriadau statudol fod yn ofynnol cyn caniatáu dadgofrestru. Fodd bynnag, roedd eraill yn teimlo bod ymgysylltu'n adeiladol â theuluoedd yn fwy tebygol o arwain at ganlyniadau addysgol gwell i'r plentyn. Roedd gan un arall brofiadau cymysg o effeithiolrwydd penderfyniadau'r llys o ran cefnogi pryderon awdurdodau lleol.

> “Os mai sicrhau bod plant yn cael eu haddysgu a'u bod yn hapus yw'r nod, [yn fy marn i] nid yw dyroddi gorchymyn mynychu'r ysgol yn gwneud unrhyw wahaniaeth.”

> “Ydy [gorchymyn mynychu'r ysgol] yn mynd i arwain at newid? Neu a yw'n golygu na fydd dim newid ac yn arwain at chwalu ymhellach bob perthynas sydd wedi cael ei meithrin. Felly rwy'n meddwl ei fod yn ymwneud â deall y sefyllfa ar gyfer y teulu hwnnw, ar gyfer y plentyn hwnnw. Os nad oes gan rywun ddiffyg darpariaeth addysg ar gyfer ei blentyn neu os yw bron â chyrraedd y pwynt hwnnw, yn gyffredinol mae pethau eraill yn digwydd, mae asiantaethau eraill yn ymwneud â'r teulu, felly mae'n dod yn rhan o drafodaeth ehangach a chaiff y gwelliant i'r plentyn hwnnw neu'r teulu cyfan ei wneud drwy brosesau eraill.” (Awdurdod lleol)

Soniodd lleiafrif o awdurdodau lleol am heriau strwythurol yn gysylltiedig â dyroddi gorchmynion mynychu'r ysgol. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- diffyg capasiti yn nhîm addysg ddewisol yn y cartef yr awdurdod lleol neu'r tîm cyfreithiol i ddyroddi gorchmynion mynychu'r ysgol, gyda'r broses yn cael ei disgrifio fel un hirfaith sy'n gofyn am lawer o adnoddau
- yr amser y mae'n ei gymryd i orchmynion mynychu'r ysgol gyrraedd y llys
- dod o hyd i leoedd i blant mewn ysgolion, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae'r galw'n fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael
- ansicrwydd cyfreithiol a'r ofn o ddod yn achos prawf.

> “Gallem fod yn gryfach o ran Gorchmynion Mynychu'r Ysgol; dydyn ni ddim yn symud yn ddigon cyflym ar hynny [oherwydd heriau'n ymwneud â chapasiti].”

Nododd cwpwl o awdurdodau lleol fod y canllawiau statudol newydd wedi ffurfioli ac egluro eu prosesau o ran gorchmynion mynychu'r ysgol ac wedi rhoi rhywfaint o hyder iddynt ddechrau'r broses ffurfiol. Eglurodd un arall ei fod wedi troi at y canllawiau statudol ond nad oedd yn teimlo bod angen gwneud newidiadau sylweddol i'w brosesau presennol.

> “Rydym wedi gofyn am orchmynion mynychu'r ysgol o’r blaen ond nawr mae’r prosesau hyn wedi digwydd oherwydd y canllawiau…felly yn sicr mae’r canllawiau wedi helpu o ran gorchmynion mynychu'r ysgol…Oherwydd rydyn ni’n gwybod beth rydyn ni’n chwilio amdano mewn darpariaeth addas ac yna mae gennych chi’r broses - llythyr un, dim ymateb, felly rydych chi’n anfon llythyr dau, dim ymateb, yna rydych chi'n anfon llythyr tri yn dweud os na fyddwn yn derbyn dim, byddwn ni’n dechrau’r broses gorchymyn mynychu'r ysgol…mae’r prosesau [gorchymyn mynychu'r ysgol] yn fwy pendant, maen nhw yno i’n cefnogi ni fel awdurdodau lleol.”

> “Dydyn ni ddim eisiau’r her gyfreithiol. Rydyn ni'n ceisio sicrhau bod popeth yn cyd-fynd â'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu.”

## 6.4. Y defnydd o ddeunyddiau atodol anstatudol

Nododd mwyafrif yr awdurdodau lleol eu bod wedi defnyddio'r deunyddiau atodol anstatudol a ddarparwyd ochr yn ochr â'r canllawiau statudol. Roedd y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol hyn wedi diwygio'r deunyddiau i gyd-fynd â'u gofynion arddull mewnol eu hunain, y cyd-destun addysg ddewisol yn y cartref a dulliau o ymgysylltu â theuluoedd sy'n addysgu yn y cartref. Dywedodd awdurdodau lleol eu bod wedi diwygio templedi adrodd a llythyrau er mwyn eu gwneud yn haws eu defnyddio, er enghraifft sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei gynrychioli neu wneud yr iaith yn fwy hygyrch.

Fe wnaeth yr awdurdodau lleol hynny a ddywedodd nad ydynt yn defnyddio'r deunyddiau atodol, yn y rhan fwyaf o achosion, adrodd eu bod wedi adolygu'r deunyddiau i sicrhau bod eu dogfennau presennol yn cyd-fynd â'r elfennau mwyaf hanfodol. Roedd yr awdurdodau lleol hyn yn ffafrio arddull a fformat eu templedi eu hunain ond roeddent yn cydnabod gwerth cael y deunyddiau atodol anstatudol fel pwynt cyfeirio.

> “Byddwn i’n dweud bod yr hyn sydd gennym ni yn haws ei ddefnyddio...rydyn ni wedi cwmpasu pob agwedd, ond rydyn ni wedi gwneud iddo edrych yn well.”

Dywedodd ambell awdurdod lleol nad yw fel arfer yn defnyddio'r ffurflenni templed cychwynnol ar gyfer teuluoedd. Nodwyd bod yn well ganddynt ymgysylltu â'r teuluoedd dros y ffôn neu wyneb yn wyneb i ddechrau er mwyn meithrin perthynas gadarnhaol a gweithio gyda'r teuluoedd i ddatblygu eu cynlluniau addysg ddewisol yn y cartref.

> “Ceisio datblygu'r berthynas yn hytrach nag anfon llythyr ffurfiol iawn atyn nhw ar unwaith. Ac roedden ni'n teimlo, o ran ein cymuned ni, y byddai hynny'n codi gwrychyn llawer o rieni. Felly, i ni, mae'r alwad ffôn honno'n gweithio'n well.”

Ar y llaw arall, dywedodd ambell awdurdod lleol hefyd fod natur anstatudol bresennol y ffurflenni teulu yn cyfyngu ar gydymffurfiaeth mewn rhai achosion. Roedd yr awdurdodau lleol hyn o'r farn y byddai ei gwneud yn rhwymedigaeth statudol i deuluoedd lenwi'r ffurflenni yn cefnogi awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

Er na nododd yr awdurdodau lleol bod angen unrhyw ddeunyddiau ychwanegol, pwysleisiodd ambell un y dylai awdurdodau lleol gymryd rhan fwy effeithiol yn y broses o ddylunio deunyddiau er mwyn eu gwneud mor hawdd â phosibl i'w defnyddio.

# 7. Canfyddiadau: cymorth i deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref

## 7.1. Y cyd-destun polisi

Mae Adran 6 o'r canllawiau statudol yn amlinellu sut y gall awdurdodau lleol ddarparu cymorth i deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref. Mae'r canllawiau'n annog awdurdodau lleol i roi cymorth i deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref drwy ddarparu cyngor cyffredinol a hwyluso mynediad at ddeunyddiau addysgol am brisiau gostyngol, hysbysu teuluoedd am brosiectau neu raglenni sydd ar gael i blant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref a chynnig mynediad at gyfleusterau cymunedol a chwaraeon ar yr un sail â phlant ysgol.

Yn y canllawiau, caiff awdurdodau eu hannog i gynnig cymorth ymarferol, megis mynediad at wasanaeth cwnsela, adnoddau addysgol, a chanolfannau arholiadau, i helpu teuluoedd i ddarparu addysg addas. Dylai plant a addysgir yn y cartref hefyd gael mynediad at wasanaethau cymorth ieuenctid a gwasanaethau Gyrfa Cymru. Gall swyddogion awdurdodau lleol rannu gwybodaeth gyda gwasanaethau o'r fath, yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a'r Ddeddf Diogelu Data (2018) a dylent ystyried rhannu gwybodaeth lle bynnag y bo'n gyfreithlon i wneud hynny.

Noda'r canllawiau bod rhieni plant a addysgir yn y cartref yn gyfrifol am gostau arholiadau, ond disgwylir i awdurdodau lleol ddarparu mynediad i arholiadau Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC) mewn canolfannau a nodwyd ar gyfer ymgeiswyr allanol.

Mae'r canllawiau statudol yn pwysleisio pwysigrwydd cefnogi teuluoedd sy'n dewis addysgu yn y cartref, yn enwedig y rhai sydd â phlant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Mae'r canllawiau'n gosod disgwyliad ar awdurdodau lleol i gydweithio â theuluoedd i nodi a sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) briodol, fel yr amlinellir yng Nghynllun Datblygu Unigol (CDU) y plentyn. Rhaid i'r awdurdod lleol hefyd adolygu'r CDU yn rheolaidd o leiaf unwaith y flwyddyn i sicrhau bod y DDdY yn cael ei chyflwyno'n effeithiol ac yn diwallu anghenion y plentyn.

Noda'r canllawiau y dylai awdurdodau lleol sicrhau bod plant a addysgir yn y cartref sydd ag ADY yn derbyn cymorth wedi'i deilwra i ddiwallu eu hanghenion, a rhaid iddynt adolygu a monitro'n weithredol y ddarpariaeth ADY.

### 7.1.1. Cyllid ychwanegol i awdurdodau lleol

Bwriad y cyllid ychwanegol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol (a amlinellir yn adran 3.1.1 uchod) yw cryfhau capasiti swyddogion a darparu cymorth uniongyrchol i deuluoedd sy'n dewis addysgu eu plant yn y cartref. Darperir y cyllid er mwyn gwella lefelau staffio fel bod awdurdodau lleol yn gallu cyflawni eu dyletswyddau statudol yn well mewn perthynas â phlant a addysgir yn y cartref. Mae'r cyllid hefyd yn cydnabod bod teuluoedd yn wynebu costau wrth ddarparu adnoddau a chyfleoedd addysgol sydd fel arall ar gael mewn ysgolion. Felly mae gan awdurdodau lleol hyblygrwydd i ddefnyddio'r cyllid hwn i helpu i ddiwallu ystod eang o anghenion, a all gynnwys cymorth gyda chymwysterau,

dysgu'r Gymraeg, adnoddau a deunyddiau, offer dysgu digidol, llogi cyfleusterau ar gyfer gweithgareddau grŵp, a chyfleoedd cyfoethogi fel addysg awyr agored neu gerddoriaeth.

Mae telerau ac amodau'r cyllid yn nodi nad yw wedi'i fwriadu i ddisodli cyfrifoldeb rhieni i ddarparu addysg i'w plentyn, ac ni ddylid ei ddefnyddio at ddibenion nad ydynt yn gysylltiedig â dysgu. Mae telerau ac amodau'r cyllid ychwanegol yn ei gwneud yn glir na ddylid defnyddio'r arian i wneud taliadau uniongyrchol i deuluoedd.

## 7.2. Y graddau y mae'r canllawiau wedi darparu eglurder

Roedd gwahaniaeth barn rhwng yr awdurdodau lleol gyda thua'u hanner (10) yn nodi bod y canllawiau wedi darparu gwell eglurder o ran y cymorth y dylid ei gynnig i deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref, a'r hanner arall (9) yn nodi nad oedd wedi gwneud fawr ddim gwahaniaeth, os o gwbl.

Esboniodd y rhai a nododd fwy o eglurder fod y canllawiau'n amlinellu cyfrifoldebau awdurdodau lleol sy'n egluro'r cymorth y dylid ei gynnig i deuluoedd. Drwy nodi'r gofynion sylfaenol mae'n creu tryloywder sy'n ddefnyddiol i rieni yn ogystal â'r awdurdod lleol. Er enghraifft, pa hawliadau ariannol y gall teuluoedd eu gwneud. Nodwyd, er bod eglurder ynghylch y cyfrifoldeb i gefnogi dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, bod rhai awdurdodau lleol yn cael trafferth cyflawni hyn oherwydd diffyg darparwyr ac adnoddau eraill yn eu hardaloedd.

Y prif reswm dros ddweud nad yw'r canllawiau wedi gwella eglurder oedd bod yr awdurdodau lleol eisoes yn cyflawni popeth cyn i'r canllawiau gael eu cyflwyno, ac nid ychwanegwyd unrhyw gynnwys newydd. I rai, roedd hyn yn enghraifft o gyfuno arferion gorau ond i eraill roedd hyn yn cyfyngu ar ba mor ddefnyddiol yw'r canllawiau. Mynegwyd awydd am ganllawiau cryfach gyda mwy o fanylion gweithredol.

I'r lleiafrif, mae'r canllawiau wedi darparu awgrymiadau ar gyfer ffyrdd o ddarparu cymorth. Mewn un enghraifft, roedd y cyflwyno'r canllawiau'n cyd-daro â staff newydd yn dechrau yn eu swyddi, felly mae'r canllawiau wedi cael eu defnyddio'n helaeth i helpu i ailgynllunio systemau yn yr awdurdod lleol.

## 7.3. Sut y defnyddiwyd y cyllid ychwanegol

Dangosodd y cyfweliadau fod cyllid ychwanegol Llywodraeth Cymru ar gyfer teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref yn cael ei ddefnyddio mewn amrywiol ffyrdd ar draws awdurdodau lleol. Nodwedd ganolog yw'r grant uniongyrchol i ddysgwyr. Mae llawer o awdurdodau'n dosbarthu arian yn uniongyrchol i deuluoedd, yn aml yn flynyddol (fel arfer rhwng £100 a £250 fesul dysgwr). Fel arfer, mae teuluoedd yn gwneud cais am y cymorth hwn ac yn nodi sut y maent yn bwriadu gwario'r arian, a cheir hyblygrwydd i'w ddefnyddio ar gyfer arholiadau, gliniaduron neu lyfrau yn ôl eu disgresiwn.

Defnydd pwysig arall o'r cyllid oedd cymorth ar gyfer arholiadau a thiwtora. Yn aml, mae awdurdodau lleol yn cyfrannu at ffioedd arholiadau TGAU a ffioedd arholiadau eraill, ac mewn rhai achosion maent yn cefnogi tiwtora neu gyrsiau academaidd. Trefnir sesiynau tiwtora mewn grŵp ar gyfer Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth a phynciau eraill mewn

lleoliadau cymunedol, gan rieni neu weithiau gan y gymuned addysg ddewisol yn y cartref ei hun a thelir am hynny gan yr awdurdod lleol. Adroddwyd bod y ddarpariaeth hon wedi cael ei gwerthfawrogi'n fawr gan deuluoedd â dysgwyr hŷn sy'n paratoi ar gyfer cymwysterau ffurfiol.

Defnyddiwyd y cyllid yn helaeth hefyd ar gyfer adnoddau addysgol. Dywedodd awdurdodau lleol eu bod yn darparu eitemau fel pecynnau o ddeunyddiau ysgrifennu, cyfnodolion, bagiau adnoddau addas i oedran, tanysgrifiadau i Twinkl, a thalebau llyfrau (er enghraifft £40 fesul dysgwr). Mae'r adnoddau hyn yn cefnogi dysgu o ddydd i ddydd yn y cartref ac yn aml maent wedi'u teilwra i gam addysg ac anghenion y dysgwr.

Ffocws arall oedd gweithgareddau allgyrsiol a chyfoethogi. Mae teuluoedd wedi elwa o gyfleoedd hamdden a diwylliannol gan gynnwys gwersi nofio, cardiau campfa, sesiynau ysgol goedwig, canolfannau dysgu awyr agored fel Canolfannau Addysg Awyr Agored Nant BH a Phentre, yn ogystal â thocynnau mynediad ar gyfer sŵau, safleoedd Cadw, safleoedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ac ymweliadau â theatrau neu sinemâu. Mae awdurdodau hefyd yn defnyddio'r grant i ariannu sesiynau celfyddydau, ffotograffiaeth, drama a lles. Mae digwyddiadau cymdeithasol fel boreau coffi yn nodwedd arall, gan helpu i ddod â theuluoedd ynghyd, annog cymorth gan gyfoedion, a lleihau ynysu.

Mewn rhai ardaloedd, rhoddir blaenoriaeth i fynediad digidol. Mae'r cyllid wedi darparu Chromebooks neu gyfarpar TG arall i ddysgwyr oedd eu hangen, tra bod eraill wedi cael eu hannog i ddefnyddio hybiau a llyfrgelloedd i gael mynediad at blatfformau dysgu ar-lein.

Mae darpariaeth wedi'i thargedu hefyd ar gael ar gyfer cymorth gyda’r Gymraeg, ac mae rhai awdurdodau’n cynnig gweithdai a chyrsiau i helpu teuluoedd a dysgwyr i ymgysylltu â’r Gymraeg fel ail iaith.

Ar draws y holl ardaloedd, rhoddir pwyslais ar les a chymdeithasu. Dywedodd yr awdurdodau lleol eu bod wedi creu cyfleoedd i blant gymysgu â chyfoedion ac i deuluoedd gysylltu â'i gilydd, weithiau mewn partneriaeth â gwasanaethau lleol fel y gwasanaeth tân, yr heddlu neu erddi botanegol. Disgrifiwyd y gweithgareddau hyn gan awdurdodau lleol fel rhai sy'n llenwi bylchau mewn addysg ddewisol yn y cartref a adawyd gan ddarpariaeth mewn ysgolion ac sy'n cynnig amgylcheddau diogel a chefnogol i ddysgwyr.

Pwysleisiodd rhai awdurdodau lleol bwysigrwydd hyblygrwydd. Er bod rhai teuluoedd yn gwerthfawrogi cael eu cyfeirio at adnoddau cymunedol, mae'n well gan eraill gael annibyniaeth o ran y ffordd y maent yn defnyddio'r grant. Weithiau defnyddiwyd arolygon i gasglu adborth gan rieni ar flaenoriaethau ariannu, gan sicrhau bod y ddarpariaeth yn ymatebol i anghenion teuluoedd.

## 7.4. Gweithgareddau wedi'u trefnu ar gyfer teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref

Disgrifiodd yr ymatebwyr ystod o weithgareddau a drefnwyd i feithrin perthnasoedd cadarnhaol â theuluoedd sy'n addysgu yn y cartref. Yn gyffredinol, nod y rhain yw lleihau

ynysu, annog ymgysylltiad, a chreu cyfleoedd i staff gwrdd â theuluoedd mewn cyd-destunau cefnogol.

Gwneir defnydd helaeth o gyfleoedd hamdden a chwaraeon. Mae gwersi nofio am ddim yn arbennig o boblogaidd ac yn annog presenoldeb gan deuluoedd a fyddai fel arall yn osgoi cyswllt uniongyrchol. Mae awdurdodau eraill yn trefnu diwrnodau rygbi, diwrnodau chwaraeon, cardiau gweithgareddau hamdden a mynediad i gampfeydd. Dull gwerthfawr arall yw dysgu yn yr awyr agored, gydag ysgolion coedwig, ysgolion traeth ac ymweliadau â ffermydd yn cael eu hystyried yn ffyrdd effeithiol o ymgysylltu â phlant.

Mae cyfleoedd creadigol a diwylliannol hefyd yn gyffredin. Mae'r rhain yn cynnwys celf a chrefft, ffotograffiaeth, prosiectau gwyddoniaeth, coginio, drama, sgiliau syrcas, ac ymweliadau gan awduron. Ymysg enghreifftiau eraill mae TG ac arddangosfeydd a sesiynau cerddoriaeth neu saethyddiaeth.

Disgrifiwyd gweithgareddau cymdeithasol a chymunedol fel boreau coffi a sesiynau galw heibio fel rhai a oedd yn darparu amgylchedd hamddenol i deuluoedd gwrdd â swyddogion. Dywedodd yr awdurdodau fod y dulliau anffurfiol hyn yn fwy effeithiol nag ymweliadau cartref o ran helpu i chwalu rhwystrau.

Roedd effaith gweithgareddau o'r fath yn gadarnhaol ar y cyfan. Yn aml, byddai plant yn mynychu digwyddiadau hyd yn oed pan oedd rhieni'n gwrthod ymweliadau, gan ddarparu cyfleoedd anffurfiol i staff eu gweld a lleihau pryderon ynghylch ynysu a diogelu. Dywedwyd hefyd bod gweithgareddau wedi'u targedu yn helpu i wella ymgysylltiad â chymunedau penodol, fel cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.. Yn aml, byddai ymddiriedaeth yn cael ei chryfhau pan fyddai teuluoedd yn dod ar draws staff yr awdurdod lleol mewn lleoliadau anffurfiol neu gymunedol.

Mae heriau'n parhau, gan gynnwys presenoldeb anghyson gan deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref mewn sesiynau a drefnir gan yr awdurdod lleol, sy'n ei gwneud yn anodd meithrin rapport a pherthnasoedd, prinder cyllid, a gwrthwynebiad gan rai teuluoedd. Fodd bynnag, ystyriwyd mai dulliau cynhwysol sy'n seiliedig ar weithgareddau, a ddarperir yn aml mewn partneriaeth â gwasanaethau lleol fel y gwasanaeth tân, llyfrgelloedd a chlybiau ieuenctid, oedd y rhai mwyaf effeithiol.

## 7.5. Ceisiadau am gymorth ar gyfer ADY

Dywedodd awdurdodau lleol fod llawer o rieni sy'n addysgu yn y cartref wedi gofyn am asesiadau ar gyfer ADY. Roedd y ceisiadau hyn yn gyffredin ar draws ardaloedd awdurdodau lleol ac yn cwmpasu ystod eang o anghenion, yn enwedig awtistiaeth, anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD), anawsterau cyfathrebu cymdeithasol, gorbryder ac osgoi'r ysgol oherwydd emosiynau.

Yn gyffredinol, mae awdurdodau lleol yn dilyn yr un gweithdrefnau ag ar gyfer disgyblion ysgol, sy'n aml yn cynnwys cyfarfodydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, paneli ADY, neu atgyfeiriadau uniongyrchol at dimau ADY a gwasanaethau eraill fel Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) neu wasanaethau seicoleg addysg. Mewn un ardal mae swyddogion addysg ddewisol yn y cartref yn gymwys i gynnal

adolygiadau CDU eu hunain, tra bod ardaloedd eraill yn cydweithio'n agos â swyddogion ADY drwy gyfarfodydd ar y cyd rheolaidd neu waith achos a rennir.

Nododd sawl awdurdod fod rhai rhieni wedi tynnu eu plant o'r ysgol yn rhannol oherwydd nad oedd eu hanghenion ADY yn cael eu diwallu neu nad aed i'r afael â nhw yn ddigon cyflym, a bod addysg ddewisol yn y cartref weithiau'n cael ei gweld fel ffordd o gyflymu mynediad at benderfyniadau ADY neu leoliadau arbenigol. Er y gallai hyn fod wedi rhoi mynediad cyflymach i deuluoedd at gymorth gan “nad oes rhaid i deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref ddarparu’r un dystiolaeth ag y mae'n rhaid i ysgolion ei darparu ac maent yn cael asesiad ar unwaith fwy neu lai – eu nod yw cael lle i'w plentyn mewn ysgol arbenigol”, roedd hefyd yn rhoi straen ychwanegol ar wasanaethau ADY.

Disgrifiodd yr awdurdodau'r manteision a'r heriau a oedd yn deillio o'r ceisiadau hyn. Mewn rhai achosion, roedd asesiadau ADY a CDUau yn creu cyfleoedd i ddysgwyr ymgysylltu ag addysg unwaith eto, cael mynediad at gyrsiau wedi'u teilwra, neu ddechrau ystyried llwybrau gyrfa. Cafodd perthnasoedd cadarnhaol eu cryfhau pan oedd teuluoedd yn teimlo bod eu pryderon yn cael eu cydnabod. Fodd bynnag, roedd pryder hefyd nad oedd CDUau ar gyfer dysgwyr a addysgir yn y cartref bob amser yn cael eu monitro na'u gweithredu'n effeithiol, gan godi cwestiynau am eu heffaith. Roedd y ffaith bod yr adnoddau'n gyfyngedig a'r galw'n fawr yn rhoi pwysau ychwanegol, a phwysleisiodd rhai awdurdodau'r angen am ganllawiau cenedlaethol cliriach i ddatrys anghysondebau rhwng deddfwriaeth addysg ddewisol yn y cartref a deddfwriaeth ADY.

## 7.6. Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol

Mae gwaith maes gydag awdurdodau lleol yn awgrymu bod y ffordd y trefnir DDdY priodol ar gyfer dysgwyr a addysgir yn y cartref yn amrywio'n fawr ond fel arfer mae'n cynnwys cydweithio'n agos â thimau ADY. Mewn llawer o achosion, mae rhieni'n darparu'r rhan fwyaf neu'r cyfan o'r ddarpariaeth eu hunain, gyda'r awdurdod yn ymyrryd dim ond pan fo angen mwy o fewnbwn arbenigol.

Esboniodd nifer o awdurdodau fod DDdY yn cael ei nodi drwy'r broses CDU, a reolir yn aml gan baneli ADY neu gyfarfodydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Lle y nodir bod gan blentyn ADY, mae seicolegwyr addysg yn cynnal asesiadau ac yn gwneud argymhellion sydd wedyn yn cael eu hystyried gan baneli ALl i benderfynu ar y DDdY fwyaf priodol. Fel arfer, mae'r timau ADY yn arwain y broses hon gyda mewnbwn gan y tîm addysg ddewisol yn y cartref. Mae'r mecanweithiau hyn yn sicrhau goruchwyliaeth, er bod y cyfrifoldeb fel arfer yn nwylo'r rhieni unwaith y bydd plentyn yn cael ei addysgu gartref.

Lle na all rhieni ddarparu digon o DDdY, gall awdurdodau lleol awgrymu Addysg Heblaw yn yr Ysgol (AHY) yn hytrach nag addysg ddewisol yn y cartref. Disgrifiwyd DDdY bosibl arall fel darpariaeth ddysgu a ddarperir drwy Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCD), unedau Anhwylder Sbectrwm Awtistig (ASD), unedau ffobig, unedau ymddygiad emosiynol, tiwtora gartref a chefnogaeth gan CAMHS. Disgrifiodd ambell un wasanaethau ychwanegol a oedd ar gael yn uniongyrchol i deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref gan gynnwys therapi lleferydd ac iaith wedi'i deilwra na allai rhieni ei ddarparu eu hunain, defnyddio cynorthwywyr

personol neu ddarpariaeth yn y cartref, a nyrs bwrpasol a oedd ar gael i ddisgyblion a addysgir yn y cartref.

Disgrifiodd ambell awdurdod lleol broses fwy strwythuredig neu ffurfiol. Mewn un awdurdod, mae seicolegwyr addysg yn gwneud penderfyniadau ynghylch ADY i lywio penderfyniadau panel ar leoliadau addas. Mewn ardal arall, mae panel addysg ddewisol yn y cartref pwrpasol wedi'i sefydlu i adolygu ceisiadau am DDdY, gan adlewyrchu'r galw cynyddol a'r angen am oruchwyliaeth gyson.

Roedd yr awdurdodau'n cytuno bod prosesau clir a chydweithio cryf ar draws timau yn hanfodol, ond yn cydnabod hefyd fod y ddarpariaeth yn anghyson ac, mewn rhai achosion, yn gyfyngedig.

## 7.7. Mynediad at wasanaeth cwnsela

Disgrifiodd awdurdodau lleol brofiadau cymysg teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref a oedd yn gofyn am fynediad at wasanaethau cwnsela. Mewn lleiafrif o ardaloedd, nid oedd rhieni wedi gwneud ceisiadau o'r fath neu roedd y nifer a fanteisiodd ar wasanaethau o'r fath yn fach iawn. Yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol eraill, gwnaed atgyfeiriadau at wasanaethau cwnsela yn y gymuned neu yn yr ysgol pan nodwyd anghenion.

Mae amrywiaeth o lwybrau i wasanaethau cwnsela. Gall disgyblion a addysgir yn y cartref fod yn gymwys i gael gwasanaeth cwnsela cyffredinol yn yr ysgol, hyd yn oed os nad ydynt wedi cofrestru mewn ysgol. Weithiau mae teuluoedd wedi cael eu hatgyfeirio at wasanaethau cymunedol neu wirfoddol, gan gynnwys Barnardo's, Sandy Bear, Mind Conwy, a CAMHS. Mae rhai ardaloedd yn galluogi pobl i hunangyfeirio'n uniongyrchol drwy gynlluniau cwnsela cymunedol. Mae eraill yn dibynnu ar atgyfeiriad gan feddyg teulu fel y prif lwybr.

Roedd un awdurdod lleol wedi datblygu trefniadau wedi'u targedu, gan ddarparu cwnselwyr addysg ddewisol yn y cartref dynodedig, ac roedd hefyd yn gweithio gyda thimau iechyd cyhoeddus i gynnig gwybodaeth am bynciau lles ehangach. Roedd un arall wedi sefydlu ffrwd gwnsela bwrpasol ar gyfer plant a addysgir yn y cartref ac wedi cysylltu hyn yn agos â'u tîm lles emosiynol, gan sicrhau goruchwyliaeth gyson.

Roedd y dystiolaeth o'r effaith yn gymysg. Soniodd ambell awdurdod am ganlyniadau cadarnhaol, gan nodi plant a oedd wedi elwa o sesiynau rheolaidd neu a gafodd gymorth i reoli galar ac anawsterau emosiynol. Fodd bynnag, dywedodd y rhan fwyaf nad oedd canlyniadau'n cael eu monitro'n systematig a dim ond yn anuniongyrchol y clywyd amdanynt, yn aml yn ystod adolygiadau blynyddol neu drwy drafodaethau panel.

## 7.8. Mynediad at gymorth ieuenctid

Dywedodd yr awdurdodau lleol fod mynediad eang at gymorth ieuenctid i ddysgwyr a addysgir yn y cartref, er bod y graddau yr oeddent wedi'u teilwra, yr allgymorth rhagweithiol a'r cysylltiad dilynol yn amrywio. Roedd y rhan fwyaf o ardaloedd awdurdodau lleol yn cyfeirio teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref at ddarpariaeth ieuenctid gyffredinol, tra bod

rhai wedi datblygu llwybrau pwrpasol i leihau ynysu, cefnogi lles a chynllunio trefniadau pontio ôl-16.

Dywedodd sawl awdurdod eu bod yn cynnig gweithgareddau pwrpasol neu wedi'u haddasu ar gyfer dysgwyr a addysgir yn y cartref. Trefnodd un grwpiau ieuenctid penodol i blant a addysgir yn y cartrefa chludiant er mwyn ehangu mynediad. Sefydlodd un arall brosiectau pwrpasol fel Thrive a Seren a hyrwyddo siediau ieuenctid yn ystod y dydd ar gyfer dysgwyr sy'n pryderu am leoliadau prysur. Tynnodd un sylw at gynllun mentora digidol, grwpiau Discord, clybiau Free2Bee ar gyfer dysgwyr pryderus, mentora un-i-un ac arweiniad ar y cyfnod pontio. Roedd un arall yn atgyfeirio dysgwyr Blwyddyn 11 at y gwasanaeth ôl-16 Iechyd Da, gan ddarparu cyngor ar les ac iechyd ochr yn ochr ag ymgysylltiad ysgafn fel teithiau cerdded â chymorth. Defnyddiodd un awdurdod grwpiau cymorth lles, a gwasanaeth cyfeirio i bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsryweddol, cwiar neu'r rhai sy'n cwestiynu eu rhywedd (LHDTC+), gan gydlynu ag Inspire a Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid.

Roedd y rhan fwyaf o ardaloedd eraill yn gwneud defnydd systematig o wasanaethau cyffredinol a phartneriaethau lleol. Cyfeiriodd un at wasanaethau cyfiawnder ieuenctid, iechyd emosiynol, cyngor 16+, timau digartrefedd a Gyrfa Cymru fel gwasanaethau a gynigir yn gyson. Disgrifiodd eraill gyswllt rheolaidd ag arweinwyr ieuenctid neu dimau cynnydd ac at rannu cyfleoedd ôl-16 yn rheolaidd. Roedd awdurdod arall yn trosglwyddo dysgwyr o Flwyddyn 11 sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) i'r tîm ôl-16 ac yn trafod cymorth gan golegau i'r rhai â CDU. Defnyddiodd eraill gylchlythyrau i roi gwybodaeth i deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref, a oedd yn cynnwys cysylltiadau uniongyrchol yn nhimau nyrsio ysgolion lle y bo'n berthnasol. Anfonodd un awdurdod e-bost at bob teulu am wasanaethau cyffredinol ond nododd bod ansicrwydd ynghylch y nifer a oedd yn eu defnyddio. Roedd un arall yn cynnig cymorth ieuenctid mynediad agored, gweithgareddau pontio wedi'u targedu, a chyflwyniadau graddol i ddysgwyr pryderus. Dywedodd un awdurdod ei fod yn trefnu calendrau gweithgareddau wedi'u cydlynu gyda phennaeth y gwasanaethau ieuenctid.

Roedd rhai cyfyngiadau'n parhau. Dywedodd un awdurdod mai prin oedd y galw am gymorth ieuenctid gan deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref. Tynnodd un arall sylw at gyfyngiadau ar gapasiti allgymorth a'r angen i amddiffyn dysgwyr a addysgir yn y cartref rhag dod yn NEET.

## 7.9. Cymorth gan wasanaethau gyrfaoedd

Cyfeiriodd bron pob awdurdod lleol yn gyson at Gyrfa Cymru fel y prif lwybr ar gyfer cynllunio ôl-16 ar gyfer dysgwyr a addysgir yn y cartref, yn enwedig ym Mlynyddoedd 10 ac 11, er bod yr ymarfer yn cael ei ddylanwadu gan reolau cydsynio a dolenni adborth amrywiol.

Roedd yr awdurdodau lleol yn defnyddio sianeli lluosog i sicrhau bod teuluoedd yn ymwybodol o gymorth gyrfaoedd. Roedd y rhain yn cynnwys cylchlythyrau, pecynnau addysg ac e-byst uniongyrchol, a oedd yn aml wedi'u hamseru i gyd-daro â chyfnodau pontio Blwyddyn 11. Roedd llawer o dimau’n cadw cysylltiad rheolaidd â chynghorwyr lleol Gyrfa Cymru neu’n cynnal cyfarfodydd tymhorol i adolygu dysgwyr heb gyrchfannau. Lle y

cafwyd cydsyniad, rhannwyd manylion â Gyrfa Cymru er mwyn ei alluogi i gysylltu'n uniongyrchol â theuluoedd; fel arall, gofynnwyd i deuluoedd atgyfeirio eu hunain.

Mewn sawl ardal, roedd dysgwyr Blwyddyn 11 yn cael apwyntiad gwarantedig neu'n cael cynnig apwyntiad gyda Gyrfa Cymru fel mater o drefn. Darparwyd cymorth wedi'i dargedu i'r rhai sydd mewn perygl o ddod yn NEET drwy brosiectau cysylltiedig fel Ysbrydoli i Gyflawni, Cynnydd a Gwasanaethau Ymgysylltu ag Ieuenctid. Dywedodd un ardal fod ganddi drefniadau pontio estynedig i golegau ar gyfer dysgwyr a addysgir yn y cartref, gan gynnwys dyddiadau dechrau fesul cam ac asesiad cynnar o barodrwydd cymdeithasol. Nododd awdurdod arall fod ganddo swyddog addysg ddewisol yn y cartref ymroddedig wedi'i leoli yn swyddfa Gyrfa Cymru. Roedd eraill yn monitro cyrchfannau i sicrhau bod diffyg ymgysylltiad yn ddewis gwybodus yn hytrach na bwlch yn y gefnogaeth.

Fodd bynnag, dywedodd yr awdurdodau lleol fod cyfyngiadau ar rannu data yn her gyffredin. Ni allai sawl awdurdod drosglwyddo manylion heb gael cydsyniad penodol, ac roedd hynny'n cyfyngu ar olrhain canlyniadau a chyswllt dilynol systematig. Roedd ansawdd y gwasanaeth hefyd yn anghyson mewn mannau; soniodd un am ymateb gwael gan gyswllt pwrpasol gan ddweud ei fod yn disgwyl gweld gwelliant ers penodi cynghorydd newydd, a gofynnodd un arall am fwy o allgymorth gweithredol na dim ond llythyrau safonol.

## 7.10. Cymorth gydag arholiadau

Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cydnabod pwysigrwydd arholiadau, yn enwedig arholiadau TGAU, ond roedd y dulliau'n amrywio o ran cyllid, canolfannau, byrddau arholi a threfniadau mynediad.

Roedd sawl awdurdod wedi sefydlu canolfannau arholi pwrpasol. Ymysg yr enghreifftiau roedd y defnydd o UCDau neu ganolfannau arbenigol. Roedd un ardal wedi elwa o gael ysgol uwchradd gydweithredol a gynhaliodd arholiadau heb godi tâl ar ddisgyblion a addysgir yn y cartref y tu hwnt i ffioedd gweinyddol megis cofrestru ar gyfer arholiadau. Mewn achosion eraill, defnyddiwyd colegau lleol, neu roedd partneriaethau newydd yn cael eu datblygu, a chadarnhaodd un awdurdod fod ganddo ganolfan ar gyfer cynnal arholiadau o 2025 ymlaen. Lle nad oedd darpariaeth leol yn bosibl, cyfeiriwyd teuluoedd at ysgolion neu ganolfannau preifat, weithiau y tu allan i'r sir.

Gwelwyd yr amrywiad mwyaf yn y trefniadau cyllido. Dywedodd un awdurdod ei fod yn cynnig hyd at £600 fesul dysgwr i deuluoedd ar gyfer ffioedd arholiadau. Roedd un arall yn talu ffioedd mynediad ond y rhieni oedd yn talu am yr arholiadau eu hunain. Roedd rhai ardaloedd yn gwneud cyfraniadau rhannol, er enghraifft £250 fesul dysgwr, tra bod eraill yn dibynnu'n llwyr ar gyllid y rhieni. Roedd eraill yn codi ffioedd mynediad ar rieni ond ar gyfraddau nid-er-elw. Am y tro cyntaf erioed, bu'n rhaid i un awdurdod, a oedd yn wynebu niferoedd mawr yn y garfan bresennol, ddweud wrth deuluoedd na allai ariannu arholiadau, er iddo barhau i ddarparu lleoliadau, goruchwyliaeth, trefniadau mynediad ac asesiadau arbenigol.

Roedd mynediad at fyrddau arholi a phynciau yn anghyson. Er bod rhai awdurdodau lleol wedi cyfyngu'r ddarpariaeth i Fathemateg a Saesneg CBAC, roedd eraill hefyd yn cynnwys

Gwyddoniaeth neu ystod ehangach o bynciau ar draws nifer o fyrddau arholi fel Pearson, Edexcel ac IGCSEs. Pwysleisiodd yr awdurdodau lleol fod hyblygrwydd lle bo modd, er bod cyfyngiadau ymarferol yn aml yn cyfyngu ar yr ehangder.

Roedd cymorth i ddysgwyr yr oedd angen trefniadau mynediad arnynt ar waith mewn llawer o awdurdodau. Roedd enghreifftiau'n cynnwys darparu ysgrifenyddion, amser ychwanegol a goruchwyliaeth gartref lle bo angen. Cynigiodd eraill deithiau o amgylch ystafelloedd arholiadau a chyfarfodydd cyn arholiadau er mwyn lleihau gorbryder. Roedd un awdurdod lleol wedi hyfforddi staff Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol fel goruchwylwyr arholiadau i ddarparu parhad a sicrwydd.

## 7.11. Ymholiadau gan grwpiau addysg yn y cartref

Dywedodd yr awdurdodau lleol fod amrywiad eang yng nghwmpas a natur ymholiadau gan grwpiau addysg ddewisol yn y cartref ynghylch y canllawiau statudol. Mewn rhai ardaloedd, roedd yr ymgysylltiad yn fach iawn neu'n gwbl absennol, gydag ambell ymholiad ffurfiol neu ddim o gwbl. Dywedodd eraill iddynt gael symiau sylweddol o ohebiaeth, a oedd yn aml yn gyfreithiol neu'n gynhennus eu natur.

Y math mwyaf cyffredin o gyswllt oedd negeseuon e-bost hirfaith neu geisiadau Rhyddid Gwybodaeth, a anfonwyd yn ddienw weithiau neu fel rhan o ymgyrchoedd cydgysylltiedig. Esboniodd yr awdurdodau y gallai hyn fod yn llafurus, yn ailadroddus, neu'n wrthwynebus ei natur.

Pwysleisiodd llawer o awdurdodau effaith negyddol y rhyngweithiadau hyn ar les a chapasiti staff. Dywedodd swyddogion mewn un ardal fod tôn ac amseriad yr ymholiadau wedi cael effaith uniongyrchol ar eu morâl, yn enwedig pan oeddent yn cyrraedd ar ddiwedd y tymor. Tynnodd un arall sylw at y ffaith bod grwpiau wedi'u trefnu yn huawdl, bod ganddynt lawer o adnoddau, a'u bod yn ddylanwadol o ran annog teuluoedd i ymddieithrio o gymorth yr awdurdod lleol. Pwysleisiodd sawl awdurdod mai ychydig iawn o fudd sy'n deillio o ymateb i ymgyrchoedd ar y cyd fel arfer a'u bod yn dargyfeirio amser oddi wrth weithio'n uniongyrchol gyda theuluoedd.

Ar yr un pryd, cydnabuwyd bod llawer o deuluoedd unigol yn parhau i fod yn adeiladol ac yn barod i ymgysylltu. Nododd rhai awdurdodau fod teuluoedd wedi ymbellhau oddi wrth grwpiau addysg ddewisol yn y cartref, gan deimlo nad oeddent yn cynrychioli eu buddiannau mwyach. Rhybuddiodd un yn erbyn rhagdybio bod y grwpiau yn codi llais yn adlewyrchu mwyafrif y teuluoedd, gan bwysleisio bod llawer yn fodlon cydweithredu â'r awdurdod lleol.

# 8. Casgliadau

Mae'r canllawiau wedi arwain at rai manteision o ran cefnogi awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas ag addysg ddewisol yn y cartref. Dywedodd sawl awdurdod lleol bod ganddynt fwy o eglurder a bod fframwaith safonedig ar waith gan amlygu pa mor ddefnyddiol oedd hynny o ran egluro prosesau gorchymyn mynychu'r ysgol a gwella addasrwydd templedi asesu addysg.

Fodd bynnag, mae hyn yn anghyson - dywedodd tua thraean o'r awdurdodau nad oedd y canllawiau statudol wedi gwneud fawr ddim gwahaniaeth ymarferol i'w dull gweithredu, naill ai oherwydd bod eu prosesau presennol eisoes yn cyd-fynd â'r canllawiau neu oherwydd yr ystyrir bod y canllawiau yn rhy amwys i newid arferion. At ei gilydd, mae'r canllawiau wedi egluro bwriad ond nid ydynt wedi newid arferion awdurdodau lleol mewn ffordd gyson nac wedi cryfhau dulliau gorfodi. Mae'r cyllid ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru wedi cynyddu capasiti awdurdodau lleol mewn sawl achos, ac mae awydd i weld trefniant ariannu hirdymor.

Dim ond 9 awdurdod lleol a nododd eu bod wedi cyflwyno newidiadau sylweddol neu raddol i brosesau ers mis Mai 2023 mewn ymateb i'r canllawiau statudol. Roedd yr enghreifftiau'n cynnwys adolygu polisïau lleol, defnyddio templedi Llywodraeth Cymru, sefydlu prosesau atgyfeirio newydd neu baneli addysg ddewisol yn y cartref, a chryfhau trefniadau gweithio amlasiantaethol. Fodd bynnag, adroddodd tua 10 awdurdod lleol am rai problemau ynghylch cyfynigadau’r canllawiau, gan amlygu pryderon ynghylch amwysedd neu wrthddweud canfyddiedig. Yn ogystal, nodwyd bod dibyniaeth y canllawiau ar gydweithrediad gwirfoddol gan deuluoedd i gwrdd â swyddogion addysg ddewisol yn y cartref yn cyfyngu ar y gallu i fonitro a darparu cefnogaeth effeithiol i bob plentyn sy'n cael ei addysgu yn y cartref.

At ei gilydd, nid yw'r dystiolaeth yn dangos bod y canllawiau statudol yn cael eu defnyddio'n llawn ac yn effeithiol gan bob awdurdod lleol. Er bod y canllawiau’n darparu fframwaith defnyddiol ac wedi ysgogi newidiadau sylweddol mewn rhai meysydd, mae'r defnydd ymarferol ohonynt yn anghyson gan ei fod yn dibynnu'n fawr ar adnoddau lleol, y dehongliad o'r canllawiau, a’r graddau y mae awdurdodau wedi ymgorffori’r canllawiau mewn prosesau lleol pendant.

Wrth ystyried i ba raddau y mae'r canllawiau statudol wedi bod yn effeithiol o ran cryfhau gallu awdurdodau lleol i 'weld' y plentyn yn y cartref, mae awdurdodau lleol yn cymeradwyo'r egwyddor hon ac yn pennu disgwyliad o gyswllt blynyddol fan leiaf. Fodd bynnag, mae llawer o awdurdodau lleol yn parhau i ddibynnu'n fawr ar feithrin perthnasoedd a lleoliadau cyfarfod a digwyddiadau amgen er mwyn gallu gweld y plentyn. Mae barn gref nad yw'r canllawiau wedi rhoi'r pŵer sydd ei angen ar awdurdodau lleol i orfodi rhieni i ddarparu mynediad at eu plentyn, ac mae llawer o awdurdodau lleol o'r farn bod y geiriad (e.e. defnyddio 'dylai' yn hytrach na 'rhaid') a diffyg pwerau statudol yn cyfyngu ar effeithiolrwydd y canllawiau o ran gwarantu cyswllt uniongyrchol â'r plentyn.

Nid yw ein hymchwil wedi datgelu tystiolaeth gref bod awdurdodau lleol wedi gallu gweld mwy o blant o ganlyniad i gyhoeddi'r canllawiau statudol newydd. Ceir adroddiadau am

gynnydd bach yng nghyfran y plant a welwyd mewn ambell awdurdod lleol ond mae'r cynnydd hwn i'w briodoli'n bennaf i ffactorau lleol megis mwy o staff, prosesau lleol newydd, neu drefnu digwyddiadau allgymorth yn hytrach na'r canllawiau eu hunain. Nid oes unrhyw effaith genedlaethol gyson y gellir ei phriodoli i'r canllawiau yn unig, a dywed llawer o awdurdodau lleol na fu dim newid neu bod y cynnydd yn niferoedd y plant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref yn golygu nad yw cyfran y plant nad ydynt yn cael eu gweld yn eu hardal wedi newid.

Wrth gymhwyso'r canllawiau statudol, dywed awdurdodau lleol iddynt gael rhai problemau cyffredin. Weithiau ystyrir bod y canllawiau'n amwys neu'n agored i ddehongliad (gan olygu eu bod yn cael eu cymhwyso'n anghyson ar draws awdurdodau lleol) – a darperir nifer o enghreifftiau penodol o hyn yn yr adroddiad drwyddo draw. Mae awdurdodau lleol hefyd yn teimlo bod diffyg pwerau cyfreithiol yn y canllawiau statudol pan fydd teuluoedd yn gwrthod cael cysylltiad â nhw. Mae ansicrwydd hefyd yn parhau ynghylch safonau'r dystiolaeth sydd ei hangen ac ynghylch priodoli gwaith i'r plentyn, a pha gamau pellach y dylai awdurdodau lleol eu cymryd mewn amgylchiadau lle mae amheuon ynghylch y dystiolaeth a ffynhonnell y gwaith. Yn aml, mae awdurdodau lleol hefyd yn amlygu cyfyngiadau ymarferol o ran capasiti yn gyffredinol (e.e., un swyddog yn gyfrifol am lwythi achosion mawr iawn sy'n cynyddu) sy'n golygu bod gweithredu'r canllawiau yn heriol. Nododd rhai awdurdodau lleol hefyd ddiffyg capasiti o fewn timau cyfreithiol i gyflwyno gorchmynion mynychu'r ysgol sy'n gwneud y broses yn un hirfaith sy'n gofyn am lawer o adnoddau. Mae'r cyswllt gwrthwynebol llafurus gan grwpiau wedi'u trefnu a'r pwysau ar adnoddau mewn perthynas â phrosesau gorchymyn mynychu'r ysgol/cyfreithiol hefyd yn cael eu hystyried yn heriau mewn rhai ardaloedd.

Lle mae awdurdodau lleol wedi cael problemau o ran cymhwyso'r canllawiau, maent wedi addasu eu prosesau gweithredol. Datgelodd y gwerthusiad hwn lawer o enghreifftiau o sut yr oedd awdurdodau lleol yn datrys y problemau hyn. Mae arferion addawol nodedig yn cynnwys:

- dulliau casglu data gwell (megis ffurflenni dadgofrestru ar-lein gorfodol i gasglu'r rhesymau dros ddadgofrestru, sy'n galluogi cyswllt dilynol wedi'i dargedu)
- dull blaenoriaethu yn seiliedig ar y system coch-melyn-gwyrdd i dargedu adnoddau cyfyngedig at achosion â risg uwch
- sefydlu paneli addysg ddewisol yn y cartref i wneud penderfyniadau mewn achosion cymhleth/gorchmynion mynychu'r ysgol
- defnyddio lleoliadau cymunedol niwtral a digwyddiadau cyfoethogi i annog presenoldeb ac i weld dysgwyr
- defnyddio cyllid Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y staff (yn rhannol)
- teilwra'r defnydd o grant Llywodraeth Cymru i greu swyddi addysg ddewisol yn y cartref pwrpasol ac i ddarparu cymorth i deuluoedd (grantiau dysgwyr, cyfarpar, gweithgareddau cymunedol).

Mae mesurau o'r fath wedi bod yn llwyddiannus mewn rhai ardaloedd - er enghraifft, dywedodd awdurdodau lleol fod gwell trefniadau ar gyfer casglu data, ymweliadau mwy amserol, ac ymgysylltiad gwell o ganlyniad i hynny, ond maent yn parhau i gael eu cyfyngu gan broblemau'n ymwneud â chapasiti a diffyg rhwymedigaethau gorfodadwy'n ymwneud â rhieni yn y canllawiau.

Cyflwynodd yr awdurdodau lleol nifer o awgrymiadau a chynigion ynghylch sut y gellid diwygio'r canllawiau i helpu i fynd i'r afael â rhai o'r materion a godwyd. Mae'r awgrymiadau'n cynnwys

- defnyddio iaith gadarnach (lle y bo'n briodol: 'rhaid'/bod yn gliriach ynghylch y disgwyliadau gan rieni)
- mwy o eglurder neu ddiffiniad gwell o'r hyn sy'n cael ei ystyried yn 'weld y plentyn' (e.e. digwyddiadau fideo/grŵp)
- gofynion statudol neu gliriach ar gyfer tystiolaeth gychwynnol wrth ddadgofrestru, disgwyliadau cryfach o ran amserlenni
- cofrestr statudol ar gyfer addysg ddewisol yn y cartref, gwahaniad cliriach rhwng dyletswyddau monitro addysg a dyletswyddau diogelu
- enghreifftiau ymarferol/templedi ar gyfer priodoli tystiolaeth a theuluoedd plant ag ADY. Mae llawer o awdurdodau lleol hefyd yn gofyn am fwy o gymorth cyfreithiol neu newid deddfwriaethol i ddarparu pwerau gorfodadwy lle bo angen.

Mae llawer o awdurdodau lleol hefyd yn gofyn am fwy o gymorth cyfreithiol neu newid deddfwriaethol i ddarparu pwerau gorfodadwy lle bo angen.

# 9. Argymhellion

Nod yr ymchwil hwn oedd archwilio effeithiolrwydd y canllawiau statudol ar addysg ddewisol yn y cartref, archwilio a oedd awdurdodau lleol yn ystyried bod eu sefyllfa o ran 'gweld' y plentyn wedi'i chryfhau o ganlyniad i'r canllawiau, ac ystyried a oedd angen gwneud unrhyw welliannau i'r canllawiau. Yn seiliedig ar ganfyddiadau a chasgliadau'r ymchwil, cynigir yr argymhellion canlynol.

**Argymhellion i Lywodraeth Cymru**

**Argymhelliad 1: Ystyried gwneud newidiadau statudol a blaenoriaethu mesurau wedi'u targedu lle mae tystiolaeth yn awgrymu bod angen eu cryfhau ymhellach.** Mae'r gwerthusiad hwn wedi dangos bod llawer o awdurdodau lleol yn ystyried mai diffyg gorfodaeth gyfreithiol yw'r prif rwystr i ddull cyson a digonol o wirio bod dysgwyr a addysgir yn y cartref yn derbyn addysg addas. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried ailedrych ar y mesurau statudol lle mae'r dystiolaeth yn dangos bod angen gwneud hynny. Dylai hyn gynnwys ystyried a oes angen dulliau statudol penodol

(a) i alluogi awdurdodau lleol i'w gwneud yn ofynnol i gyflwyno tystiolaeth gychwynnol wrth ddadgofrestru

(b) i greu cofrestr o blant a addysgir yn y cartref (neu ddull cofrestru cryfach) er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn gyson weladwy i wasanaethau

(c) i gyflwyno gorfodaeth gyfreithiol ar rieni i gytuno i adael i awdurdodau lleol weld y plentyn. Dylai unrhyw newid deddfwriaethol fod yn destun asesiad effaith cydraddoldeb/diogelu ac ymgynghoriad â rhanddeiliaid.

**Argymhelliad 2: Egluro a chryfhau geiriad y canllawiau er mwyn lleihau amwysedd.** Dylai Llywodraeth Cymru geisio cryfhau geiriad y canllawiau lle y bydd hynny'n gwella eglurder ac arferion. Dylai geiriad amwys fel 'dylai' gynnwys disgwyliadau cliriach lle y bo'n briodol (er enghraifft ynghylch cyswllt blynyddol ac amserlenni adrodd) gan amddiffyn hawliau cyfreithlon rhieni neu dylid cryfhau'r geiriad, os yn bosibl. Gellid ychwanegu tabl rhagair byr hefyd i wahaniaethu rhwng y rhannau o'r canllawiau sy'n ddyletswyddau cyfreithiol a'r rhannau sy'n gyngor neu'n arferion a awgrymir. Byddai hyn yn lleihau dehongliad anghyson ar draws awdurdodau lleol, yn cryfhau atebolrwydd, ac yn rhoi negeseuon cliriach i deuluoedd.

**Argymhelliad 3: Egluro'r canllawiau ar addasrwydd addysg a phriodoli tystiolaeth (gan gynnwys ADY).** Soniodd awdurdodau lleol am anawsterau wrth briodoli gwaith i'r plentyn a barnu pa mor ddigonol yw'r dystiolaeth. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau cliriach gan gynnwys diwygio Atodiad A ar asesu addasrwydd (gan gynnwys mewn perthynas â dysgwyr ag ADY) ac ar briodoli tystiolaeth ynghyd ag enghreifftiau ymarferol er mwyn lleihau anghydfodau ac i gynorthwyo awdurdodau i wneud penderfyniadau cyson. Dylid datblygu hyn

gyda mewnbwn gan ymarferwyr addysg ddewisol yn y cartref ac ADY yn ogystal ag arbenigwyr asesu. Dylai'r canllawiau ddarparu enghreifftiau ymarferol o dystiolaeth dderbyniol ar draws oedrannau (e.e. blynyddoedd cynradd neu TGAU) gan gynnwys yr hyn sy'n cael ei ystyried yn gynnydd amlwg dros amser. Gallai gynnwys astudiaethau achos byr sy'n dangos arferion da ar gyfer asesu llythrennedd a rhifedd ac ar gyfer priodoli gwaith i'r plentyn (e.e. tasgau byr yn ystod ymweliad, neu weithgareddau wedi'u recordio ar fideo lle y cydsyniwyd i hynny). Byddai hyn yn cynorthwyo swyddogion awdurdodau lleol (a theuluoedd) i feithrin cyd-ddealltwriaeth o ddarpariaeth addas, byddai'n lleihau amwysedd ynghylch yr hyn a ystyrir yn addysg 'addas ac effeithlon' ac yn lleihau anghysondeb a goddrychedd wrth ddehongli.

**Argymhelliad 4: Cryfhau'r broses o gyfathrebu gofynion y canllawiau presennol a'r gofynion ynghylch adrodd ar ddata er mwyn sicrhau dehongliad cyson o 'weld y plentyn a chyfathrebu ag ef'.** Er bod y canllawiau'n diffinio gweld y plentyn a chyfathrebu ag ef mewn cyfarfodydd i drafod addasrwydd addysg fel gweithgaredd sy'n digwydd ar-lein neu wyneb yn wyneb, mae'n ymddangos bod awdurdodau lleol yn dehongli ac yn cofnodi hyn mewn gwahanol ffyrdd. Felly, dylai Llywodraeth Cymru ystyried cryfhau ymhellach ei dulliau cyfathrebu mewn perthynas ag adrannau priodol o'r canllawiau a rhannu enghreifftiau o arferion da lle mae awdurdodau lleol wedi defnyddio'r cyllid i ddatblygu gweithgareddau sy'n darparu cyfleoedd pellach i swyddogion weld y plentyn a chyfathrebu ag ef. At hynny, dylai Llywodraeth Cymru geisio adolygu templedi adrodd am ddata i: egluro'r disgwyliadau ynghylch yr ystod o ddulliau derbyniol a'r dystiolaeth leiaf sydd ei hangen ym mhob achos, darparu enghreifftiau ymarferol o sut y dylid categoreiddio a chofnodi gwahanol fathau o ymgysylltu (e.e. ymweliad personol, cyfarfod ar-lein, arsylwi mewn gweithgaredd grŵp), ac annog cysondeb o ran y ffordd y caiff y data hyn eu casglu a sut yr adroddir arnynt ledled Cymru. Byddai hyn o gymorth i sicrhau mwy o gysondeb o ran arferion awdurdodau lleol, yn caniatáu cymharu a dadansoddi data yn fwy dibynadwy ac yn sicrhau bod yr hyblygrwydd a gynigir gan y dull presennol yn parhau i gael ei ddefnyddio mewn ffordd dryloyw ac effeithiol.

**Argymhelliad 5: Cynnal ac egluro'r trefniadau ariannu sy'n cefnogi meithrin capasiti o ran addysg ddewisol yn y cartref ac ymgysylltu â theuluoedd.** Nod y cyllid wedi'i dargedu gan Lywodraeth Cymru oedd gwella capasiti awdurdodau lleol yn y maes hwn wrth baratoi i weithredu'r canllawiau newydd. Wrth i'r gwaith o weithredu'r canllawiau statudol barhau, bydd yn bwysig cynnal y capasiti ychwanegol hwn ac osgoi colli arbenigedd neu fomentwm lle bo modd. O fewn cyfyngiadau cylchoedd ariannu blynyddol neu dymor byr, dylai Llywodraeth Cymru:

- barhau i gyfleu ei bwriadau cyllido yn glir ac yn amserol er mwyn bod o gymorth i awdurdodau lleol gyda chynllunio'r gweithlu
- darparu eglurhad wedi'i ddiweddaru ar ddefnydd cymwys ac anghymwys o gyllid addysg ddewisol yn y cartref (e.e. staff, hyfforddiant, cyfarpar, gweithgareddau cyfoethogi, ond heb gynnwys cymorth ariannol uniongyrchol i deuluoedd)

- annog awdurdodau lleol i gynllunio ar gyfer cynaliadwyedd swyddogaethau addysg ddewisol yn y cartref o fewn adnoddau craidd dros amser.

**Argymhelliad 6: Annog ymgysylltiad cynnar strwythuredig a rhannu gwybodaeth adeg dadgofrestru.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno disgwyliad bod rhieni'n darparu tystiolaeth gychwynnol adeg dadgofrestru. Gallai hyn fod ar ffurf pecyn dadgofrestru byr sy'n cynnwys cynllun addysg amlinellol. Dylid sicrhau bod ffurflen safonol ar gael i gefnogi cysondeb, a gellid treialu'r dull mewn nifer bach o awdurdodau cyn ystyried a ddylai fod yn fandadol. Byddai hyn yn cynorthwyo awdurdodau lleol i frysbennu achosion yn fwy effeithiol, blaenoriaethu cyswllt dilynol, a sicrhau bod ymgysylltu'n dechrau ar sail gwybodaeth glir am y ddarpariaeth arfaethedig.

**Argymhelliad 7: Rhannu ac ehangu arferion gorau.** Nododd awdurdodau lleol a ddefnyddiodd ddigwyddiadau cymunedol a lleoliadau niwtral a'r rhai a ddarparodd neu a ariannodd weithgareddau grŵp anstatudol iddynt gael mwy o lwyddiant o ran cael gweld y plentyn. Byddai rhannu'r arferion gorau hyn yn golygu bod modd ehangu gwelliannau isel eu cost. Dylai swyddogion addysg ddewisol yn y cartref mewn awdurdodau lleol barhau i annog y defnydd o offer ymgysylltu ymarferol ac arferion gorau mewn digwyddiadau allgymorth a chyfoethogi. Gellid datblygu pecyn cymorth ymgysylltu a fyddai'n cynnwys dulliau y gwyddys eu bod yn llwyddiannus (boreau coffi, gweithdai gwyddoniaeth, sesiynau cymunedol, cysylltiadau ar garreg y drws/cysylltiadau byr) a darparu cronfa fach i awdurdodau lleol sy'n dymuno rhoi cynnig ar ddulliau allgymorth creadigol yn ogystal â'r hyn sydd eisoes yn cael ei ddarparu.

**Argymhellion ar gyfer awdurdodau lleol**

**Argymhelliad 8: Cryfhau capasiti addysg ddewisol yn y cartref a chynllunio wrth gefn i gyflawni dyletswyddau statudol.** O ystyried y twf parhaus mewn addysg ddewisol yn y cartref ledled Cymru, rhaid i awdurdodau lleol gael digon o gapasiti i gyflawni eu dyletswydd statudol i sicrhau bod pob plentyn o oedran ysgol gorfodol yn cael addysg addas ac effeithlon. Er mwyn cyflawni hyn, dylai awdurdodau lleol:

- gynnal adolygiadau rheolaidd o lefelau staffio a llwyth achosion i sicrhau bod llwythi gwaith yn hylaw ac yn gymesur â'r niferoedd a addysgir yn y cartref, a phennu meincnodau llwyth achosion dangosol (e.e. ni ddylai un swyddog fod yn gyfrifol am fwy na *X* achos)
- darparu cymorth gweinyddol priodol er mwyn galluogi swyddogion i ganolbwyntio ar ymgysylltu ac asesu
- defnyddio cyllid ychwanegol Llywodraeth Cymru i wella eu capasiti presennol a pharatoi achosion busnes i gynnal rolau hanfodol os bydd cyllid allanol yn dod i ben

- ystyried trawshyfforddi staff addysg ddewisol yn y cartref a staff ADY er mwyn lleihau dibyniaeth ar swyddogion unigol a sicrhau parhad yn ystod absenoldeb neu drosiant staff.

Byddai hyn yn helpu i sicrhau y gall awdurdodau lleol barhau i gyflawni eu cyfrifoldebau cyfreithiol yn effeithiol, byddai'n darparu cefnogaeth gyson i deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref, ac yn ymateb i'r galw cynyddol mewn ffordd gynaliadwy.

**Argymhelliad 9: Defnyddio data yn rhagweithiol i nodi a dadansoddi tueddiadau.** Datgelodd yr ymchwil enghreifftiau cadarn o awdurdodau lleol yn trin data am addysg ddewisol yn y cartref fel offeryn gweithredol ar gyfer cynllunio a herio gwasanaethau, yn hytrach na gofyniad adrodd yn unig. Rydym yn argymell y dylai pob awdurdod lleol fabwysiadu'r math hwn o ymarfer yn y dyfodol. Dylai hyn gynnwys dadansoddi data dadgofrestru a llwyth achosion fel mater o drefn yn ôl ysgol, grŵp blwyddyn (gan amlygu Blynyddoedd 10–11), statws ADY, a daearyddiaeth i nodi tueddiadau a mannau lle ceir problemau. Dylai adroddiadau rheolaidd (yn ddelfrydol bob chwarter) sy'n rhoi mewnwelediadau o addysg ddewisol yn y cartref gael eu bwydo i uwch reolwyr a thimau gwella ysgolion er mwyn defnyddio'r canfyddiadau i dargedu allgymorth, herio ymarfer mewn ysgolion lle bo angen, a chynllunio gwasanaethau.

**Argymhelliad 10: Cryfhau'r disgwyliadau o ran ymgysylltu'n gynnar a pharhaus â theuluoedd sy'n addysgu yn y cartref a chyfathrebu'n uniongyrchol â'r plentyn**. Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod ymgysylltiad cynnar a pharhaus â theuluoedd sy'n addysgu yn y cartref yn amserol, yn gymesur, ac yn canolbwyntio ar y plentyn, yn unol â chanllawiau statudol.

- Adeg dadgofrestru, dylai awdurdodau lleol gwrdd â theuluoedd i drafod y trefniadau addysg arfaethedig ac i ddarparu gwybodaeth glir am gyfrifoldebau rhieni. Dylai'r ymgysylltiad cychwynnol hwn, lle bynnag y bo modd, gynnwys cyfathrebu'n uniongyrchol â'r plentyn i helpu i feithrin dealltwriaeth sylfaenol o'i addysg a'i les.
- Dylai gwaith ymgysylltu parhaus barhau i flaenoriaethu rhyngweithio'n uniongyrchol â'r plentyn, fel arfer drwy gyswllt wyneb yn wyneb neu gyswllt rhithwir byw sy'n cynnwys cyfranogiad gweithredol gan y plentyn. Lle nad yw hyn yn bosibl ar unwaith, dylai awdurdodau lleol osod amserlenni diffiniedig ar gyfer dilyniant, cofnodi'r rhesymau dros ddefnyddio dulliau amgen, a defnyddio lleoliadau niwtral neu grwpiau i hwyluso arsylwi lle y bo'n briodol.

Byddai disgwyliadau clir o'r fath yn cefnogi cysondeb ledled Cymru, yn sicrhau bod yr ymgysylltu'n ystyrlon ac yn canolbwyntio ar y plentyn, ac yn helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau i asesu addasrwydd addysg mewn ffordd gymesur a chefnogol.

**Argymhelliad 11: Mabwysiadu dull 'goruchwyliaeth gan banel' ar gyfer penderfyniadau cymhleth.** Lle nad ydynt yn gwneud hynny ar hyn o bryd, dylai awdurdodau lleol geisio mabwysiadu dull goruchwyliaeth gan banel a'i ddefnyddio i adolygu addasrwydd yn rhagweithiol a phenderfynu a ddylid cychwyn camau

gorchymyn mynychu'r ysgol, gan ddileu'r cyfrifoldeb i un swyddog wneud penderfyniadau. Er mwyn gwireddu hyn, dylai awdurdodau lleol geisio sefydlu a gweithredu panel amlddisgyblaethol. Fan leiaf, dylai'r aelodau gynnwys arweinydd addysg ddewisol yn y cartref, arweinydd ADY, swyddog diogelu, seicolegydd addysg (lle yr amheuir bod gan y plentyn ADY) a chynghorydd cyfreithiol. Dylai fod gan y panel gylch gorchwyl wedi'i ddiffinio'n glir, trothwyon o ran gwneud penderfyniadau, profiad o ddatblygiad plant a monitro cynnydd dysgwyr i gefnogi asesiad o dystiolaeth, a chofnod ysgrifenedig o drafodaethau a chamau gweithredu'r panel. Dylai'r panel gyfarfod yn rheolaidd a gallu ymgynnull ar frys ar gyfer achosion risg uchel.

**Argymhelliad 12: Dilyn canllawiau gorchymyn mynychu'r ysgol presennol a sicrhau bod materion yn cael eu huwchgyfeirio'n amserol a chyson**. Dylai pob awdurdod lleol benderfynu pwy sy'n gyfrifol am gyflwyno gorchymyn mynychu'r ysgol (h.y. y Gwasanaeth Lles Addysg neu'r tîm addysg ddewisol yn y cartref) a sicrhau eu bod yn cadw at y canllawiau statudol ar orchmynion mynychu'r ysgol, gan ddilyn yr amserlenni a'r gweithdrefnau uwchgyfeirio a amlinellir yn y Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan. Gallai awdurdodau lleol ddefnyddio'r panel amlddisgyblaethol a awgrymir yn Argymhelliad 12 uchod i adolygu a chymeradwyo'r cynigion SAO er mwyn sicrhau cadernid cyfreithiol a chysondeb wrth wneud penderfyniadau.

**Argymhelliad 13**: **Mabwysiadu technegau ymarferol, sy'n sensitif i deuluoedd, i gryfhau'r dystiolaeth o ddysgu addas a meithrin perthnasoedd adeiladol â theuluoedd sy'n addysgu eu plant yn y cartref.** Dylai swyddogion awdurdodau lleol barhau i ddefnyddio tasgau asesu byr yn ystod ymweliadau, a hynny'n rheolaidd, a threfnu arsylwadau mewn lleoliadau niwtral neu mewn grwpiau bach er mwyn gweld y plentyn yn dysgu. Lle bo modd, dylai swyddogion addysg ddewisol yn y cartref ofyn am recordiadau â stamp amser arnynt neu am gadarnhad gan diwtoriaid, arweinwyr grŵp neu drydydd partïon eraill i ddilysu bod y gwaith yn waith a gwblhawyd gan y plentyn. Dylai awdurdodau lleol gynnig mannau cyfarfod niwtral yn rhagweithiol a threfnu digwyddiadau allgymorth mewn partneriaeth â sefydliadau gwirfoddol a chymunedol er mwyn lleihau cyfarfodydd gwrthwynebol ac annog ymgysylltiad parhaus.

# Atodiad A: Canllaw trafod ar gyfer cyfweliadau â swyddogion arweiniol addysg ddewisol yn y cartref awdurdodau lleol

## Cyflwyniad

1. Dywedwch wrthyf am eich rôl a'ch ymwneud ag addysg ddewisol yn y cartref yn eich awdurdod lleol
    - *(Os yn swyddog addysg ddewisol yn y cartref)* Holwch am: eu cefndir cyn dod yn swyddog addysg ddewisol yn y cartref
    - *(Os yn swyddog addysg ddewisol yn y cartref) Holwch am: unrhyw dasgau/rolau eraill ochr yn ochr â chyfrifoldebau addysg ddewisol yn y cartref*

## Cefndir

2. Pwy sy'n gyfrifol am arwain polisi addysg ddewisol yn y cartref a gweithgareddau cysylltiedig yn eich awdurdod lleol?
    - Beth yw'r strwythur staffio ar gyfer cefnogi polisi addysg ddewisol yn y cartref yn yr awdurdod lleol?
    - Beth yw cyfanswm y staff cyfwerth ag amser llawn sy'n gweithio ar bolisi addysg ddewisol yn y cartref ac yn cynnal ymweliadau â dysgwyr a addysgir yn y cartref a'u teuluoedd?
    - Beth yw'r trefniadau rheolwyr llinell a'r broses atebolrwydd ar gyfer gwneud penderfyniadau sy'n gysylltiedig ag addysg ddewisol yn y cartref o fewn yr awdurdod lleol?
    - Pa gysylltiad ydych chi'n ei gael â chynghorwyr lleol mewn perthynas ag addysg ddewisol yn y cartref?

3. Lle nad yw addysg ddewisol yn y cartef yn ddewis bwriadol a wneir gan deuluoedd, sut ydych chi'n gweithio
    - gyda chydweithwyr yn yr ALl ehangach? (Holwch am: ADY, Cynhwysiant, ysgolion)
    - gyda theuluoedd?

4. Pa ddefnydd a wneir o'r data lleol…
    - i nodi tueddiadau a phatrymau'n ymwneud ag addysg ddewisol yn y cartref? (e.e. rhesymau dros ddewis addysg yn y cartref, grwpiau blwyddyn, ysgol benodol)
    - i uwchgyfeirio pryderon os caiff materion penodol eu nodi?
    - i sbarduno newid yn y broses neu'r dull o ymdrin ag addysg ddewisol yn y cartref o fewn yr awdurdod lleol?

5. Sut ydych chi'n defnyddio'r cyfraniad blynyddol o £50,000 gan Lywodraeth Cymru i wella'r capasiti i gyflawni'r polisi addysg ddewisol yn y cartref?

- Sut ydych chi'n defnyddio'r cyfraniad ychwanegol a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru yn seiliedig ar niferoedd y disgyblion a addysgir yn y cartref?
- Pa gapasiti staff ychwanegol sydd gennych nawr i gyflawni'r polisi addysg ddewisol yn y cartref?
- Beth sy'n gweithio'n dda?

6. Sut mae eich prosesau addysg ddewisol yn y cartref wedi newid (os o gwbl) ers cyflwyno'r canllawiau statudol?
    - Sut mae teuluoedd wedi ymateb i'r newid mewn prosesau?
    - I ba raddau y mae wedi darparu mwy o eglurder? Ym mha ffordd?
    - Pa broblemau ydych chi wedi'u cael (os o gwbl) wrth gymhwyso'r canllawiau statudol?

## Canllawiau Statudol – Addasrwydd yr addysg

7. Sut ydych chi'n pennu addasrwydd yr addysg yn eich awdurdod lleol?
    - Holwch am: ymweliadau personol, ymweliadau rhithwir (e.e. Teams), derbyn adroddiadau gan rieni
    - Pa mor aml ydych chi'n cynnal yr asesiad hwn gyda dysgwr a addysgir yn y cartref?
    - Ydych chi'n blaenoriaethu achosion, ac os felly, ar ba sail?

8. Ym mha ffordd (os o gwbl) y mae'r canllawiau wedi eich helpu i asesu addasrwydd yr addysg?
    - Pa mor ddefnyddiol yw'r nodweddion (gweler Atodiad A) a amlinellir yn y canllawiau statudol i'ch galluogi i wneud hyn?
    - Sut mae eich prosesau wedi newid (os o gwbl) o ran asesu addasrwydd addysg ers i'r canllawiau statudol gael eu cyflwyno?
      Pa broblemau (os o gwbl) ydych chi wedi'u cael wrth ddefnyddio'r canllawiau i asesu addasrwydd yr addysg?

9. Pa dystiolaeth ydych chi'n gofyn amdani wrth wneud eich asesiad i benderfynu ar addasrwydd addysg?
    - Sut ydych chi'n priodoli unrhyw enghreifftiau o waith i'r plentyn?
    - Ydych chi'n gofyn am samplau[3] o waith gan y plentyn, neu enghreifftiau gan rieni?
    - A yw'r canllawiau'n nodi'n ddigon clir yr hyn sydd ei angen fel tystiolaeth?
    - (*Os nad ydynt*), sut y gellid gwella'r canllawiau?

[3] Mae samplau'n cyfeirio at ddarnau gwirioneddol o waith myfyrwyr tra byddai enghreifftiau'n ddisgrifiadau darluniadol o'r mathau o weithgareddau a wneir neu'r pynciau a drafodir.

10. I ba raddau y mae rhieni'n ymgysylltu â'r awdurdod lleol ynghylch ymweliadau i benderfynu addasrwydd yr addysg?

11. Pa drefniadau mae eich awdurdod lleol yn eu rhoi ar waith er mwyn gweld y plentyn?

12. I ba raddau y mae'r canllawiau statudol wedi gwneud gwahaniaeth i'ch gallu i weld y plentyn o'i gymharu ag o'r blaen?
    - Faint mwy o ddysgwyr a addysgir yn y cartref ydych chi wedi gallu eu gweld ers i'r canllawiau statudol gael eu rhoi ar waith?
    - (os bu cynnydd) Beth fu'r prif ysgogydd i alluogi hynny?
    - (os bu lleihad) Pa heriau rydych chi'n dal i'w hwynebu sy'n eich atal rhag gweld y plentyn?

13. I ba raddau y mae'r canllawiau'n mynd yn ddigon pell o ran rhoi'r pwerau i awdurdodau lleol allu gweld y plentyn?
    - (*Os nad ydynt*), beth arall y gellid ei gynnwys neu ei egluro yn y canllawiau ynghylch gallu gweld y plentyn, er mwyn eu cryfhau?
    - A oes unrhyw fylchau yn y canllawiau statudol presennol ynghylch pwerau awdurdodau lleol i weld y plentyn?
    - A oes unrhyw beth yr hoffech i'r canllawiau ei gynnwys neu ei egluro ynghylch gallu'r awdurdod lleol i weld y plentyn?

14. Sut mae'r penderfyniad i benderfynu ar addasrwydd addysg yn cael ei gytuno?
    - Pwy sy'n rhan o'r broses o benderfynu a yw addysg yn addas?
    - A oes panel sy'n penderfynu ar hyn?
    - Os felly, pwy sy'n mynychu'r panel a sut mae'n gweithio?
    - Os yw'n benderfyniad swyddog unigol, sut mae hyn yn cael ei gymeradwyo?

15. I ba raddau y mae'r canllawiau statudol yn mynd yn ddigon pell o ran rhoi'r pwerau i awdurdodau lleol benderfynu ar addasrwydd yr addysg?
    - (*Os nad ydynt*), beth arall y gellid ei gynnwys neu ei egluro yn y canllawiau ynghylch penderfynu ar addasrwydd yr addysg, er mwyn eu cryfhau?
    - A oes unrhyw fylchau yn y canllawiau statudol presennol ynghylch pwerau awdurdodau lleol i benderfynu ar addasrwydd yr addysg?
    - A oes unrhyw beth yr hoffech i'r canllawiau ei gynnwys neu ei egluro ynghylch pennu addasrwydd yr addysg?

## Gorchmynion mynychu'r ysgol

16. Lle yr ystyrir nad yw'r addysg yn addas, sut mae hyn yn cael ei gyfleu i rieni?
    - Ydych chi'n darparu adborth ysgrifenedig ar yr asesiad o addasrwydd yr addysg?
    - Pa gefnogaeth sy'n cael ei chynnig i rieni?
    - Pa gamau pellach sy'n cael eu cymryd?

- Pa mor effeithiol yw hyn?

17. A yw'r awdurdod lleol yn cymryd camau ffurfiol (e.e. cyhoeddi gorchmynion mynychu'r ysgol) os na allwch bennu bod yr addysg yn addas?
    - Pa dystiolaeth ydych chi'n ei chyflwyno i gefnogi unrhyw gamau a gymerwyd?

18. Ydych chi wedi dyroddi unrhyw orchmynion mynychu'r ysgol mewn perthynas ag addysg ddewisol yn y cartrefi dros y tair blynedd diwethaf?
    - Beth oedd y prif resymau dros y rhain?
    - A yw eich awdurdod lleol wedi gweld cynnydd mewn camau gweithredu ffurfiol (e.e. gorchmynion mynychu'r ysgol)
    - Pa effaith y mae unrhyw gamau ffurfiol wedi'i chael ar addasrwydd yr addysg a dderbyniwyd gan y plentyn?

19. I ba raddau yr ydych chi'n defnyddio'r deunyddiau atodol anstatudol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru?
    - Holwch am: y defnydd o:
        - lythyrau cychwynnol a dilynol ynghylch addysg ddewisol yn y cartref,
        - templedi ar gyfer rhieni, i gael barn y plentyn, adroddiad yr ALI
        - Templedi gorchymyn mynychu'r ysgol
    - A oes unrhyw dempledi ychwanegol a fyddai'n ddefnyddiol i chi eu cael?
    - I ba raddau y byddai'n ddefnyddiol pe bai'r templedi'n statudol?

## Cymorth i deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref

20. I ba raddau yr ydych chi'n teimlo bod y canllawiau wedi egluro'r cymorth y dylai'r awdurdod lleol ei ddarparu i deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref?

21. Sut ydych chi'n defnyddio'r arian ychwanegol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i gefnogi teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref?
    - Sut mae'r grant yn cael ei ddefnyddio i drefnu gweithgareddau gyda'r gymuned addysg ddewisol yn y cartref i chwalu rhwystrau?

22. Pa weithgareddau ydych chi'n eu trefnu (os o gwbl) i feithrin perthynas gadarnhaol rhwng yr awdurdod lleol a theuluoedd sy'n addysgu yn y cartref yn eich ardal chi?

    - Holwch am: weithgareddau, digwyddiadau, gwersi, y cymorth sydd ar gael
    - I ba raddau y mae'r gweithgareddau hyn yn helpu i chwalu rhwystrau wrth ymgysylltu â theuluoedd sy'n addysgu yn y cartref?
    - Pa ddull sydd wedi bod fwyaf effeithiol, a pham?

23. A oes unrhyw rieni sy'n addysgu yn y cartref wedi gofyn i'r awdurdod lleol benderfynu a oes gan eu plentyn anghenion dysgu ychwanegol (ADY)?

    - Beth oedd natur yr ADY?

- Pa effaith a gafodd penderfyniad yr awdurdod lleol ynghylch ADY (e.e. a ddychwelodd y dysgwr i'r ysgol)?

24. A yw'r awdurdod lleol yn gweithio gyda'r plentyn a rhiant y plentyn i nodi'r Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) briodol?
    - Pa DDdY y mae'r dysgwr yn ei derbyn? Ble mae hyn yn cael ei ddarparu?

25. A oes unrhyw rieni sy'n addysgu yn y cartref wedi gofyn am wasanaethau cwnsela drwy'r awdurdod lleol?
    - Sut mae hyn yn cael ei bennu?
    - Sut mae hyn yn cael ei ddarparu?
    - Pa effaith gafodd y gwasanaeth cwnsela?

26. Pa wasanaethau cymorth ieuenctid (os o gwbl) a gynigir i deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref?
    - A yw'r swyddog addysgu ddewisol yn y cartref yn cael cyfarfodydd ag arweinydd gwasanaethau ieuenctid yr awdurdod lleol?

27. Sut mae'r awdurdod lleol yn cefnogi dysgwyr a addysgir yn y cartref i gael mynediad at Wasanaethau Gyrfaoedd?
    - Sut mae teuluoedd yn cael gwybod am Wasanaethau Gyrfaoedd?
    - Sut ydych chi'n gwybod a yw teuluoedd wedi eu defnyddio?
    - A yw'r ALl yn cwrdd â Gyrfa Cymru i gael adborth?

28. Sut mae'r awdurdod lleol yn cefnogi dysgwyr a addysgir yn y cartref i gael mynediad at arholiadau?
    - A yw'r awdurdod lleol wedi nodi canolfan arholiadau ar gyfer dysgwyr a addysgir yn y cartref?
    - Pa fyrddau arholi sy'n cael eu cynnig?
    - Pwy sy'n ariannu'r arholiadau?
    - Sut mae dysgwyr sydd angen trefniadau mynediad er mwyn sefyll arholiadau yn cael eu cefnogi?

29. I ba raddau ydych chi'n delio ag ymholiadau gan grwpiau addysg ddewisol yn y cartref ynghylch y canllawiau statudol ar hyn o bryd?
    - Pa broblemau mae hyn yn eu hachosi (os o gwbl)?
    - Sut mae'n effeithio ar eich gallu i ddarparu cymorth ar gyfer addysg ddewisol yn y cartref?